Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **GŴYS A RHAGLEN** | **SUMMONS AND AGENDA** |
| **ar gyfer** | **for a** |
| **CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| **a gynhelir yn** | **to be held at the** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD IAU, 9 HYDREF 2014** | **THURSDAY 9 OCTOBER 2014** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2.00 pm** |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 8 Mai, 2014 (10.30 am)
- 8th Mai, 2014 (Cyfarfod Blynyddol) (2.00 pm)
- 29th Gorffennaf, 2014 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD**

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol a Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **ADRODDIAD PERFFORMIAD 2013/14**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

***"PENDERFYNWYD i ddirprwyo awdurdod i'r Dirprwy Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad Corfforaethol, i gwblhau a chyhoeddi'r cynllun llawn ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Hydref."***

- Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.

7. **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AM 2013/14**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

***"Penderfynwyd derbyn yr adroddiad."***

- Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busines y Cyngor).

8. **NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - RHEOLAU GWEITHREFN Y CYNGOR A PHENODI CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU**

**DEMOCRATAIDD**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

    - ***argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad*.**

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitrol.

**9. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – BLAENRAGLEN WAITH**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 19 Mai, 2014 wedi penderfynu fel a galnlyn :-**

**"Argymell i'r Cyngor Sir:**

- **I gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i ran 4.2.12 y Cyfansoddiad fel y manylir arnynt yn yr atodiad i'r adroddiad, ac**

- **I awdurdodi'r Swyddog Monitro I ddiweddaru'r Cyfansoddiad ar y sail honno."**

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

**10. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyreid yr uchod yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

    - ***Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir:***

    - ***Ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau I Gyfansoddiad y Cyngor fel oedd i'w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

    - ***Y bydd Is-Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei sefydlu i'r pwrpas o wrando apeliadau o dan y Rheoliadau.***

    - ***Pan fo Aelod yn cymryd absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau, ac yn derbyn uwch gyflog, ni fydd yr uwch gyflog hwn yn cael ei dalu yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol sydd yn fwy na phythefnos. Yn unol a'r Rheoliadau, mae Aelodau yn parhau i fod yn gymwys I dderbyn eu lwfans sylfaenol. Gellir penodi dirprwy i lanw dros yr Aelod ar absenoldeb teuluol cyn belled ag y bo'r cyfnod o absenoldeb yn parhau am fwy na phythefnos, a bydd gan y dirprwy hawl i dderbyn uwch gyflog lle bo'n briodol.***

    - ***Y rhoddir awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i'r Prif Weithredwr i ganslo neu i ddiweddu cyfnod o absenoldeb teuluol nad yw yn dod o dan y Rheoliadau.***

- Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitoro.

**11. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - MYNYCHU O BELL**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

  - ***Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir –***

  - ***Ei fod yn nodi'r adroddiad a'r disgresiwn a ddarperir yn Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011.***

  - ***Ei fod yn gwrthod y defnydd o drefniadau mynychu o bell ar hyn o bryd.***

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**12. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - FFRAMWAITH POLISI**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

***" PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad."***

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**13. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - RHEOLIADAU RHEOLAU SEFYDLOG**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :**

  - ***PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-***

  - ***Nodi cynnwys y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Diwygiad)(Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").***

  - ***Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau sydd raid wrthynt er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn gyson â Rheoliadau 2014 fel y manylir ar y rheini yn yr adroddiad. Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud newidiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006) o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol(Cymru) 2011.***

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitor.

**14.** **AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR**

- **Adrodd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin wedi penderfynu fel a ganlyn :-**

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor fod Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi cynigion ar gyfer 2015 ymlaen yn cynnwys opsiynau i gynnal cyfarfodydd ar ddiwrnodau penodol yn ystod yr wythnos a bod cynrychiolydd o bob Grŵp yn cynorthwyo gyda'r broses hon."***

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro. .

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 8 Mai 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M Evans, Jim Evans, John Griffith, D R Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, H E Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Yr Amgylchedd a Thechnegol)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Michael Wilson (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (Eitem 11), Non Tudur Williams (Uwch-Reolwr Rhanddeiliaid), Swyddfa Bost y Goron (Eitem 5), Mr John Jones (Rheolwr Rhanbarth, Swyddfa Post y Goron (Eitem 5) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith, K P Hughes, R Ll Jones ac Dafydd Rhys Thomas |

Rhoes y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor Sir a gan mai hwn oedd ei gyfarfod diwethaf ef fel Cadeirydd, diolchodd i'r Swyddogion a'r Aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

### 1. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2014 a 27 Mawrth 2014.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd Jim Evans ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 5 ar y rhaglen. Arhosodd yn y cyfarfod am y cyflwyniad ond aeth allan yn ystod y sesiwn cwestiwn ac ateb a gafwyd wedyn.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Dywedodd y Cadeirydd fod grŵp gwleidyddol newydd wedi cael ei ffurfio o'r enw Grŵp y Chwyldroadwyr a bod y grŵp yn cynnwys y Cynghorydd Jeff Evans fel Arweinydd y Grŵp a'r Cynghorydd Peter Rogers.

Ymwelodd y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones, AM a Phrif Weinidog Cymru â Chymunedau'n Gyntaf ar Ynys Môn yr wythnos ddiwethaf a gwelodd yr Academi Alwedigaethol a'r cynllun LIFT sy'n cefnogi aelwydydd di-waith i gael hyfforddiant ac/neu swyddi. Llongyfarchodd y Prif Weinidog y Cyngor ar arwain ar y Rhaglen Gwrthdlodi a'r staff am eu gwaith ardderchog. Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn yw'r un fwyaf llwyddiannus yng Nghymru o ran cael gwaith ac/neu hyfforddiant i bobl ddi-waith.

Ar ddydd Sul, Ebrill 27, cynhaliwyd seremoni yn Fferm Neuadd, Llanbadrig i ddadorchuddio plac er cof am y ffermwr a ddaeth i gael ei adnabod fel tad y Corfflu Cymreig, y Brigadydd Gadfridog Syr Owen Thomas. Rhagor na 90 blynedd ar ôl iddo farw, mae Syr Owen Thomas yn parhau i gael ei gydnabod fel ffigwr ysbrydoledig ac am ei allu fel arweinydd rhagorol. Roedd yn anrhydedd cael bod yn bresennol yn y seremoni i gydnabod ac i dalu teyrnged i lwyddiant aruthrol Syr Owen Thomas gan gynnwys ei wasanaeth i'w gymuned, i Ynys Môn a'i wlad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Aled Morris Jones ac i Mrs Pat West, Prif Swyddog Amgueddfeydd am drefnu'r digwyddiad arbennig hwn.

Llongyfarchwyd Clwb Ffermwyr Ifanc Rhos-y-bol ar ei lwyddiant yn ddiweddar yng Nghystadleuaeth Adloniant Ffermwyr Ifanc Cymru yn Venue Cymru, Llandudno ac am gipio'r drydedd wobr.

Yn ogystal, llongyfarchwyd y Cynghorydd Carwyn Jones am ennill y wobr gyntaf am actio ac am ei bortread o Mrs Brown o "Mrs Brown's Boys", ac i Elin Haf Morris Jones am ennill y wobr gyntaf am ei phortread o Vera o "Gwlad yr Astra Gwyn."

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ef a'r Aelodau â theulu Mr Richard Jones, cyn Brifathro Ysgol Kingsland, Caergybi. Roedd y diweddar Mr Jones yn dod yn wreiddiol o Gaergeiliog ond treuliodd ei flynyddoedd diweddaraf ym Miwmares. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd ag unrhyw Aelodau o'r Cyngor neu staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni chafwyd yr un ddeiseb.

5. **SWYDDFEYDD POST CAERGYBI A LLANGEFNI**

Rhoes y Cadeirydd groeso i Non Tudur Williams, Uwch Reolwraig Cydranddeiliaid a Mr John Jones, Rheolwr Ardal Gwasanaeth Swyddfeydd Post y Goron i'r cyfarfod a oedd, fel uwch gynrychiolwyr y Swyddfa Bost wedi cael gwahoddiad i annerch y

Cyngor yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2014.

Rhoes Non Tudur Williams gyflwyniad i'r Aelodau ar strategaeth a gweledigaeth y Swyddfa Bost ar gyfer dyfodol rhwydwaith cyfan y Swyddfa Bost yn y dyfodol gan gynnwys Swyddfeydd Post y Goron er mwyn cwrdd â'r her o ddiwallu anghenion a dyheadau cwsmeriaid mewn gwahanol ffyrdd a sicrhau darpariaeth sy'n ariannol ymarferol, cynaliadwy a chyfoes. Rhoes amlinelliad o'r ddarpariaeth gyfredol yn Ynys Môn a'r modd y caiff ei chyflawni ac eglurodd y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer rhyddfreinio Swyddfeydd Post y Goron yng Nghaergybi a Llangefni.

Ar ddiwedd yr anerchiad, rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y Swyddfa Bost yn arbennig felly o ran eu pryderon ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer Swyddfeydd Post y Goron yn Llangefni a Chaergybi a goblygiadau ac effeithiau hynny o ran cyflogaeth, hwylustod y gwasanaethau a'r ymdrechion sy'n mynd rhagddynt i adfywio canol trefi Llangefni a Chaergybi. Pwysleisiodd cynrychiolwyr y Swyddfa Bost ymrwymiad y Swyddfa Bost i fod wrth wraidd y gymuned a dywedasant fod rhaglen drawsnewid y goron a rhaglen drawsnewid y rhwydwaith yn ehangach yn un a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiad, canghennau newydd, dulliau newydd o ddarparu gwasanaeth ac oriau agor hirach a mwy hyblyg.
Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Swyddfa Bost am roddi o'u hamser i fynychu'r cyfarfod hwn o'r Cyngor Sir ac am ymateb i gwestiynau a phryderon yr Aelodau.

## 6. CYNLLUN GWELLA 2014-15 – CYFLAWNIAD BLYNYDDOL

Cafodd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a oedd yn cynnwys y Ddogfen Cyflawniad Blynyddol (Cynllun Gwella) ar gyfer 2014/15 fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill 2014 ei roi gerbron y Cyngor i'w ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad, Trawsnewid, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol fod y Ddogfen Cyflawni yn egluro sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ar ei addewidion yn ystod y flwyddyn nesaf a bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill wedi penderfynu derbyn y Ddogfen Cyflawni Flynyddol ar gyfer 2014/15 ac wedi argymell fod y Cyngor Sir yn ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2014.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rogers at yr amcanion ar gyfer trawsnewid Gwasanaethau Hamdden yr Awdurdod ac yn arbennig felly, nodi model gwasanaeth newydd ar gyfer Cwrs Golff Llangefni a phwysleisiodd bod angen gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu ac/neu ddadgomisiynu asedau gyda dealltwriaeth a gwerthfawrogiad llawn o oblygiadau hynny a'r hyn y bydd eu gweithredu'n ei olygu. Cyfeiriodd yn benodol hefyd at y Camerâu Goruchwylio. Cadarnhaodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden fod ymrwymiad eisoes wedi ei wneud yn y Pwyllgor Sgriwtini ac y byddir yn edrych ar holl asedau'r Cyngor, gan gynnwys y Clwb Golff yn Llangefni.

**Penderfynwyd mabwysiadu'r Ddogfen Cyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella) ar gyfer 2014/5.**

## 7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd i'w ystyried – yr adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn y Cyngor.

Dywedwyd bod angen i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei bwyllgorau yn dilyn rhybudd fod un Aelod wedi gadael y Grŵp Annibynnol, a bod Grŵp newydd wedi cael ei sefydlu yn dilyn hynny, sef y Grŵp Chwyldroadwyr ac arno 2 Aelodau a rhybudd fod un Aelod digyswllt wedi ymuno gyda'r Grŵp Annibynnol. Cylchredwyd yn y cyfarfod fatrics newydd a oedd yn nodi nifer y seddau yr oedd gan bob un o'r grwpiau hawl iddynt a nifer y seddau a ddyrennir i Aelodau digyswllt yn ôl yr arfer yn lleol fel y cafodd ei gadarnhau gan y Cyngor ar 5 Rhagfyr 2013.

Dygodd y Cynghorydd Aled Morris Jones sylw at y ffaith bod ei ddynodi ef fel Aelod digyswllt yn gamgymeriad oherwydd mae'n aelod o grŵp gwleidyddol cenedlaethol - y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, a gofynnodd i hynny gael ei adlewyrchu yn y matrics.

Eglurodd dy Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) bod defnydd o'r ymadrodd “digyswllt” yn cael ei dynnu o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac mae'n cyfeirio at y ffaith bod Aelodau, i bwrpas cydbwysedd gwleidyddol, yn rhai digyswllt oni bai eu bod yn aelodau o grŵp ar y Cyngor p'un a ydynt yn aelodau o blaid wleidyddol y tu allan i'r Cyngor ai peidio. Awgrymodd fod y cywiriad yn cael ei gofnodi a bod troednodyn esboniadol yn cael ei ychwanegu at y matrics cydbwysedd gwleidyddol. Cytunwyd y byddai troednodyn yn cael ei gynnwys yn y matrics safonol ar gyfer y dyfodol yn egluro fod “digyswllt” yn golygu'r rheiny nad ydynt yn rhan o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees at gofnodion y cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr 2013 a oedd yn adlewyrchu'r ffaith ei fod wedi gofyn i'r Arweinydd a oedd yn arfer dda i gael y ddau Aelod Llafur ar y Pwyllgor Gwaith yn wyneb y ffaith mai nhw oedd yr unig ddau Gynghorydd Llafur allan o gyfanswm y Cyngor o dri deg. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn ac nad oedd wedi cael yr ateb hwnnw, cadarnhaodd y Cynghorydd Rees ei fod wedi trafod y mater gyda'r Arweinydd a oedd wedi dweud ei fod eisiau sicrhau sefydlogrwydd cyn ystyried unrhyw newidiadau i gydbwysedd gwleidyddol. Gan fod hynny bum mis yn ôl, gofynnodd y Cynghorydd Rees a yw'r Arweinydd yn awr yn bwriadu gweithredu ynglŷn â'r diffyg cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor Gwaith?

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi rhoi sylw difrifol i'r mater ac ail-ddatganodd ei fod yn credu fod sefydlogrwydd yn bwysig. Eglurodd fod y grwpiau Annibynnol a Llafur wedi sefydlu partneriaeth ac fel rhan o'r bartneriaeth honno, penderfynwyd y byddai'r ddau Aelod Llafur yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith ac maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr. Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd –**

**• Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1989, a nifer y seddau a roddwyd i Aelodau nad yw cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt yn ôl y matrics.**
**• Yn unol â'r uchod, bod y Cyngor yn penodi aelodau digyswllt i seddau nad ydynt wedi eu dyrannu ar Bwyllgorau ac yn dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gydag Arweinwyr y Grwpiau, i benodi Aelodau digyswllt i unrhyw seddi gweigion a allai godi'n achlysurol yn ystod y flwyddyn.**
**• Cadarnhau y dylai Aelodau digyswllt, lle mae ganddynt hawl, gadw eu seddau cyfredol ar bwyllgorau am y tro a bod y Cynghorydd Aled Morris Jones yn cael ei benodi i'r sedd wag ar yr Is-Bwyllgor Indemniadau.**
**• Gofyn i Arweinyddion y Grwpiau ddarparu manylion am aelodaeth pwyllgorau i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag sy'n bosibl a hynny'n unol â'r newidiadau i aelodaeth a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 8. CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU 2014-15

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar y cynllun ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i Aelodau. Yn yr adroddiad, nodwyd penderfyniadau Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) ar gyfer 2013/14 o ran cyflogau sylfaenol a chyflogau lefel uwch, cyflogau dinesig, taliadau i aelodau cyfetholedig a thaliadau a lwfansau eraill ynghyd â manylion cyfyngiadau lle mae hynny'n berthnasol ac fel a bennwyd yn ei adroddiad blynyddol dyddiedig Chwefror 2014.

**Penderfynwyd –**

**• Cadarnhau dyrannu uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi ar gyfer 2014/15 yn unol â pharagraff 2.12 yr adroddiad.**
**• Cadarnhau y dylai lwfansau Lefel C fel y penderfynwyd arnynt gan yr IRP fod yn daladwy i swyddi'r pennaeth a'r ddiprwy bennaeth dinesig gan gymryd i ystyriaeth y baich gwaith a'r cyfrifoldebau a ragwelir yn unol â pharagraff 2.6 yr adroddiad.**
**• O safbwynt taliadau i Aelodau cyfetholedig, ni fydd cap blynyddol yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwaith paratoadol (paragraff 3.5 yr adroddiad).**
**• Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2014/14 fel y cânt eu pennu gan yr IRP a'u hamlinellu yn yr adroddiad.**

## 9. PWYLLGOR ARCHWILIO – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013-14

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar waith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn ddinesig 2013/14. Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Jim Evans fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees at adroddiad mewnol beirniadol ar drefniadau caffael y Cyngor ac ar awgrymiad a wnaed gan CLILC mewn erthygl ar brynu nwyddau a gwasanaethau, y dylai awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad caffael blynyddol a nodi aelod arweiniol ar y Pwyllgor Gwaith a Swyddog Arweiniol a fyddai'n gyfrifol am sicrhau fod trefniadau caffael mor effeithlon â phosib a sicrhau fod gan gynghorwyr rheng-flaen rôl benodol o ran adolygu a sgriwtineiddio caffael. Gofynnodd a oedd y Cynghorydd Jim Evans yn cytuno y byddai honno'n arfer dda ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Dyweodd yr Arweinydd ei fod yn cytuno gyda'r awgrymiadau a wnaed a dywedodd fod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio wedi cael ei gynnal ddiwedd y mis diwethaf pryd y rhoddwyd sylw manwl i fater caffael yn y Cyngor a bod argymhellion ar gyfer gwella'r trefniadau caffae wedi esblygu o'r cyfarfod hwnnw.

Nododd yr Aelodau fod cynnwys, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol, wybodaeth ynghylch presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn yn ddefnyddiol ac awgrymwyd y dylid efelychu hynny mewn adroddiadau blynyddol eraill.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a nodi ei gynnwys.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Rhoes y Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor amlinelliad ar lafar o brif ddigwyddiadau'r 12 mis diwethaf gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau a oedd yn tystio i welliant, cynnydd ac aeddfedrwydd parhaus y Cyngor.

Mynegodd rhai Aelodau o'r Cyngor eu siom nad oedd adroddiad blynyddol yr Arweinydd wedi bod ar gael iddynt yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod yn unol â'r hyn a nodwyd ar y Rhaglen. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) fod rhaid i Arweinydd y Cyngor, yn unol â thelerau'r Cyfansoddiad, ddarparu Adroddiad Blynyddol ar ffurf i'w gytuno arno gyda Chadeirydd y Cyngor. Yn y dyfodol, awgrymwyd y dylai fersiwn ysgrifenedig o'r adroddiad gael ei gylchredeg i Aelodau wedi i'r Arweinydd ei gyflwyno. Awgrymwyd hefyd y dylai cynnwys yr Adroddiad Blynyddol fod yn fwy cytbwys a sôn hefyd am unrhyw nodau ac amcanion na fu modd eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd a nodi ei gynnwys.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2013-14

Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr Michael Wilson ar raglen weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2013-14 ynghyd â'i raglen arfaethedig ar gyfer 2014-15.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2013 a Mai 2014.**

**• Cymeradwyo rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15 fel y cafodd ei hamlinellu yn Atodiad B yr adroddiad.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2013-14

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Sgriwtini yn manylu ar y gwaith a wnaed gan ddau bwyllgor sgriwtini'r Cyngor o 23 Mai 2013 i 8 Mai 2014.

Fel yr Eiriolwr Sgriwtini cyfredol, pwysleisiodd y Cynghorydd R. Meirion Jones swyddogaeth sgriwtini fel ffrind beirniadol ac mewn perthynas â gostwng nifer y pwyllgorau sgriwtini o 5 i 2, nododd fod y Cyngor Sir wedi dweud y byddai'n adolygu'r trefniant hwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd -**

**• Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini.**
**• Penodi'r Cynghorydd Peter Rogers yn Eiriolwr Sgriwtini o fis Mai 2014 hyd fis Mai 2015.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2013-14

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2013/14.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd fel rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2013/14.**

## 14. CYNLLUN DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU – DATBLYGU HYFFORDDIANT AELODAU 2014-15

Cyflwynwyd – adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Cynllun Hyfforddiant arfaethedig ar gyfer yr Aelodau am y flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd mabwysiadu ac ymgymryd â'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau am 2014/15 fel y nodwyd hynny yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 15. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan Jeff Evans i'r Cynghorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff:

*"Faint o fusnesau/sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn derbyn £500 am ddarparu cyfleusterau toiled? Ble mae'r rhain a beth yw cyfanswm cost y ddarpariaeth."*

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff, fod 31 o fusnesau wedi derbyn grant £500 yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2013/14, cyfanswm o £15,500. Roedd y busnesau hyn wedi eu lleoli ar hyd a lled yr ynys gyda thraean ohonynt yng Nghaergybi. Yn 2013/14, cafodd y

gwasanaeth y cymorth ariannol ar gyfer y grant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Eleni, ni fydd y grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol, yn hytrach, bydd y Cyngor yn ei dderbyn yn y Grant Cymorth Refeniw. Mae'r Adran yn disgwyl derbyn o leiaf £15,000 o'r GCR i barhau gyda'r cynllun grant eleni ac mae'r rhestr o'r sefydliadau a gymeradwywyd wrthi'n cael ei llunio a chyda gobaith, bydd wedi'i chwblhau erbyn yr wythnos nesaf gyda ffigyrau tebyg eto, h.y. 30 neu fwy o sefydliadau. Er gwybodaeth bellach, i gael eu cynnwys yn y cynllun, rhaid i bob busnes fod ar agor ar amseroedd rhesymol, darparu mynediad i'r anabl ac arddangos poster A4 yn hysbyebu'r ffaith fod y cyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Jeff Evans a fyddai'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff yn mofyn sicrwydd gan yr Adain Rheoli Gwastraff bod y cynllun grantiau toiledau'n cael ei weithredu ar unwaith oherwydd roedd ar ddeall nad oedd unrhyw fusnesau wedi tanysgrifio i'r cynllun hyd yma ac nad oedd unrhyw gyllid wedi'i ryddhau ac y dylid clustnodi'r cyllid i'r Adain Rheoli Gwastraff.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff bod y rhan fwyaf o'r busnesau a oedd yn rhan o'r cynllun llynedd wedi penderfynu cario ymlaen yn wirfoddol hyd oni wyddys beth fydd canlyniad cytundeb eleni. Mae gwaith yn mynd rhagddo ers derbyn y grant a chyda gobaith, bydd y rhain yn cael eu cymeradwyo yr wythnos nesaf.

## 16. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOLAU 4.1.13.1 & 4.1.17.1

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd R Meirion Jones yn unol â Rheolau 4.1.13.1 a 4.1.17.1 y Cyfansoddiad wedi ei lofnodi gan y Cynghorwyr Bob Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, Carwyn Jones, Llinos Medi Huws, John W Griffith, T Lloyd Hughes, A W Mummery, Ann Griffith a Vaughan Hughes.

- *"Ailystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Lled-farnwrol a holl Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau eraill y Cyngor a rhoi sylw i'r gofynion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.*
- *Cyfeirio'r mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd".*

Siaradodd y Cynghorydd R Meirion Jones ar y cynnig.

**Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

## 17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Trafodwyd a phenderfynwyd –

*Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni Yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.*

**18. CAIS GAN GYNGHORYDD I YMESTYN EI GYFNOD O ABSENOLDEB SALWCH**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar gynnwys y cais.

**Penderfynwyd, i bwrpas Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i dderbyn gwaeledd y cynghorydd fel y rheswm am iddo fethu â mynychu cyfarfodydd ac i ganiatáu ei absenoldeb o holl gyfarfodydd y Cyngor neu Bwyllgorau am gyfnod ychwanegol o 6 mis o 11 Mehefin 2014 hyd 11 Rhagfyr 2014.**

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2014 (2:00 pm)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Raymond Jones, Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, H E Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M Evans, Alun W Mummery, R G Parry, OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol (AP)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith, T Ll Hughes, R Ll Jones ac Dafydd Rhys Thomas |

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Vaughan Hughes yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2014/15.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, addawodd y Cynghorydd Hughes y byddai'n cyflawni dyletswyddau'r swydd hyd eithaf ei allu. Achubodd ar y cyfle hefyd i dalu teyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, sef y Cynghorydd Gwilym O. Jones, am ei ymrwymiad yn cynrychioli'r Cyngor Sir yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Fel y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, diolchodd y Cynghorydd Gwilym O Jones i holl aelodau a swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Cafwyd crynodeb ganddo hefyd o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd a oedd yn cynnwys cynrychioli'r Cyngor Sir mewn gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Roedd y Cynghorydd Jones hefyd yn dymuno diolch i'r Is-Gadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Raymond Jones, am ei gymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Vaughan Hughes gan obeithio y byddai'n mwynhau cyfnod hapus a llwyddiannus fel Cadeirydd y Cyngor Sir.

2. **IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Jim Evans yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am y cyfnod 2014/15.**

Diolchodd y Cynghorydd Jim Evans i'r aelodau am eu hyder ynddo. Dywedodd ei fod yn bwriadu cydweithredu gyda'r Cadeirydd newydd a'i gefnogi.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

Dim.

4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

5. **DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, cafodd y rheini a nodir isod eu henwi fel yr aelodau yr oedd wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd) - Aelod Portffolio ar gyfer Addysg
Y Cynghorydd J. Arwel Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a'r Amgylchedd
Y Cynghorydd K.P. Hughes - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
Y Cynghorydd Aled M. Jones - Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden
Y Cynghorydd H. Eifion Jones - Cyllid
Y Cynghorydd Richard A. Dew - Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff
Y Cynghorydd Alwyn Rowlands - Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol

6. **ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR GYFER 2014-15**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Vaughan Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.**

7. **CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhannau o'r Cynllun Dirprwyo a nodir yn y Cyfansoddiad fel rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu arnynt (fel sydd wedi ei nodi ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad).**

8. **CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir ato yn Rhan 3.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r isod:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (is-bwyllgor o’r Cyngor Sir)
- Panel Penodi i’r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**9. RHAGLEN O GYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r rhaglen o Gyfarfodydd Arferol y Cyngor Sir am y flwyddyn i ddod:-**

| | | |
|---|---|---|
| **9 Hydref, 2014** | **-** | **2.00 p.m.** |
| **4 Rhagfyr, 2014** | **-** | **2.00 p.m.** |
| **26 Chwefror, 2014** | **-** | **2.00 p.m.** |
| **7 Mai, 2015** | **-** | **2.00 p.m. (Cyfarfod Blynyddol) (efallai y bydd y dyddiad hwn yn newid oherwydd yr Etholiad Seneddol).** |

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeff M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, G O Jones, Raymond Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy),<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ),<br>Prif Swyddog Datblygu (Strategaeth) (CB),<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Gareth Hall (Ynys Ynni),<br>Mr. Alex Melling (AMEC Environment & Infrastructure). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, R G Parry OBE ac Dafydd Rhys Thomas. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Mynegodd Cadeirydd y Cyngor ei longyfarchiadau a'i ddymuniadau gorau i Dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow. Mynegodd hefyd ei ddymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ac yn Sioe Sir Ynys Môn ym mis Awst. Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn y Sioe Frenhinol Gymreig yr wythnos ddiwethaf.

Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau hefyd i staff y Cyngor Sir a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau proffesiynol.

Ar nodyn tristach, cyfeiriodd y Cadeirydd at ddau unigolyn o'r Ynys oedd wedi marw'n ddiweddar. Yn gyntaf Mr. Derek Williams o Lanuwchlyn, un o'r tri a sefydlodd Gwmni Theatr Maldwyn ac a oedd yn gyfrifol am nifer o sioeau cerdd. Roedd Mr. Williams yn hanu yn wreiddiol o Amlwch. Lai nag wythnos yn ôl yn dilyn

salwch hir,  bu farw Mr. Robin Evans, Hanesydd Arforol o Foelfre.  Roedd yn fab i longwr a pharhaodd yn nhraddodiad  Mr. Aled Eames gan ddogfennu hanes morwrol Moelfre a thu hwnt mewn nifer o lyfrau a chyhoeddiadau yn cynnwys 'Moelfre a'r Môr', 'Ynys Môn a'r Môr' a Chymru a'r Môr'.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad hefyd ag unrhyw Aelod neu Swyddog oedd wedi cael profedigaeth ers cyfarfod diwethaf y Cyngor hwn.  Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

**3. ADEILAD NIWCLEAR NEWYDD YN WYLFA - CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) ac Uwch Swyddogion eraill mewn perthynas â'r uchod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) Mr. Christian Branch, Mr. Gareth Hall (Ynys Ynni) and Mr. Alex Melling (AMEC Environment & Infrastructure) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - o ystyried maint, cymhlethdod ag amserlenni'r Adeilad Niwclear Newydd arfaethedig, roedd paratoi a mabwysiadu'r CCA yn weithgaredd yr oedd angen i'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddo.  Bydd y CCA yn cyfrannu tuag at sicrhau bod yr effeithiau tebygol sy'n wybyddus yng nghyswllt yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi, eu hosgoi, eu lliniaru ac y ceir iawndal lle bo hynny'n bosibl; a bod y manteision cymdeithasol-economiadd sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn.

Roedd y gwaith o baratoi'r CCA wedi ei gydlynu gan y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol dan gyfarwyddyd nifer o Uwch Swyddogion y Cyngor Sir.  Bu AMEC Environment and Infastructure (y rhai sy'n darparu cefnogaeth ac arbenigedd amlddisgyblaethol i'r Cyngor Sir) yn gyfrifol am ddrafftio'r ddogfen.  Roedd adnoddau i gyllido'r gwaith o baratoi'r CCA wedi eu sicrhau drwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Pŵer Niwclear Horizon.

Rhoddodd y Prif Swyddog Datblygu Strategaeth gyflwyniad sleidiau i'r Cyngor Sir.  Cyfeiriodd at yr egwyddorion oedd yn cyfarwyddo'r holl brosiect ac a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a hefyd y 7 Parth a nodwyd sy'n ceisio cyfarwyddo'r datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r Adeilad Niwclear Newydd i bentrefi mwyaf Ynys Môn ac ar hyd coridorau cludiant allweddol.  Nododd Mr. Alex Melling bod y gwaith ymgynghori ffurfiol ar y CCA eisoes wedi dechrau ym mis Chwefror 2014 ac y derbyniwyd cyfanswm o 52 o ymatebion unigol.  Roedd natur y sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wrth y cyfarfod am y prif faterion a godwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini.

Rhai materion a leisiwyd gan yr Aelodau ynghylch y canlynol:-

- Yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac ar dreftadaeth yr Ynys. Dywedodd y Swyddogion bod y Cyngor Sir (drwy'r Rhaglen Ynys Ynni) a Pŵer Niwclear Horizon wedi cytuno mewn egwyddor i gyd-ariannu person ar secondiad o Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu proses integreiddio briodol a mesurau lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg.

- Yr effaith ar fusnesau bychan a lleol yr Ynys yn ystod y gwaith o adeiladu'r safle niwclear newydd. Dywedodd y Swyddogion y bydd Coleg Menai a Phrifysgol Bangor yn arwain ar y rhaglen ddatblygu sgiliau er mwyn galluogi cwmnïau lleol i fedru cystadlu am waith yn ystod adeiladu safle Wylfa.

- Yr effaith ar dai h.y. tai rhent a thai cymdeithasol. Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud llawer o waith yng nghyswllt y galw am lety gweithwyr adeiladu a'r effaith y gall ei gael ar dwristiaeth, y farchnad dai a llety rhent.

- Pryderon ynglŷn â storio gwastraff niwclear. Dywedodd y Swyddog bod yr egwyddorion oedd ynglŷn â datblygiadau niwclear newydd, yn cynnwys storio gwastraff niwclear y tu allan i sgôp y CCA Adeilad Niwclear Newydd..

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd gweithdrefnau diogelwch/ymadael digonol yn eu lle ar gyfer preswylwyr yr Ynys pe bai digwyddiad mawr yn digwydd yn Wylfa. Dywedodd y Swyddogion y bydd yn rhaid gwerthuso'r isadeiledd priffyrdd yng nghyswllt y mater hwn.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor Sir:-**

- **Yn nodi pwrpas, sgôp ac egwyddorion y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa;**

- **Yn cydnabod rôl y Cyngor Sir yn y broses ganiatáu statudol ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd arfaethedig;**

- **Yn cefnogi ac yn mabwysiadu yn ffurfiol y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.**

Ataliodd 4 eu pleidlais.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad** | **9fed Hydref 2014** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Perfformiad 2013/14** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Prif Swyddog** | **Bethan Jones – Dirprwy Prif Weithredwr** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Gethin Morgan - Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen** |

**Natur a rheswm dros adrodd**
Mae gofyniad statudol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella a'r Mesur Llywodraeth Leol (2009) i'r Cyngor adrodd ar berfformiad dros y flwyddyn blaenorol cyn diwedd mis Hydref pob blwyddyn

**A –Cyflwyniad/ Cefndir / Materion i'w hystyried**

Mae angen i'r Cyngor gyhoeddi Cynllun Corfforaethol edrych ymlaen cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn, dogfen sy'n cynnwys prif flaenoriaethau ac Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r cyngor hefyd i lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a blaenoriaethau amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r papur hwn yn amlinellu cynhyrchu ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2013/14

**B - Ystyriaethau**

Y prif ystyriaethau fel a ganlyn: -

**Ffocws strategol a blaenoriaethau**

Mae'r Cynllun yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein **Amcanion Gwella**:-

**2013/14**

- Cynnal gwelliannau a moderneiddio Gwasanaethau **Plant** i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a cham-drin a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo
- Gwella ein darpariaeth **addysg** i alluogi plant yr Ynys, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir ac amgylchiadau i gyflawni eu llawn botensial
- Trawsnewid ein darpariaeth **Oedolion** i rymuso pobl hyn ar Ynys Môn drwy roi cymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth â phosibl iddynt yn eu gofal yn y

dyfodol

Yn ogystal, mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar gynnydd yn erbyn y **blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2013-17**, gan gynnwys

- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi;
- Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi;
- Trawsnewid ein Hamdden a Darpariaeth Llyfrgell;
- Canolbwyntio ar Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
- Trawsnewid ein Technoleg Gwybodaeth (TGCh).

Mae rhai o'r uchod hefyd yn cyfrannu tuag at ein Cytundeb Canlyniadau newydd rhwng 2013 a 2016 yn ogystal ag i'r Agenda Trawsnewid ehangach.

Mae'r Adroddiad hefyd yn nodi barn ein Arolygwyr a Rheolieiddwyr yn ystod 2013/14 yn ogystal a tanlinellu ein hymroddiad i egwyddorion cydraddoldeb a chynaladwyedd. Ceir cyfeiriad yn y ddogfen o ran sefyllfa a pherfformiad ariannol y Cyngor yn ystod 2013/14.

**Dangosyddion perfformiad**

Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad yw asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn ac wedi'w feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae gwendidau fel nodwyd drwy y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MACau). Mae dadansoddiad cyffredinol hefyd yn edrych ar Dddangosydd Perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau fel y'i mesurir drwy'r Setiau Data Gwella Gwasanaeth (DGG).

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo** | |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **6** | **Cydraddoldeb** | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| **8** | **Cyfathrebu** | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| **9** | **Ymgynghori** | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol** | |
| **12** | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| D – Argymhellion |
|---|
| **Gofynnir i'r Cyngor Sir:**<br><br>Dderbyn a chymeradwyo yr Adroddiad Perfformiad 2013/14 ar gyfer ei gyhoeddi cyn y dyddiad statudol o 31 Hydref 2014 |

**Enw'r awdur yr adroddiad:** Gethin Morgan
**Teitl y Swydd:** Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen
**Dyddiad:** Medi 2014

| Atodiadau |
|---|
| Adroddiad Perfformiad 2013/14 |

| Papurau Cefndirol |
|---|
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) - 2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>Cynllun Busnes Corfforaethol 2013/17 |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Perfformiad
# 2013/14

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (01248) 752111

## Gair gan yr Arweinydd...

Ar adeg ei gyhoeddi dywedais fod sicrhau bod gennym Gynllun Corfforaethol cadarn ac ystyrlon yn hanfodol ar gyfer gweithredu'n llwyddiannus ein rhaglen drawsnewid a'n gweledigaeth i adeiladu 'Ynys Môn Newydd'. Roedd y cynllun yn un dyheadol a'n gweledigaeth yn uchelgeisiol. Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn awr yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, 2013-2014, i asesu sut yr ydym wedi cyflawni'r addewid a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun pedair blynedd hwnnw.

Mae'r adroddiad hwn felly'n edrych ar y blaenoriaethau a nodwyd o'r ymgynghori sy'n dangos bod angen i ni ganolbwyntio ar gefnogi'r mwyaf bregus, datblygu'r economi a chodi safonau addysg. O'r herwydd, mae'r Adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein hamcanion gwella yn y meysydd Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn ac Addysg ynghyd â'r prif themâu eraill yn ein Cynllun Corfforaethol gan gynnwys gwella Opsiynau Tai a lleihau tlodi, dabtlygu'r economi ac adfywio ein Cymunedau a'n Darpariaeth Hamdden a Diwylliant. Mae hefyd yn edrych at themâu sy'n cefnogi darparu'r gwasanaethau hynny megis trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu a chanolbwyntio mwy ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned. Oherwydd bod y rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n cael eu darparu mewn partneriaeth, rydym yn cydnabod mewnbwn ac ymgysylltiad gwerthfawr ein partneriaid lleol tuag at gyflawni amcanion sy'n gyffredin i ni.

Dan y pennawd cyffredinol 'cynnal y momentwm', rydym yn edrych ar ein meysydd llwyddiant ond hefyd yn cydnabod meysydd y mae angen i ni eu gwella wrth i ni barhau ar ein siwrnai drawsnewid o ymyrraeth i fod yn un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Yn ychwanegol at edrych ar ein perfformiad drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad lle gallwn edrych ar ein perfformiad ein hunain flwyddyn ar ôl blwyddyn ynghyd â meincnodi ein perfformiad yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru, rydym hefyd yn edrych ar berfformiad y gwasanaethau yn erbyn eu 'cardiau sgorio' eu hunain – dangosyddion sy'n dangos a ydym yn cwrdd â'r blaenoriaethau a nodwyd drwy ymgynghori gyda phobl Ynys Môn.

Dywedais yn ein Cynllun Corfforaethol mai fy nod i fel Arweinydd oedd sicrhau ein bod yn darparu rhaglen gyffrous ond heriol a sicrhau fod y cyngor yn parhau i wella a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol i bobl Ynys Môn. Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn dangos ein bod yn cynnal y momentwm – mai rhai o'r dangosyddion y gorau yng Nghymru ond maent yn dangos hefyd ein bod yn ymwybodol o'r meysydd y mae angen i ni eu gwella a mynd i'r afael â nhw. Gyda'r holl gynghorau'n wynebu caledi ariannol, nid yw'r angen i fonitro ac ymateb i faterion sy'n ymwneud â pherfformiad erioed wedi bod yn bwysicach wrth i ni geisio adeiladu Ynys Môn newydd a gwell.

**Y Cynghorydd Ieuan Williams ,Arweinydd**

**Datganiad o gyfrifoldeb**

Mae’r Adolygiad hwn wedi cael ei baratoi ar y sail mai Cyngor Sir Ynys Môn sy’n gyfrifol am baratoi’r Adolygiad, am y wybodaeth a’r asesiadau ynddo a’r amcangyfrifon y maent wedi eu seilio arnynt.

Mae’r Awdurdod yn fodlon bod y wybodaeth a’r asesiadau sydd yn yr Adolygiad hwn, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf ein gwybodaeth a’n cred.



**Mae’r ddogfen hon ar gael ar gais ar ffurf Braille, print bras, ar dâp neu ar ddisg – Gweler tudalen 48 am fanylion cyswllt.**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **CRYNODEB GWEITHREDOL** | **5** |
| **Rhagarweiniad - Cynnal y Momentwm** | **12** |
| • Amcan Gwella 1 - Cynnal y gwelliant a moderneiddio'r Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau fod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddoImprovement | **12** |
| • Amcan Gwella 2 - Gwella ein darpariaeth Addysg fel y gall plant yr Ynys, lle bynnag y maent, waeth beth fo eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni i'w potensial llawn | **18** |
| • Amcan Gwella 3 - Trawsnewid ein darpariaeth ar gyfer Oedolion er mwyn grymuso pobl hŷn ar Ynys Môn drwy roddi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu gofal yn y dyfodolImprovement | **23** |
| **Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol** | **28** |
| • Adfywio ein Cymunedau a Ddatblygu'r Economi | **28** |
| • Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau | **30** |
| • Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd | **34** |
| • Canolbwyntio mwy ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned | **36** |
| • Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | **37** |
| • Dangosyddion Perfformiad (Cyffredinol | **38** |
| **Perfformiad Ariannol 2013/** | **42** |
| **Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd** | **46** |
| **Gweithgaredd Rheoleiddiol - 2013/** | **46** |
| **Casgliad** | **47** |
| **Ychwaneg o Wybodaeth** | **48** |
| **Atodiad (Dangosyddion Perfformiad)** | **49** |


Tudalen 25

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ein Cynllun Datblygu 2013/14 a oedd yn edrych ymlaen, nodwyd bod ein Cynllun Trawsnewid yn datgan y bydd Cyngor Sir Ynys Môn erbyn 2016, yn …

… "***gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn eangfrydig yn ein dull, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon uchel sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ein dinasyddion***"

Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn amlinellu cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion gwella a'r blaenoriaethau strategol a amlinellwyd ar gychwyn blwyddyn ariannol 13/14. Mae'r cynnydd wnaed yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn defnyddio gwybodaeth busnes i roi sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd. Mae camau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau hyn hefyd yn dwyn sylw at yr heriau a'r risgiau mawr a fydd yn wynebu'r Cyngor yn ystod 2014/15.



Coch – wedi methu cwrdd â'r targed gwreiddiol

Ambr - wedi methu o drwch blewyn neu'r tu allan i reolaeth y Cyngor

Gwyrdd - wedi cyflawni'r targedau gwreiddiol

Caiff cynnydd yn erbyn ein ***Hamcanion Gwella*** ei fonitro ar sail chwarterol drwy'r flwyddyn a gellir ei grynhoi fel a ganlyn –

*Cynnal y gwelliant a moderneiddio'r **Gwasanaethau Plant** er mwyn sicrhau fod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo*

Mewn adroddiad AGGCC a gyhoeddwyd yn 2011 mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen, nodwyd bod methiannau difrifol o ran diogelu plant a bod angen ymchwilio ymhellach iddynt. Mewn ymateb, aethpwyd ati i sefydlu Rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant; ailstrwythurwyd y Gwasanaethau Plant ac fe benodwyd Pennaeth Gwasanaethau Plant newydd ynghyd â Chyfarwyddwr Cymuned newydd. Mae'r camau hyn yn parhau i gyfrannu at raglen o newid diwylliannol er mwyn datblygu sgiliau ein gweithlu a rhoi sylw i ansawdd a pherfformiad ymarfer. Ar gyfer 2013/14, roeddem eisiau sefydlogi'r gwelliannau mewn perfformiad ac, ar yr un pryd, gwella ansawdd y ddarpariaeth ac adolygu'r modd yr oeddem yn darparu gwasanaethau i blant. Bydd y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn cael mandad yn ystod 2014-15. Roedd y Gwasanaethau Plant yn rhan o Amcanion Gwella'r cyngor ar gyfer 2012/13, felly parhad oedd hwn o waith a oedd eisoes wedi cychwyn.

*Gwella ein **darpariaeth Addysg** fel y gall plant yr Ynys, lle bynnag y maent, waeth beth fo eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni i'w potensial llawn*

Daeth Arolygiad ac Adroddiad Estyn yn 2012 i'r casgliad bod ein gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn 'anfoddhaol'. Sefydlwyd Bwrdd Adfer a datblygwyd a mabwysiadwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (CGOA) er mwyn mynd i'r afael â'r saith argymhelliad a wnaed gan Estyn dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a oedd newydd ei benodi. Yr Amcanion Gwella ar gyfer Addysg felly oedd parhau gyda'r cynnydd o ran cyflawni'r CGOA ac, yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd y rhaglen Addysg yn her i ni o ran sicrhau gwelliant ar draws yr holl argymhellion, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau gwelliant o ran codi safonau yn yr holl

gyfnodau allweddol, gwella cyfraddau presenoldeb a moderneiddio ysgolion. Mae hyn wedi arwain at welliannau clir ar draws yr holl argymhellion ac o ganlyniad, cyhoeddodd Estyn ym mis Mehefin 2014 nad oedd y Cyngor, oherwydd y gwelliannau hyn, mewn mesurau arbennig mwyach ac nad oedd angen arolygiad dilyn-i-fyny o'r herwydd

*Trawsnewid ein **darpariaeth ar gyfer Oedolion** er mwyn grymuso pobl hŷn ar Ynys Môn drwy roddi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu gofal yn y dyfodol*

Roeddem yn cydnabod bod angen trawsnewid gofal cymdeithasol i Oedolion yn ystod y blynyddoedd nesaf - gan symud y tu draw i'r dulliau traddodiadol o ddarparu gofal cymdeithasol tuag at weledigaeth ar gyfer oedolion a oedd yn gyfannol a llyfn ac a oedd yn canolbwyntio ar y dinesydd. Mae cynnydd eisoes wedi'i wneud o ran cryfhau'r seilwaith ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud i drawsnewid Gwasanaethau Oedolion ac mae'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â thrawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion wedi dod i ben gydag ymgysylltiad da o du'r cyhoedd a'r aelodau. Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon oedd ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi, gwella'r amrediad a'r argaeledd o wasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r angen am gartrefi gofal preswyl a gwneud gwaith paratoi i arwain a siapio penderfyniadau ynghylch modelau darparu newydd a fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol.



Er y cydnabuwyd mai'r 3 amcan gwella hyn oedd ein blaenoriaeth bennaf ar gyfer 2013/14, roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r angen i fwrw ymlaen gyda gwaith a oedd yn parhau i fod angen sylw yn codi o'r Cynllun Corfforaethol.

Yn ein **Cynllun Corfforaethol Plan 2013-17** cadarnhawyd ein nod datganedig fel y caiff ei amlinellu uchod ac yn ein Cynllun Trawsnewid o ran lle yr oeddem eisiau bod fel cyngor yn 2017. Er mwyn cyflawni hyn, dywedwyd bod angen tymor hir i drawsnewid ein gwasanaethau a'r modd y mae'r Cyngor yn gweithio ac, fel rhan o hynny, y byddem yn gwrando ar ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a busnesau er mwyn sicrhau bod eu sylwadau'n dylanwadu ar ein gweithredoedd.

Ar draws grwpiau oed, daearyddiaeth a gwahanol ddulliau ymgynghori, dyma oedd y blaenoriaethau pennaf y soniwyd yn gyson amdanynt:

**- Cefnogi'r mwyaf bregus**
**- Datblygu'r economi**
**- Codi safonau ein hysgolion a'u moderneiddio**

Y blaenoriaethau hyn oedd sylfaen ein cynllun gweithredu lle nodir yr isod fel ein blaenoriaethau corfforaethol:
.

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a'n Llyfrgelloedd
- Canolbwyntio mwy ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae llawer o'r uchod yn cysylltu â, yn cyfrannu at ac yn cefnogi ein siwrnai drawsnewid fel a ddangosir yn ein Cynllun Trawsnewid sydd â'r 6 thema allweddol isod:-

- Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda
- Yn Arloesol, yn Uchelgeisiol ac yn Eangfrydig
- Yn canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
- Yn gwerthfawrogi a datblygu ein Pobl
- Yn ymrwymedig i Bartneriaeth

- Yn cyflawni

Mae'r Amcanion Gwella a'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cyfrannu tuag at ein targedau newydd o ran Cytundebau Canlyniadau ar gyfer 2013-1016 fel y cyfeirir atynt isod ac yn y ddogfen hon:-

- Diwylliant a Threftadaeth Cymru – Gwella profiadau yn y blynyddoedd cynnar
- Cartrefi Cymru – Sicrhau gwell cyflenwad a dewis
- Gofal Iechyd 21ain Ganrif – Rhoddi i ddefnyddwyr a gofalwyr lais cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn
- Addysg – Gwella Cyrhaeddiad yn yr Ysgol
- Twf a Swyddi Cynaliadwy – Cefnogi'r Economi a Busnesau



O'r herwydd, bydd yr Adroddiad Perfformiad hwn yn canolbwyntio ar ein llwyddiant o ran cyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu, y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol, cytundebau canlyniadau a'r cynllun trawsnewid – a bydd yn dangos bod cysylltiadau amlwg ar draws ein blaenoriaethau a'n cynlluniau.


**Dangosyddion a Phatrymau Perfformiad**

Roedd y darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) – gan gynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) a Dangosyddion Statudol Cenedlaethol (DSC) – yn weddol gadarnhaol yn 2013/14. Dengys Tabl 1 bod 57% o'n holl DP wedi gwella yn 2013/14 a bod 41% wedi dirywio yn erbyn y 44 DP (DSC a MAC) y mae modd eu cymharu gyda blynyddoedd blaenorol.


O ran chwarteli (Tabl 2) mae 12 (38.6%) o'n DP yn y chwartel uchaf a 13 (29.5%) yn y chwartel isaf gyda'r 14 sy'n weddill (31.8%) yn y chwarteli canol.

Gan edrych yn fanylach ar ein perfformiad blwyddyn ar flwyddyn, gallwn weld o Dabl 3 ein bod yn parhau i wella o ran cynyddu nifer y DP sydd yn y chwartel uchaf a lleihau'r rheiny sydd yn y chwarteli canol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn nifer y DP sydd yn y chwartel isaf am 2013/14 (13 o gymharu ag 8 yn 2012/13).

**Tabl 1**




**Tabl 2**





O ran y DP hynny sydd yn y ddau chwartel isaf (fel y nodir isod yn Nhabl 4 (canolrif is) a Thabl 5 (y chwartel isaf), bydd y naratif ar yr Adroddiad ar Berfformiad sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn yn edrych ar y rhesymau a'r camau lliniaru sy'n

cael eu cymryd i roi sylw i unrhyw wendidau neu danberfformiad amlwg.

.

**Tabl 3**




**Tabl 4 – Chwartel Canolrifol**

| DP/Chw | Disgrifiad | Rheswm/Gweithredu |
|---|---|---|
| **MAC** | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | Mae perfformiad wedi gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn ac rydym yn parhau i geisio cynyddu'r nifer o asesiadau ac adolygiadau a gwblhawyd. Mae perfformiad yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol |
| **MAC** | SCC/001a: Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun Gofal ar waith | Effeithir ar berfformiad gan y rhif sylfaenol isel (ac ni fedrir ei ddatgelu oherwydd materion Gwarchod data). Mae'r gwasanaeth yn parhau i edrych ar pob ffordd bosib i wella i'r dyfodol |
| **MAC** | SCC/030a: Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau | Ceir tystiolaeth fod cynnydd yn nifer yr asesiadau a gynhaliwyd |
| | Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | yn flynyddol. Mae gwaith pellach yn parhau i fonitro'n agos a chyfarch materion perfformiad. |
| **DSC** | EDU/015a: Er yn y chwartel canolrifol isaf, gwelwyd cryn welliant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd y gwasanaethau yn ceisio parhau gyda'r gwelliant hwnnw. | Mae'r broses Asesu Statudol yn gymhleth. Mae angen gwaith pellach wrth gydweithio â phartneriaid allanol i wella perfformiad o fewn terfyn amser o 26 wythnos |
| **DSC** | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | Er yn y chwartel canolrifol isaf, gwelwyd cryn welliant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd y gwasanaethau yn ceisio parhau gyda'r gwelliant hwnnw. |
| **DSC/ MAC** | WMT/009b Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol a gesglir fel ffynhonnell wastraff fiolegol wedi ei wahanu a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall: | Mae'r awdurdod hwn yn gyson wedi bod yn y chwartel uchaf ar gyfer ailgylchu ac mae'n parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau o ran y gwasanaeth didoli ar ochr y ffordd. Dirywiad y llynedd oherwydd y newid yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â chategoreiddio ysgubion nad oes modd eu hailgylchu mewn modd economaidd. Mentrau i wella'r sefyllfa'n parhau |

**Tabl 5 – Chwartel Is**

| DP/Chw | Disgrifiad | Rheswm/Gweithredu |
|---|---|---|
| DSC | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Mae model cymorth cymunedol Ynys Môn yn groes i'r diffiniad cenedlaethol. Mae'r tair Canolfan Heneiddio'n Dda yn enghreifftiau allweddol o hyn. Nid yw cefnogaeth a ddarperir yma yn fesuriadwy o dan y mesur hwn.<br><br>Bydd camau'n cael eu cymryd i gael ciplun o bresenoldeb mewn adnoddau cymunedol o'r fath. Nid yw nifer is yma o reidrwydd yn adlewyrchu perfformiad gwael |
| DSC/ MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | Mae risgiau penodol, hyd yn oed pan eu rheolir , yn aros yn uchel. Rydym yn anelu at well perfformiad drwy wella materion cofnodi data |
| MAC | SCA/020: Canran y cleientiaid sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | Gweler SCA/002a |
| DSC | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fonitro gan y Panel Rhiantu Corfforaethol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi bod 10 allan o garfan o 50 o blant wedi symud ysgol yn ystod y flwyddyn: ac yn hyderus bod y newidiadau wedi'u cynllunio. Mewn rhai o'r achosion mae lleoliad addysgol y plant wedi ei newid fel rhan o'u trefniadau gofal parhaol / hirdymor. Mewn achosion eraill roedd anghenion y plant yn gwarantu cael eu rhoi mewn naill ai cyfleusterau preswyl neu faethu arbenigol neu i'w mabwysiadu yn all-sirol |
| DSC | SCC/033e: Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | Mae amrywiad perfformiad yn cael ei effeithio gan nifer sylfaenol isel, a lle mae newidiadau mewn achosion unigol yn cael effaith anghymesur ar y canlyniad DP. Bydd y gwasanaeth yn adrodd ar y mater i'r Panel Rhiantu Corfforaethol fel ein bod yn gallu monitro a goruchwylio perfformiad a chymryd camau lliniaru yn gynnar. |

| | | |
|---|---|---|
| DSC | SCC/033f: Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae’r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau’n 19 oed | Mae’r garfan hon yn ymwneud â nifer fach o bobl ifanc (7). Mae gwelliant diweddar yn dangos y bydd y canlyniad hwn yn dangos gwelliant pellach yn 14/15 |
| DSC | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | Gweler SCC/033e uchod. |
| DSC | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu’n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | Mae perfformiad wedi’w effeithio gan faterion capasiti sydd bellach wedi cael sylw. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at welliannau yn y dyfodol |
| MAC | STS / 005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o lendid | Canlyniad y toriadau diweddar yn y cyllid ar gyfer glanhau ffyrdd a bydd toriadau pellach yn anorfod yn dros y blynyddoedd nesaf. |
| DSC | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy’n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y | DPA y mae’n anodd cael unrhyw reolaeth uniongyrchol drosto ac sy’n adlewyrchiad o natur wledig ardal y Cyngor. |
| | bws | |
| MAC | THS/007: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | Mae'r dirywiad yn ganlyniad i doriadau i'r arian refeniw cynnal a chadw priffyrdd y Sir. Cyflwynwyd bid cyfalaf ar gyfer Benthyca Darbodus y Sir ar gyfer 15/16 & 16/17 i liniaru yn erbyn dirywio ymhellach. |
| DSC/ MAC | WMT/004(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | Gweler WMT/009b uchod |
| DSC | LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | Mae nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ymwneud ag ymweliadau wedi bod yn isel ac angen eu gwella. Mae'r model gwasanaeth a strwythur staffio llyfrgelloedd yn cael ei adolygu |

I gloi felly, roedd 2013/14 yn flwyddyn o newid parhaus gyda threfniadau gwaith y Cyngor yn cael eu sgriwtineiddio’n ddyfal. Fodd bynnag, gwnaed cryn gynnydd yn erbyn pob un o’n hamcanion gwella a blaenoriaethau strategol ac ymddengys fod ein perfformiad cyffredinol yn sefydlog ond mae angen parhau i fonitro’n ofalus.

Yr her sy’n parhau yw cynnal yn y dyfodol y momentwm sydd wedi arwain at y gwelliannau hyn. Mae gweddill yr Adroddiad Perfformiad hwn felly yn adolygu ein perfformiad yn erbyn yr

amcanion a’r targedau yr ydym wedi eu gosod i ni ein hunain drwy …

1. **Ein Cynllun Gwella**
2. **Y Blaenoriaethau Strategol a nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol**
3. **Cytundebau Canlyniadau**
4. **Cynllun Trawsnewid**

…a hefyd yn darparu’r cyd-destun ariannol ar gyfer cyflawni’r rhain. Canlyniad hyn fydd ein bod yn cwrdd â’n dyletswydd i arddangos gwelliant parhaus fel y nodir ym Mesur Llywodraeth Leol 2009 (Adran 2, 15(2)).

Caiff cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Gwella ei fonitro ar sail chwarterol drwy’r flwyddyn. Maent yn cynrychioli’r meysydd gwasanaeth neu’r swyddogaethau hynny yr ydym wedi eu blaenoriaethu ar gyfer eu gwella yn ystod blwyddyn benodol.

# Rhagarweiniad – Cynnal y Momentwm

Yn ystod 2013/14, ein 3 Amcan Gwella Allweddol oedd:-

| AMCANION GWELLA |
|---|
| *Cynnal y gwelliant a moderneiddio'r **Gwasanaethau Plant** er mwyn sicrhau fod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo* |
| *Gwella ein **darpariaeth Addysg** fel y gall plant yr Ynys, lle bynnag y maent, waeth beth fo eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni i'w potensial llawn* |
| *Trawsnewid ein **darpariaeth ar gyfer Oedolion** er mwyn grymuso pobl hŷn ar Ynys Môn drwy roddi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu gofal yn y dyfodol* |



Yn y tudalennau canlynol, rhestrir enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ein hamcanion gwella, sydd hefyd yn cyfrannu tuag at ein blaenoriaethau strategol ac, yn achos Plant a Gwasanaethau Addysg, at ein Cytundebau Canlyniad gyda Llywodraeth Cymru.

Nid ydym wedi taro'r cyfan o'r targedau ar draws ein holl amcanion gwella. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y camau gweithredu a'r mesurau a gyflawnwyd a chyfeiriad cyffredinol y daith o ran yr holl feysydd sydd wedi eu cynnwys yn ein hamcanion gwella, gyda'i gilydd, yn rhoi darlun cadarnhaol iawn o'r gwelliant a wnaed yn ystod 2013/14 ac mae'n cadarnhau ein bod yn llwyddo i gynnal y momentwm.

## Amcan Gwella 1 – Cynnal y gwelliant a moderneiddio'r Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau fod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo

Yn Ein Hynys, Ein Dyfodol (sef ein Cynllun Integredig Sengl, nodir 3 thema y mae angen rhoi sylw iddynt:

- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i sicrhau gwasanaeth cydlynol ar gyfer yr holl blant, pobl ifanc a theuluoedd
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael cychwyn da, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu ac nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi
- Diogelu plant a phobl ifanc yn Ynys Môn sy'n fregus, mewn angen, neu mewn perygl

Mae awydd gwirioneddol yn Ynys Môn i wneud ein gorau glas dros y plant a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â nhw ac mae'r amcan gwella hwn yn barhad o'r ffocws a'r gwaith a wnaed yn ystod y 12 mis blaenorol mewn ymateb i arolygiad AGGCC pryd nodwyd nifer o faterion a oedd angen sylw.

Isod, ceir trosolwg o'n datblygiadau a'n cyflawniadau yn ystod y 12 mis diwethaf ac rydym yn hyderus bod gennym sylfaen gref i adeiladu arni ac er nad oes lle i fod yn hunanfodlon, rydym yn hyderus y bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a diogel ar gyfer plant Ynys Môn.

**Enghreifftiau o’r hyn a wnaed gennym i wella gwasanaethau ar gyfer plant**

- Sicrhau sefydlogrwydd o ran staff rheng-flaen, rheolwr rheng-flaen a’r uwch dîm rheoli a chynnal lefelau rhesymol o lwyth achosion gwaith cymdeithasol a staff ychwanegol i gefnogi cyfleon dysgu ar gyfer ein staff a oedd newydd gymhwyso.
- Gwnaed penderfyniadau o fewn 24 awr yn achos 98.77% o’r holl gyfeiriadau
- Cwblhawyd 90.86% o asesiadau cychwynnol o fewn 7 niwrnod yn ystod 2013/14, ac yn achos y rheiny y tu allan i’r amserlen o 7 niwrnod, rydym wedi gweld gostyngiad parhaus, i lawr i 12 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu’n ddau gyda chyfartaleddau Cymru sef 73.10% a 20 diwrnod yn y drefn honno
- Plant a welwyd gan weithiwr cymdeithasol yn ystod y broses asesu gychwynnol – y perfformiad gorau yng Nghymru yn 2012/13, sef 89.81% ac mae hynny wedi gwella ymhellach i 91.63%
- 97.14% o Blant sy’n Derbyn Gofal yn cael adolygiad statudol o fewn yr amserlenni
- 90.54% o Ymweliadau Statudol wedi cael eu cynnal yn unol â’r ddeddfwriaeth
- Gostwng y canran o gyfeiriadau a oedd yn ailgyfeiriadau o fewn 12 mis o 25% yn 2012/13 i 18.87% yn 2013/14
- Cychwyn proses ymgynghori gyda theuluoedd a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl
- 92.66% o’r cynadleddau diogelu plant cychwynnol a oedd i’w cynnal yn ystod y flwyddyn o fewn 15 diwrnod gwaith i’r drafodaeth strategaeth – gostyngiad bychan o’r 95% yn 2012/13
- Gweithredu Protocol a phroses adrodd Laming
- Gweithredu rhaglen Archwilio, Adroddiadau a Chynlluniau Gwella cynhwysfawr drwy’r Rheolydd Sicrhau Ansawdd
- Gweithio gyda Chyngor Sir Gwynedd a phartneriaid i sefydlu a darparu’r gwasanaeth GCID ar sail gydweithredol
- Dull amlasiantaethol cydlynol o ddarparu ymyraethau cynnar drwy’r Tîm o Amgylch y Teulu, y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, Cymorth i Deuluoedd, Nyrs Seiciatryddol Gymunedol, neu’r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau
- Arolygon llwyddiannus o’n Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu
- Symud ymlaen gyda’r Cynllun Gweithredu Gwella Maethu – ac ar darged i recriwtio 10 o ofalwyr newydd erbyn Rhagfyr 2014 fel rhan o’n hymgyrch recriwtio uchelgeisiol i sicrhau bod gennym ddewis o leoliadau a chyfatebiadau lleol
- 98.48% o’r Plant sy’n Derbyn Gofal wedi eu cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith
- Darparu gwasanaeth ar gyfer 92% o’r Gofalwyr Ifanc yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod amdanynt
- Perfformiad a oedd yn rhagori ar berfformiad Cymru ar gyfartaledd o ran darparu Cynlluniau Addysg Personol o fewn yr amserlen ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal (90% o gymharu â chanolrif Cymru, sef 65%)
- Mae 10 o Blant sy’n Derbyn Gofal (blwyddyn 9 ac uwch) wedi cael gliniaduron personol i gynorthwyo eu hastudiaethau addysgol ac mae mentor dysgu ar gael i gefnogi Plant sy’n Derbyn Gofal gyda’u haddysg

Mae’r amcan gwella hwn hefyd yn cynnwys elfennau o un o’r pum thema yn ein **Cytundeb Canlyniadau** ac fel y gwelir yn rhai o’r enghreifftiau hyn, mae’r ***Gwasanaethau Plant*** yn parhau i ymateb yn dda i’r gwendidau a nodwyd yn gychwynnol gan AGGCC. Mae Cerdyn Sgorio’r Gwasanaeth (isod) yn dangos sut y perfformiodd y gwasanaeth yn erbyn ei ddangosyddion allweddol yn ystod 2013/14 - dangosyddion a oedd yn ceisio

mynd i’r afael yn uniongyrchol â rhai o’r materion a nodwyd gan AGGCC.


**Cerdyn Sgorio – Gwasanaethau Plant**

| Dangosydd | Canlyniad 2012/13 | Canlyniad 2013/14 |
|---|---|---|
| SCC/006 Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 98.65 | **98.77** |
| SCC/011a: Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plenty | 89.81 | **92.22** |
| SCC/021: Canran yr adolygiadau o blant sy’n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn | 97.21 | **97.14** |
| SCC/042a: Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith | 80.40 | **90.86** |
| SCC/043a: Canran yr asesiadau craidd gofynnol wedi eu cwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith | 80.50 | **71.68** |
| SCC/010: Canran yr atgyfeiriadau sy’n cael eu hatgyfeirio o fewn 12 mis | 25 | **18.87** |
| SCC/014: Canran y cynadleddau amddiffyn plant dechreuol oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i’r drafodaeth strategaeth | 95.51 | **92.66** |
| SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau | 90.78 | **90.54** |
| SCC/034: Canran yr adolygiadau amddiffyn plant yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 99.60 | **98.49** |
| SCC/042b: Yr amser mae’n cymryd i gwblhau asesiadau cychwynnol a gymerodd 8 diwrnod gwaith neu’n fwy i’w cwblhau | 13.83 | **12.15** |
| SCC/043b: Yr amser, ar gyfartaledd, mae’n cymryd i gwblhau’r asesiadau craidd gofynnol hynny a gymerodd mwy na 35 diwrnod | 75.29 | **46.00** |

Os edrychwn yn fanylach ar y DP sy’n cyfrannu tuag at fonitro ein tri **Amcan Gwella** yn y meysydd Plant, Addysg a Gwasanaethau Oedolion, gwelwn yr isod.


O ran y **Gwasanaethau Plant** gellir gweld ein bod yn bumed yng Nghymru mewn perthynas â sicrhau fod plentyn wedi gweld Gweithiwr Cymdeithasol (bron i 90%) fel rhan o’r broses asesu gychwynnol.

**Tabl 6**




Yn yr un modd, rydym yn y chwartel uchaf (eto'n 5ed) o ran nifer y plant a welwyd ar eu pennau eu hunain gan weithiwr cymdeithasol (55.1% yn 2013/14). Rydym hefyd yn y chwarteli uchaf o ran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal fel y nodir yn Nhabl 7 ac ar gyfer y ganran o adolygiadau a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol - Tabl 8 (y 4ydd gorau yng Nghymru gyda'r olaf).

**Tabl 7**





Tudalen 36

**Tabl 8**




Er ein bod, yn gyffredinol, yn hapus gyda'r cynnydd a'r canlyniadau yn y gwasanaethau plant yn ystod 2013/14, rydym yn ymwybodol fod meysydd o hyd y mae angen eu gwella ac rydym yn parhau i'w monitro'n ofalus. Enghraifft o hyn, er ein bod o gwmpas lefel cyfartaledd Cymru, yw nifer y gofalwyr ifanc sy'n wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac y cafodd eu hanghenion eu hasesu.


**Tabl 9**




Er bod rhai o'r DP sydd yn y chwartel isaf fel arfer yn gysylltiedig gyda niferoedd bychan o blant ac yn gallu amrywio'n ddramatig (e.e. Tabl 10 – plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol fwy nag unwaith heb i'r newid hwnnw fod yn un trosiannol), rydym yr un mor ymrwymedig i sicrhau ein bod yn gwneud popeth a fedrwn i fonitro ac asesu pob sefyllfa'n unigol.

I gloi, er ein bod yn fodlon yn gyffredinol gyda'r cynnydd o ran camau gweithredu, y cerdyn sgorio a'r perfformiad yn gyffredinol o ran y blaenoriaethau a nodwyd gennym ar gyfer y Gwasanaethau Plant, rydym yn ymwybodol fod rhai o'n Dangosyddion Perfformiad wedi llithro i'r ddau chwartel isaf o gymharu â llynedd (7 yn 2013/14 o gymharu â 5 yn 2012/13). Byddir yn parhau i fonitro'r DP hyn yn y modd a nodir isod.

**Tabl 11**




**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y mae angen rhoi blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| DP | Disgrifiad | Chwt | Rheswm & Gweithreu pelllach |
|---|---|---|---|
| MAC | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | | Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fonitro gan y Panel Rhiantu Corfforaethol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi bod 10 allan o garfan o 50 o blant wedi symud ysgol yn ystod y flwyddyn: ac yn hyderus bod y newidiadau wedi'u cynllunio. Mewn rhai o'r achosion mae lleoliad addysgol y plant wedi ei newid fel rhan o'u trefniadau gofal parhaol / hirdymor. Mewn achosion eraill roedd anghenion y plant yn gwarantu cael eu rhoi mewn naill ai cyfleusterau preswyl neu faethu arbenigol neu i'w mabwysiadu yn all-sirol |
| DSC | SCC/033e: Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | | Mae amrywiad perfformiad yn cael ei effeithio gan y nifer sylfaenol isel, a lle mae newidiadau mewn achosion unigol yn cael effaith anghymesur ar y canlyniad DP. Bydd y gwasanaeth yn adrodd ar y mater i'r Panel Rhiantu Corfforaethol fel ein bod yn gallu monitro a goruchwylio perfformiad a chymryd camau lliniaru yn gynnar. |
| DSC | SCC/033f: Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag | | Mae'r garfan hon yn ymwneud â nifer fach o bobl ifanc (7). Mae gwelliant diweddar yn dangos y bydd y canlyniad hwn yn dangos gewlliant pellach yn 14/15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | | |
| DSC | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â hymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | | Gweler SCC/033e uchod. |
| DSC | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | | Mae perfformiad wedi'w effeithio gan faterion capasiti sydd bellach wedi cael sylw. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at welliannau yn y dyfodol |
| MAC | SCC/001a: Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun | | Effeithir ar berfformiad gan y rhif sylfaenol isel (ac ni fedrir ei ddatgelu oherwydd materion Gwarchod data). Mae'r gwasanaeth yn parhau i edrych ar pob ffordd bosib i wella i'r dyfodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gofal ar waith | | |
| MAC | SCC/030a: Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | | Ceir tystiolaeth fod cynnydd yn nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn flynyddol. Mae gwaith pellach yn parhau i fonitro'n agos a chyfarch materion perfformiad |

**Blaenoriaeth a Gwelliannau 2014/15**

Gweithredu'r Trawsnewidiad o'r Gwasanaethau Plant sy'n anelu at…

- Sefydlu gwasanaeth gwaith cymdeithasol gwell ar gyfer darparu gwasanaethau statudol ar gyfer plant, gan gynnwys gwasanaeth ar gyfer plant anabl sy'n cefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant
- Sicrhau fod y gwasanaeth yn gweithredu o fewn Amrediad o Ymyraethau yn Seiliedig ar Dystiolaeth y cytunwyd arnynt (gyda staff yn cael eu hyfforddi i'r safonau newydd hyn a goruchwylwyr yn cael eu hyfforddi i oruchwylio'r ymarfer), erbyn Hydref 2015
- Sefydlu, erbyn Ebrill 2015 strwythur gwasanaeth sy'n cefnogi cyflawni strategaeth y gwasanaeth a'r model ymarfer
- Sicrhau cynnydd net o 10 lleoliad maeth bob blwyddyn erbyn Rhagfyr 2015
- Gwella ansawdd a phrydlondeb asesiadau craidd
- Gweithredu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl – gan gynnwys gwaith diogelu oedolion a phlant fel ei gilydd
- Cymeradwyo ein strategaeth rhianta corfforaethol a darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau ar eu cyfrifoldebau o ran Rhianta Corfforaethol

## Gwella ein darpariaeth Addysg fel y gall plant yr Ynys, lle bynnag y maent, waeth beth fo eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni i'w potensial llawn

Gyda'r datblygiadau mawr sydd ar y gweill o ran y prosiectau ynni mawr a fydd yn dod i Ynys Môn, mae Ein Hynys, Ein Dyfodol (y cynllun integredig sengl) yn nodi pwysigrwydd darpariaeth addysgol yn Ynys Môn fel a ganlyn:-

- Bod pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn cyrraedd ei botensial/ei photensial llawn
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael cychwyn da, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu ac nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi
- Sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fodd o gael at amrediad eang o gyfleoedd perthnasol o ran dysgu a gyrfaoedd
- Darparu'r amgylchedd dysgu gorau posib i bob plentyn a pherson ifanc

Yn ychwanegol at hyn, mae ein Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yn dweud y byddwn yn parhau i godi'r safonau o ran cyrhaeddiad addysg a phresenoldeb yn ystod y 4 blynedd nesaf. Rhan o'r gyrwyr ar gyfer hyn fydd datblygu a chyflawni'r strategaeth moderneiddio ysgolion. Mae hyn hefyd yn cynnwys agor ein hysgol anghenion addysgol arbennig, Canolfan Addysg y Bont, a darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd a mabwysiadu a darparu strategaeth sgiliau ranbarthol a fydd yn galluogi Ynys Môn a Gogledd Cymru i uwch-sgilio ei weithlu ar gyfer y dyfodol a sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleon yn y dyfodol.

Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i wella'r Ddarpariaeth Addysg

- Gwnaed cynnydd da o ran gweithredu prosiectau Band A Rhaglen Ysgolion ac Addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer y 21ain ganrif. Mae Rhaglen Amlinellol Strategol wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r cyfalaf perthnasol wedi'i sicrhau.
- Mae'r prosiectau i ddarparu Ysgolion Ardal newydd yng Nghaergybi a Gogledd Orllewin Ynys Môn yn mynd rhagddynt yn unol â'r cynllun i gyflawni'r amcanion o fewn yr amserlen a chyda'r adnoddau a ragwelwyd.
- Agorwyd Canolfan Addysg y Bont yn swyddogol ym mis Mai 2014
- Presenoldeb wedi gwella uwchlaw targedau 2013/14 yn yr ysgolion cynradd (94.5%) ac uwchradd (93.3%).
- Wedi ffurfioli a gwella cysondeb yn ein systemau mewnol, gan gynnwys cynllunio busnes, cynllunio prosiectau a phrosesau asesu risg yn ychwanegol at well hunanwerthusiad, asesiadau effaith ac asesiadau risg.
- Wedi gwella effeithlonrwydd yr awdurdod o ran dyrannu adnoddau ynghyd â monitro a sgriwtinediddo rheolaeth ariannol - ceir tystiolaeth o hynny yn y modd y llwyddwyd i ddileu'r gorwariant yn y gyllideb AAA.
- Mae Consortiwm Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd wedi gwneud cynnydd mawr mewn amser byr. Wedi cynyddu'r amrediad o opsiynau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol gan gynnwys meysydd sy'n ymwneud â'r twf a ragwelir mewn cyflogaeth yn Ynys Môn yn y dyfodol.
- Wedi sefydlu grŵp monitro safonau ysgolion sy'n cynnwys aelodau etholedig er mwyn sgriwtineiddio perfformiad ysgolion a'u dal yn atebol, gan gynnwys yr ysgolion hynny sy'n tanberfformio.
- Wedi gweithio gyda'r aelodau etholedig i wella eu capasiti i herio ysgolion, ceir tystiolaeth o hynny yng ngwaith y grŵp monitro safonau ysgolion.
- Wedi ailstrwythuro ac ymestyn y capasiti yn y gwasanaeth dysgu gydol oes a chryfhau atebolrwydd drwy gysylltu

cynlluniau busnes adrannol gyda chynlluniau busnes gwasanaeth uwch swyddogion unigol.

Mae'r amcan gwella hwn hefyd yn un o bum thema ein **Cytundeb Canlyniadau**. Fel y gwelir uchod, mae'r Gwasanaeth Addysg wedi gwneud cynnydd cyflym a da ers i ESTYN nodi'r gwendidau am y tro cyntaf yn 2012, ac o ganlyniad nid yw mwyach mewn mesurau arbennig. Mae'r Cerdyn Sgorio canlynol yn dangos y dangosyddion perfformiad hynny a nodwyd gan y gwasanaeth fel y rhai pwysicaf yn ystod 2013/14.



**Cerdyn Sgorio - Addysg**

| Dangosydd | Canlyniad 2012/13 | Canlyniad 2013/14 |
|---|---|---|
| % Y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd mewn ysgolion cynradd | **5.7** | **5.6** |
| % Y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd mewn Ysgolion Uwchradd | **7.8** | **6.8** |
| Gwahadddiadau parhaol | * | **0 (Uwchradd)** |
| Gwaharddiadau dros dro | **41.7** | **17.1** |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau | **5.1** | **4.2** |
| CA3 -% disgyblion sy'n cyflawni'r DPC | **77.9** | **81.50** |
| CA4 -% disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2 + | **52.2** | **54.20** |
| CA4 -% 15 oed sy'n ennill L2 | **73.9** | **83.20** |
| CA4 -% 15 oed sy'n ennill L1 | **92.6** | **97.40** |
| CA4 -% 15 oed sy'n ennill y DPC | **50.7** | **50.60** |

O ran **Addysg –** mae'n bleser gennym adrodd fod y cyfan ac eithrio un o'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn y chwarteli uchaf. O'n 11 DSC a MAC, mae wyth yn y chwartel uchaf a dau arall yn y chwarter canol uchaf. Dim ond un DP Addysg sydd yn y chwartel isaf, sy'n adlewyrchiad o'r gwelliant cyffredinol yn y maes hwn fel a nodwyd drwy ein monitro rheolaidd o'r Cynllun Gweithredol Ôl-Arolwg Estyn.

Gwelir enghraifft o'r gwelliant dramatig hwn mewn perfformiad yn Nhabl 12, y ni yn awr yw'r gorau yng Nghymru ar gyfer y sgôr pwyntiau ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol - yn codi o 428.1 yn 2011/12 i 539.5 yn 2013/14. Yr un modd, rydym yn perfformio'n wirioneddol dda yn yr ystyr nad oes gennym yr un disgybl - p'un a ydyw yng ngofal yr awdurdod lleol ai peidio - sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu'n seiliedig yn y gwaith hwn gymhwyster allanol cydnabyddedig (Tabl 13).

**Tabl 12**





**Table 13**





Roedd ffigyrau presenoldeb disgyblion yn ysgolion Ynys Môn, yn arbennig yn yr ysgolion uwchradd yn peri problem ar un adeg ac wedi eu gwreiddio yn y pedwerydd chwarter flwyddyn ar ôl blwyddyn. Presenoldeb yn yr ysgolion cynradd yn Ynys Môn oedd y gorau yng Nghymru yn 2013/14, a gwelwyd gwelliant dramatig hefyd mewn cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion cynradd – yn codi o'r chwarter isaf yn 2011/12 i fod yr wythfed gorau yng Nghymru yn 2013/14 (Tabl 14).

Tudalen 41

Yr un modd, rydym yn falch o'r cynnydd a'r gwelliant a wnaed o ran y DP addysg eraill, megis canran y plant a oedd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 (Tabl 15) a'r ganran o ddisgyblion a oedd yn derbyn asesiad athro/athrawes yn yr Iaith Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Tabl 16) - y ni oedd y trydydd ledled Cymru o ran y ddau ddangosydd.

Er gwaethaf y gwelliant sylweddol o ran addysg a gydnabuwyd yn asesiad Estyn ym mis Mai 2014 – pan ddaeth yr awdurdod allan o fesurau arbennig – nid ydym yn hunanfodlon ac rydym yn parhau i geisio gwella pob maes a phob agwedd o addysg. Er enghraifft, er ein bod yn parhau i fod yn y chwarteli uchaf ar gyfer y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A+-C ar gyfer Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, rydym yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru (Tabl 16)

**Tabl 14**




.

**Tabl 15**






**Table 16**





O ran Anghenion Addysgol Arbennig (Tabl 18), rydym yn gwybod bod angen i ni geisio gwella'r amser prosesu ar gyfer datganiadau terfynol a gyhoeddir o fewn 26 wythnos.

**Tabl 17**




**Tabl 18**




O'r herwydd, rydym yn hynod falch gyda'r gwelliant mewn perfformiad yn y maes Addysg a adlewyrchwyd yn y camau cadarnhaol a gymerwyd gennym i fynd i'r afael â Dangosyddion Perfformiad ESTYN. Mae'r trydydd Amcan Gwella a oedd gennym ar gyfer 2013/14 wedi bod yn fwy cymysg o ran perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y mae angen rhoi blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| DP | Disgrifiasd | Chtl | Rheswm & Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|
| DSC | EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | | Mae'r broses Asesu Statudol yn gymhleth. Mae angen gwaith pellach wrth gydweithio â phartneriaid allanol i wella perfformiad o fewn terfyn amser o 26 wythnos |

| **Blaenoriaethau a Gwelliannau ar gyfer 2014/15** |
| --- |
| Parhau i symud ymlaen gyda'r rhaglen Trawsnewid Ysgolion, gan gynnwys:<br>• Gwella safonau addysgol ar draws yr holl grwpiau;<br>• Lleihau nifer y lleoedd gweigion yn yr ysgolion;<br>• Cynyddu'r capasiti ar gyfer penaethiaid ac arweinyddion mewn ysgolion drwy hyrwyddo 'Partneriaethau Rheoli' pan mae hynny'n briodol;<br>• Hyrwyddo ysgolion sy'n gwella eu hunain;<br>• Ehangu a gwella'r cynnydd a wnaed o ran y Partneriaethau Dysgu Ôl-16;<br>• Cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gau bylchau perfformiad a dyheadau a hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd sydd dan anfantais. |

Tudalen 43

*Trawsnewid ein darpariaeth ar gyfer Oedolion er mwyn grymuso pobl hŷn ar Ynys Môn drwy roddi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu gofal yn y dyfodol*

Yn Ynys Môn y mae un o'r canrannau uchaf o bobl hŷn yn y boblogaeth yng Nghymru a chyda phobl yn byw yn hirach, rydym yn disgwyl gweld cynnydd oddeutu 70% yn nifer y bobl dros 85 oed a fydd yn byw ar yr Ynys yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae mwy o bobl hŷn yn golygu cynnydd yn nifer y bobl gyda chyflyrau cymhleth tymor hir, gan gynnwys dementia, gyda hynny'n rhoddi pwysau ar y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. O'r herwydd, rhaid i ofal cymdeithasol i oedolion ar yr ynys newid gyda mwy o bwyslais ar atal, cynnal annibyniaeth ac ailalluogi pobl hŷn yn dilyn cyfnod o salwch.



Er mwyn trawsnewid ein darpariaeth o ofal cymdeithasol i oedolion, rhaid i'r Cyngor ddatblygu a sefydlu cynlluniau tai gofal ychwanegol yn Ne a chanolbarth yr Ynys ynghyd â chynllunio ar gyfer cynllun pellach yn y De. Hefyd, rhaid i ni wella amrediad ac argaeledd y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned fel y gall pobl hŷn gadw eu hannibyniaeth.

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i wella gwasanaethau ar gyfer Oedolion**

- Mae model Ailalluogi Gofal Cartref wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2012 i gefnogi pobl gyda salwch tymor byr
- Datblygwyd cynllun busnes ar gyfer cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llangefni ac Amlwch
- Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o wasanaethau eiriolaeth yn ystod 2013/14 a bwriedir cynnal adolygiad pellach er mwyn llunio bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol
- Ar ddiwedd Mawrth 2014, rydym yn amcangyfrif bod 53% o'r ddarpariaeth gofal cartref wedi cael ei brynu gan ddarparwyr o'r sector annibynnol o gymharu â 37% ym Mawrth 2013
- Wedi sefydlu trefniadau Broceriaeth ers 02/09/13 i brynu gwasanaethau gofal cartref gan ddarparwyr allanol ar draws y chwe ardal ddaearyddol. Sefydlwyd dwy swydd ar gyfer Swyddogion Broceriaeth
- Mae gwasanaeth cymorth lefel uwch i gefnogi pobl â Dementia bellach wedi'i sefydlu i gefnogi unigolion i aros yn fwy annibynnol yn eu cartrefi
- Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft ar gyfer gofalwyr yn amlinellu ein bwriadau comisiynu o ran gwasanaethau i gefnogi Gofalwyr ac rydym wedi cydweithio â Chyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu swyddi Hwyluswyr ar gyfer Gofalwyr er mwyn nodi a chefnogi Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd ac yn y meddygfeydd
- Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Oedolion ar gyfer y Gogledd Orllewin yn ystod 2013/14 a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cymuned Ynys Môn - mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu fframwaith diogelu yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
- Sefydlwyd Bwrdd Cyflawni Integredig (BCI) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda BIPBC (Mawrth 2014)
- Llofnodwyd Cytundeb A33 diwygiedig gyda'r Bwrdd Iechyd fel sail i'n Storfa Offer Cymunedol Integredig (SOCI – menter ar y cyd rhwng Gwynedd, Môn, Conwy a'r Bwrdd Iechyd)
- Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod cytundeb partneriaeth Adran 33 a Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl

- Buom yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu ymhellach yr Un Pwynt Mynediad; datblygu ymatebion i wasanaeth drwy Wasanaeth Gofal Ychwanegol Môn ac Ymateb Cyflym (Gofal Canolraddol) a drwy'r gwaith bro ar y cyd a oruchwylir gan Dîm Arweinyddiaeth Bro Model Môn
- Mabwysiadwyd dull rhanbarthol tuag at ddatblygu ymhellach ein pwynt mynediad sengl integredig ac mae hyn yn cael ei fonitro gan Grŵp Prosiect Rhanbarthol.

Mae'r prif ddangosyddion perfformiad a fabwysiadwyd gan y gwasanaeth i asesu cynnydd i'w gweld yn eu **cerdyn sgorio** (isod)

**Cerdyn Sgorio – Gwasanaethau Oedolion**




| Dangosydd | Canlyniad 2012/13 | Canlyniad 2013/14 |
|---|---|---|
| SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | **58.94** | **54.41** |
| SCA/002b: Cyfardd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | **21.93** | **18.16** |
| SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | **92.78** | **88.89** |
| SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | **2.53** | **1.25** |
| SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | **81.73** | **91.30** |
| SCA/018b Canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad uniongyrchol neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn | **75** | **63.20** |
| SCA/018c: Canran o ofalwyr oedolion a wnaeth dderbyn gwasanaeth a gafodd asesiad neu ailasesiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn | **72** | **73.90** |
| Nifer gofalwyr yn derbyn gofal ysbaid | **222** | **346** |

O'r saith Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â **Gwasanaethau Oedolion**, mae 3 yn y chwarteli uchaf a 4 yn y chwarteli isaf – gyda 3 ohonynt yn y chwartel isaf ac yn dangos dirywiad mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.


Rydym yn perfformio'n dda ac yn y chwartel uchaf o ran y gyfradd mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol - y trydydd gorau yng Nghymru - fel y nodir yn Nhabl 19.

Rydym yn hapus hefyd gydag agweddau sy'n ymwneud ag asesu cynlluniau gofal fel y nodir yn Nhabl 20 - roeddem yn y chwartel uchaf ac o gwmpas y cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru o ran y ganran o gleientiaid gyda chynlluniau gofal a adolygwyd yn ystod y flwyddyn (87.9% yn 2013/14 o gymharu â 82.8% yn 2012/13).

**Tabl 19**





**Tabl 20**





Rydym hefyd wedi ein calonogi gan y cynnydd a wnaed gennym o ran y bobl yr ydym yn eu cefnogi mewn cartref gofal - gan symud o'r chwartel isaf yn 2011/12 i'r chwartel canol uchaf ac 8fed yng Nghymru yn 2013/14 fel y nodir yn Nhabl 21

**Tabl 21**




Fel y dywedwyd fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod angen monitro a gwella ymhellach rai dangosyddion perfformiad. Er enghraifft, rydym wedi llithro o fod yn y chwartel uchaf yn 2011/12 i fod yn y chwartel isaf yn 2013/14 ar gyfer y ganran o atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle yr oedd y risg wedi ei rheoli - 88.9% o gymharu â 95.7%.

**Tabl 22**




Tudalen 46

Tudalen 47

**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y rhoddir blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| PI | Disgrifiad | Qtl | Rheswm & Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|
| DSC | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | | Mae model cymorth cymunedol Ynys Môn yn groes i'r diffiniad cenedlaethol. Mae'r tair Canolfan Heneiddio'n Dda yn enghreifftiau allweddol o hyn. Nid yw cefnogaeth a ddarperir yma yn fesuriadwy o dan y mesur hwn.<br><br>Bydd camau'n cael eu cymryd i gael ciplun o bresenoldeb mewn adnoddau cymunedol o'r fath. Nid yw nifer is yma o reidrwydd yn adlewyrchu perfformiad gwael |
| DSC/ MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | | Mae risgiau penodol, hyd yn oed pan eu rheolir , yn aros yn uchel. Rydym yn anelu at well perfformiad drwy wella materion cofnodi data. |
| MAC | SCA/020: Canran y cleientiaid sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | | Gweler SCA/002a |
| MAC | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | | . Mae perfformiad wedi gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn ac rydym yn parhau i geisio cynyddu'r nifer o asesiadau ac adolygiadau a gwblhawyd.. Mae perfformiad yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol |

| Blaenoriaethau a Gwelliannau 2014/15 |
|---|
| • Canolbwyntio ar wasanaethau Dementia a datblygu ein dull o roddi Cefnogaeth sy'n cael ei Gyfeirio gan y Dinesydd<br>• Datblygu ein strategaeth i ailfodelu'r amrediad a'r dewis o lety a gwasanaethau cymorth i Bobl Hŷn<br>• Datblygu rhaglen waith ar y cyd gydag Iechyd i integreiddio gwasanaethau yn y modd a nodir yn y 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Integredig i Bobl Hŷn gydag Anghenion Cymhleth'<br>• Cychwyn yr adolygiad i ailfodelu'r gwasanaethau Anableddau Dysgu<br>• Datblygu ymhellach ein trefniadau i ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a chyda darparwyr yn y 3ydd sector a'r sector annibynnol wrth adolygu ein bwriadau comisiynu<br>• Cyflwyno trefniadau Asesu Integredig diwygiedig ar y cyd gydag Iechyd a darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol i |

staff iechyd a gofal cymdeithasol.

- Cryfhau modelau darparu gwasanaethau sy'n seiliedig yn y gymuned a hynny mewn partneriaeth gydag Iechyd, Tai a'r 3ydd sector drwy'r Grant Gofal Canolraddol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru
- Llunio ein bwriadu comisiynu ar gyfer y dyfodol o ran sicrhau gwasanaethau eiriolaeth annibynnol priodol

# Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol

Yn ychwanegol at yr Amcanion uchod yn ein Cynllun Gwella ar gyfer 2013/14, nododd y Cyngor hefyd yn ei Gynllun Corfforaethol 2013-2017 bod yr isod yn themâu strategol a thymor hwy

1. ***Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn (gweler amcanion uchod y Cynllun Gwella)***
2. ***Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi***
3. ***Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion (gweler amcanion uchod y Cynllun Gwella)***
4. ***Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi***
5. ***Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd***
1. ***Canolbwyntio mwy ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned***
2. ***Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)***



Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, disodlwyd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014/14 gan y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 yn dilyn ymgynghoriad manwl ar y blaenoriaethau diwygiedig. Mae'r dadansoddiad canlynol yn edrych yn fanylach ar berfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y blaenoriaethau hyn ac mae rhai ohonynt hefyd yn cyfrannu tuag at ein Cytundeb Canlyniadau (ac fe nodir hynny). Bydd y dadansoddiad yn edrych ar beth ddywedasom y byddem yn ei wneud a'r modd y bu i ni gyflawni ynghyd â dadansoddi'r targedau a'r mesurau sy'n cyfrannu tuag at y Cerdyn Sgorio Corfforaethol - sef y dull yr ydym yn ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd yn rheolaidd drwy ein fframwaith rheoli perfformiad ar berfformiad ein gwasanaethau a'u cyfraniad tuag at wireddu ein hamcanion corfforaethol.

****Adroddwyd eisoes ar Themâu 1 a 3 fel rhan o'n hamcanion Gwella ar gyfer 2013/14 (gweler uchod)***

## *Thema 2: Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi*

Yn Ein Hynys, Ein Dyfodol (ein Cynllun Integredig Sengl) amlinellir ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth yn y meysydd canlynol

- Creu cyfleoedd o ran swyddi
- Sicrhau fod gan bobl y sgiliau iawn
- Gwneud y mwyaf o botensial Twristiaeth yr Ynys
- Darparu cefnogaeth ar gyfer y Rhaglen Ynys Ynni i ddarparu sylfaen ehangach a chynaliadwy ar gyfer economi'r Ynys yn y 21ain ganrif
- Cefnogi ac annog busnesau amrywiol a chyfleon o ran twf cyflogaeth

Mae'r rhagolygon ar gyfer Ynys Môn yn awgrymu y bydd trawsnewid economaidd a chymdeithasol gyda'r sector preifat yn awyddus i fuddsoddi ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaethau mewnol/allanol allweddol eraill i sicrhau y manteisir ar y cyfleoedd tra'n ymateb yn effeithiol ar yr un pryd i'r heriau. Mae'r thema hon hefyd yn cyfrannu tuag at un o'n 5 **Cytundeb Canlyniad** dan y thema Twf a Swyddi Cynaliadwy.

***Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ar y thema uchod:***

- Cefnogi 17 o ddigwyddiadau busnes a menter Lleol a Rhanbarthol – drwy gyfuniad o'r Gronfa Fuddsoddi Leol (CFL) a thrwy gydweithredu gyda Busnes Cymru.
- Trefnu a mynychu 27 o ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth am y Rhaglen Ynys Ynni
- Paratoi cynlluniau meistr Busnes a oedd yn cynnwys y cyfan o'r safleoedd cyflogaeth mawr yn hytrach na'r

pedwar a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'r cynlluniau meistr yn cynnwys Amlwch, Bryn Cefni, Gaerwen, Mona, Rhosgoch a chynllun meistr ar gyfer arwyddion.

- Cyflawni targed 2013/14 ar gyfer rhyddhau caniatâd cynllunio ar gyfer saith uned fusnes
- Darparu 4 o ddogfennau briffio ar gyfer datblygu Plotiau a 7 Caniatâd Cynllunio ar gyfer unedau busnes
- Cefnogi 19 o fusnesau newydd a chyfredol
- Creu 41 o swyddi newydd (gan ragori ar darged ein Cytundeb Canlyniad am 2013/14)
- Parhau i arwain ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan a welodd esblygiad y Tour de Môn, Gŵyl Bwyd Môr Menai, Gŵyl Gardd Goll, a Marathon Pellter Eithafol y 'Ring of Fire' fel atyniadau pellach i'r Ynys
- Cafodd ffigyrau twristiaeth eu rhyddhau gan STEAM ym Mai 2014 ac roeddynt yn dangos cynnydd sylweddol o 5% (i'w ddilysu). Yn ôl strategaethau twristiaeth lleol, mae cynnydd o 3% yn gynaliadwy yn realistig ac yn gyraeddadwy
- Mae Ynys Môn, gyda'i phrydferthwch naturiol a'i safleoedd hanesyddol unwaith eto wedi ennill lle yymysg 10 ynys orau yn y DU yn ôl adolygiadau gan ddefnyddwyr Tripadvisor
- Mae dros 130 o staff bellach yn gweithio ar safle Wylfa Newydd yn dilyn cyhoeddiad y bydd 15 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu gan ddatblygwyr Pŵer Niwclear Horizon, yn ychwanegol at y 100 o staff a'r contractwyr amser llawn sydd eisoes yn gweithio yn swyddfa Ynys Môn
- Gwnaed cynnydd gyda Datblygu Parc Cybi yn dilyn cytundeb partneriaeth rhwng Conygar a Road King i greu llecyn i loriau, a mwynderau cysylltiedig a 10 o unedau cefnogaeth logistaidd ar safle Caergybi

*A ydym wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

Rydym hefyd wedi nodi dangosyddion perthnasol i helpu i fonitro ac adrodd ynghylch a yw'n hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth yn lleol ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion. Mae'r manylion isod yn ymddangos yng **ngherdyn sgorio'r** gwasanaeth ac yn nodi a ydym wedi cyflawni'r targedau a osodwyd yn llawn, yn rhannol neu ddim o gwbl.

| **Dangosydd** | **Canlyniad 2012/13** | **Canlyniad 2013/14** |
|---|---|---|
| £X o fuddsoddiad preifat a ddiogelwyd | **£459,423.62** | **£636,603** |
| £X o fuddsoddiad cyhoeddus a ddiogelwyd | **£978,000** | **£8,180,000** |
| 3% o gynnydd yn yr ymweliadau twristiaeth | **-3%** | **5%** |
| X nifer y swyddi a gafodd eu creu / eu diogelu | ***123** | **41** |
| X% cynnydd o ran y busnesau newydd a gychwynnodd | **12** | **9** |

**** Mae'r ffigwr gryn dipyn yn uwch na 2012/13 oherwydd nifer o gwmnïau yn creu nifer uchel o swyddi yn ystod y flwyddyn honno (er enghraifft bwyty Dylan's a Babinogion)***

**Mae'r isod wedi cael eu nodi fel meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| Blaenoriaethau a Gwelliannau 2014/15 |
|---|
| • *Datblygu 15 o Achosion Busnes newydd.*<br>• *Datblygu blwyddyn 1 o'r rhaglen tair blynedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlA)*<br>• *Cael cymeradwyo cyllid ar gyfer prosiectau newydd a gyllidir gan yr UE.*<br>• *Sicrhau y bydd Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei pharatoi.*<br>• *Dylanwadu ar ddatblygu rhaglen LEADER newydd ar Ynys Môn*<br>• *Ymateb yn ffurfiol i bolisïau, rhaglenni ac ymgynghoriadau cyllido yr UE.*<br>• *Cyflwyno ceisiadau pellach am gyllid Parth Menter.*<br>• *Parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru o ran Marchnata'r Parth Menter a'r cynllun Cyfathrebu ar ei gyfer*<br>• *Symud ymlaen gyda Ffordd Gyswllt Llangefni gyda chymorth arian Parth Menter.*<br>• *Sicrhau adnoddau o'r Cytundebau Perfformiad Cynllunio gyda datblygwyr mawr i sicrhau y bydd prosesau caniatâd cynllunio statudol yn cael eu cynnal mewn modd gwybodus ac amserol.*<br>• *Sicrhau adnoddau llawn ar gyfer y Swyddfa Rheoli Prosiect (SRhP) gan gynnal capasiti priodol i ymgymryd â gweithgareddau blaenoriaeth.*<br>• *Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).* |



## *Thema 4 – Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi*

Yn ein Cynllun Integredig Sengl (2013-2025), nodir Tai fel blaenoriaeth a bod diffyg tai fforddiadwy addas ynghyd â galw am dai cymdeithasol yn yr ardal, ac mae'n ceisio canolbwyntio ar sicrhau:-

- Fod pobl yn Ynys Môn yn perthyn i gymunedau sy'n gryf, yn llewyrchus, yn gynhwysol ac yn amrywiol
- Bod pobl yn Ynys Môn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Darparu dewis o dai o ansawdd.

Yn ychwanegol at hyn, nodir yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-2017 bod cynyddu ein hopsiynau tai a lleihau tlodi yn un o'n hamcanion allweddol. Rydym hefyd yn parhau gyda'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais penodol ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

Mae'r thema hon hefyd yn cyfrannu tuag un o'r 5 thema yn ein **Cytundeb Canlyniad**

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ar y thema uchod**

- Daethpwyd â 100 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd
- Cymeradwywyd 31 o grantiau adnewyddu ar gyfer prynwyr tro cyntaf [cartrefi gweigion] gyda 100% o'r derbynyddion yn fodlon gyda'r gwasanaeth gan y Cyngor
- Cyllido ar y cyd gyda Grŵp Cynefin 5 eiddo arloesol sy'n cwrdd â safon effeithlonrwydd ynni Passivhaus yn Nwyran drwy ddyrannu Grant Cyfalaf Cymdeithasol y Cyngor - sy'n golygu fod cartrefi yn

cadw cymaint o wres i mewn ag sy'n bosibl ac yn defnyddio cyn lleied o ynni ag sy'n bosibl.

- Darparwyd 41 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Tai Cymdeithasol
- Cofrestr o 327 o ymgeiswyr am dai fforddiadwy ar Gofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg.
- Mae'r Gwasanaeth Tai wedi ceisio sicrhau'r incwm mwyaf posibl ar gyfer aelwydydd er mwyn lleihau'r pwysau ar cyllidebau aelwydydd a chynnal byw'n annibynnol drwy hawlio £2,854,536 mewn budd-daliadau credydau treth a hawliadau i drigolion Ynys Môn.
- Wedi cyllido ar y cyd Swyddog Cynhwysiad Ariannol gyda Chymunedau'n Gyntaf Môn.
- Wedi penodi Swyddog Cynhwysiad Ariannol i gynyddu llythrennedd a galluedd ariannol tenantiaid y Cyngor, h.y. cyngor i denantiaid ynghylch trin arian, cyrsiau rheoli arian, sicrhau'r incwm mwyaf posibl, cymharu ynni ac ati.
- Ailfodelu'r Gwasanaeth Cymorth Tai i gynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref am hyd at ddwy flynedd i'w helpu i gynnal eu llety, byw'n ddiogel ac yn annibynnol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned waeth beth fo'u deiliadaeth.
- Sicrhau'r effeithlonrwydd ynni mwyaf drwy ymestyn y rhwydwaith drwy osod prif gyflenwad nwy i nifer o dai Cyngor a thai yn y sector preifat
- Inswleiddio waliau allanol 25 o anheddau sector cyhoeddus er mwyn lleihau costau tanwydd a gwella perfformiad thermol y stoc dai.
- Atal Digartrefedd am o leiaf 6 mis mewn 88% o'r achosion drwy ddarparu cyngor ac ymyriadau.
- Defnyddio grant adran 180 atal Digartrefedd i gefnogi sefydliadau partner drwy ymestyn oriau agor y gwasanaethau dydd i unigolion digartref a bregus yn ystod misoedd y gaeaf a dosbarthu 10 o becynnau argyfwng i bobl sy'n cysgu allan i sefydliadau digartrefedd.
- Rhoddi grantiau bychain i unigolion sydd â dyledion lefel isel er mwyn eu hatal rhag gwaethygu gan felly leihau'r risg o ddigartrefedd.
- Gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi cydlyniant cymunedol


### *A ydym wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

| Dangosydd | Canlyniad 2012/13 | Canlyniad 2013/14 |
|---|---|---|
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | **275** | **213** |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | **8.63** | **11.98** |
| Number of affordable housing (new build) completed during the year | **98** | **39** |
| Cyfanswm y rhent a gasglwyd yn ystod y flwyddyn gan denantiaid presennol a blaenorol fel canran o gyfanswm y rhent gasglwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol i rai mewn llety parhaol | **95.4** | **94.98** |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau brys | **0.9** | **0.9** |


| | | |
|---|---|---|
| Record diogelwch nwy landlord. -% o eiddo ag offer nwy sydd â record dilys diogelwch nwy landlord | **100%** | **100%** |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid presennol fel canran o gyfanswm y rhent gasglwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | **3.82** | **3.59** |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i osod unedau llety parhaol yn ystod y flwyddyn ariannol (gan gynnwys. DTls) | **83.6** | **74.8** |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i osod unedau llety parhaol yn ystod y flwyddyn ariannol (ac eithrio DTLs) | **49.0** | **36.5** |
| HHA/002 Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd a geir yn statudol ddigartref | **740** | **531** |
| HHA/016 Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast. | **15** | **0** |
| HHA/017b Y nifer o ddiwrnodau, ar gyfartaledd, gwnaeth cartrefi digartref dreulio mewn mathau eraill o lety dros dro | **1224.51** | **621.6** |

Mewn perthynas â'n dangosyddion perfformiad cenedlaethol, rydym yn perfformio'n arbennig o dda o gymharu â chynghorau eraill o ran darparu tai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn – er gwaethaf y ffaith na fu modd i ni wella ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol yn lleol – y ni yw trydydd gorau ledled Cymru (Tabl 23). O ran tai, y ni hefyd yw'r pumed gorau yng Nghymru o ran dychwelyd i ddefnydd anheddau sector preifat sydd wedi bod yn wag am ragor na 6 mis.


**Tabl 23**




**Tabl 24**



**Tabl 25**




Tudalen 54

Rydym hefyd yn falch o fod yn perfformio o fewn y chwartel canolrifol uchaf yn y maes atal Digartrefedd (Tabl 25)

**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y rhoddir blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

**Blaenoriaethau a Gwelliannau 2014/15**

- *Paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth Digartrefedd newydd a ddaw i rym yn Ebrill 2015*
- *Cynnal cynllun peilot o brosiect Aelwydydd Digartref LIC drwy gynorthwyo 120 o bobl i symud ymlaen o fod heb waith drwy fenter LIFT*
- *Comisiynu gweithiwr achos Cyngor ynghylch Dyledion i gefnogi Trigolion Môn. (Byddir yn canolbwyntio'n bennaf ar gleientiaid a chanddynt hanes cymhleth o nifer o ddyledion)*
- *Lleihau tlodi drwy gyflawni'n llwyddiannus ganlyniadau blwyddyn gyntaf y rhaglen LILILIA*
- *Cynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu tai gwag – e.e. benthyca'r blaendal yn ddi-log i brynwyr tro cyntaf*
- *Adeiladu hyd at 23 o dai fforddiadwy newydd*
- *Gwella'r modd y rheolir eiddo gweigion er mwyn cyflawni'r targed o 35 diwrnod – dim yn cynnwys eiddo sy'n anodd i'w gosod*
- *Gwneud anheddau presennol yn fwy effeithlon o safbwynt ynni drwy gwblhau'r llwyddiannus y cynllun ARBED drwy inswleiddio waliau allanol 66 eiddo*
- *Gwella effeithlonrwydd ynni anheddau'r cyngor drwy osod 20 o system solar PV a chaffael gwerth oddeutu £4 miliwn o waith cyfalaf er mwyn parhau i wella stoc dai'r sector cyhoeddus*
- *Gwela'r gefnogaeth i'r rheiny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac unigolion sydd yn ddigartref er mwyn dod o hyd i gartrefi parhaol iddynt drwy gryfhau ein perthynas gyda'r Sector Rhent Preifat*
- *Cynyddu nifer y landlordiaid sydd â statws achrediad a'r landlordiaid hynny sy'n cael anogaeth i ddarparu llety*
- *Nodi safle[oedd] posibl ar gyfer Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a hynny'n unol â'r Asesiad o Anghenion Llety*
- *Cefnogi dinasyddion ar gyfer Credyd Cynhwysol fel rhan o raglen Diwygio Lles y Llywodraeth*
- *Gwneud gwaith pellach i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ar yr Ynys*
- *Ailfodelu ein gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw yn wasanaeth modern ac effeithlon ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor*

## *Thema 5 - Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd*

Mae cyfleusterau chwaraeon a hamdden a'r rhaglenni gweithgaredd y maent yn eu cefnogi â rôl allweddol yn iechyd y gymuned a chynyddu hunanhyder pobl:

Fel rhan o'r thema hon, dywedasom y byddem yn gweithio tuag at fabwysiadu dull mwy integredig o roi sylw i faterion lles yn y dyfodol, dull a fyddai'n caniatáu i ni adolygu ac ailddiffinio rôl chwaraeon a hamdden. Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran y ddarpariaeth chwaraeon a hamdden, dywedasom y byddem yn sicrhau fod ein cyfleusterau/gwasanaethau yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.



Hefyd, dywedasom ein bod eisiau cadw ein lle a'n presenoldeb wrth galon y gymuned gyda'r ddarpariaeth o lyfrgelloedd yn datblygu i fod yn 'ddrws ffrynt cyffredinol' i ni fel cyngor. Bydd hyn yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau er mwyn rhoi i bobl leol fynediad gwell, symlach a hwylusach at y wybodaeth a'r gwasanaethau y maent eu hangen.

Mae'r thema hon hefyd yn cyfrannu at un o'r 5 thema sy'n rhan o'n **Cytundeb Canlyniad** drwy Ddarpariaeth Hamdden sy'n canolbwyntio ar brofiadau'r blynyddoedd cynnar.

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i wella ein gwasanaethau Hamdden a Llyfrgell**

- Datblygu Cynllun Hamdden Tymor Byr a marchnata mwy ar y gwasanaethau hamdden a'r digwyddiadau hamdden cysylltiedig yn y cymunedau
- Ystyried opsiynau posibl ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol fel rhan o Strategaeth Hamdden Tymor Canol a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth - e.e. nifer y bobl sy'n defnyddio'r canolfannau hamdden, fel y gellir gwneud penderfyniadau gwybodus
- Ystyried a datblygu opsiynau posibl a chasglu tystiolaeth fel rhagbaratoad ar gyfer Adolygiad manwl o'r Gwasanaeth Llyfrgell yn 14-15, gan roi sylw arbennig i Ddyletswyddau Statudol y gwasanaeth.
- Comisiynwyd Tîm Ymgynghori i baratoi adroddiad ar Werthusiad o Opsiynau ar gyfer y Gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant ac fe gwblhawyd hynny ddiwedd mis Ebrill 2014 ac mae yn awr yn cael ei ddilyn i fyny

***A ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?***

| Dangosydd | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | **4094.43** | **4024.00** |
| Nifer y deunyddiau llyfrgell wedi'u dosbarthu yn ystod y flwyddyn, fesul bob 1,000 o'r boblogaeth | **4580.80** | **4412.3** |
| Nifer blynyddol o ymwelwyr i Oriel Ynys Môn | **111,422** | **96,729** |
| Nifer blynyddol yr ymwelwyr i'r Safleoedd Treftadaeth Tymhorol: Llys Biwmares a Jail, Melin Llynnon ac Ynys Lawd | **28,130** | **43,277** |
| LCS/002(b): Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | **8109.21** | **8767.00** |
| OA 1APi 03 Nifer y presenoldebau (pobl ifanc) mewn rhaglenni gweithgareddau datblygu / allgymorth chwaraeon | **N/A** | **129,721** |

Tudalen 56

Gan edrych ar wybodaeth genedlaethol gymharol mewn perthynas â'n darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd, cadarnhawyd yr hyn yr oeddem eisoes yn ei wybod. Mae ein perfformiad o ran y bobl sy'n ymweld â'n canolfannau hamdden i wneud gweithgaredd corfforol (Tabl 26) yn weddol dda – oddeutu'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae Tabl 27 yn cadarnhau ein bod, unwaith eto, ar waelod y chwartel isaf yng Nghymru o ran ymweliadau â Llyfrgelloedd.

**Tabl 26**






**Table 27**




**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y rhoddir blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| DP | Disgrifiad | Chtl | Rheswm & Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|
| DSC | LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | | Mae nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ymwneud ag ymweliadau wedi bod yn isel ac angen eu gwella. Mae'r model gwasanaeth a strwythur staffio llyfrgelloedd yn cael ei adolygu |

| Blaenoriaeth a Gwelliannau 2014/15 |
|---|
| • Sefydlu Strategaeth Hamdden tymor hir newydd ar gyfer Ynys Môn er mwyn amlinellu gwasanaeth hamdden cydlynol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol<br>• Gweithredu Rhaglen i newid y Gwasanaeth Hamdden er mwyn cefnogi a chynyddu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a pherfformiad<br>• Ymgysylltu gyda chydranddeiliaid allweddol<br>• Cyflwyno system i archebu gweithgareddau hamdden a chyfleusterau 'Chip 'n Pin' yn y Canolfannau Hamdden<br>• Cynnal a gwella'r gweithgareddau allgyrraedd presennol er mwyn sicrhau fod mwy o bobl yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau<br>• Gwella dulliau marchnata a hyrwyddo er mwyn annog mwy o bobl i fynychu'r canolfannau hamdden (yn cynnwys mentrau'r holl ganolfannau hamdden, yr Uned Datblygu Chwaraeon a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Pobl i Wneud Ymarfer Corff)<br>• Cyflwyno a mabwysiadu opsiwn a ffefrir o ran dyfodol y Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau |

## Thema 6 - *Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned*

Yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-2017, cydnabuwyd gennym fod cryn waith ar ôl i'w wneud i safoni a symleiddio prosesau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr gwasanaeth. Rhan hanfodol o drawsnewid fydd gwrando ar yr hyn sydd gan ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a busnesau i'w ddweud - a gweithredu ar hynny. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i wrando'n ofalus ar ein dinasyddion ac ymgysylltu gyda nhw mewn perthynas â'u blaenoriaethau a'r meysydd lle maent wedi nodi arbedion.

Mae hyn eisoes wedi arwain at well ddarpariaeth o wasanaeth ac ni fedr hyn ond gwella. Dywedasom y byddem yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'n technegau cyfathrebu dwyieithog drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Trdar ynghyd â dulliau traddodiadol megis grwpiau ffocws wyneb yn wyneb, panelau dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus. Dywedasom hefyd y byddem yn datblygu, cymeradwyo ac ymrwymo i siarter cwsmer gadarn a dilys; datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn o ran prosesau'r Cyngor mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a sicrhau atebolrwydd ynghyd ag ymchwilio i safon yr adeiladau lle mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau.



Gwnaed ymrwymiad gennym hefyd i sicrhau fod yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu hyrwyddo drwy weithredu strategaeth Iaith Gymraeg ddatblygedig ac anelu'n gorfforaethol at gyflawni Lefel 5 safon amgylcheddol y Ddraig Werdd.

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym i wella ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid**

- Ymgynghori'r ffurfiol gyda'r Undebau Llafur a'r staff ar y drafft o'r Siarter Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer
- Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i greu teclyn alinio gwerth i staff newydd a staff presennol y Cyngor er mwyn creu rhyngwyneb mwy cyfeillgar a hwylus i'r cwsmer
- Trawsnewid y brif dderbynfa i fod yn brif dderbynfa ar gyfer yr holl Wasanaethau sydd wedi eu lleoli yn y prif adeilad gan greu un pwynt mynediad
- Trefnu i ystafelloedd cyfarfod/cyfweld fod ar gael drwy'r brif dderbynfa
- Symud ymlaen gyda chynlluniau i leoli'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ganolog yn y prif adeilad gydag un tîm gweinyddol
- Sefydlu Fforwm Iaith amlasiantaethol
- Symud ymlaen gyda chynlluniau i symud staff o adeiladau cyfagos (Parc Mownt, hen Ysgol y Graig, Hyfforddiant Môn ynghyd â'r Rovacabin a Thŷ Penyrorsedd) i'r prif swyddfeydd )

| **Blaenoriaethau a Gwelliannau 2014/15** |
|---|
| • *Mabwysiadu'n ffurfiol Siarter Gwasanaeth Cwsmer*<br>• *Creu a mabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer yr Ynys gyfan* |

## *Thema 7 – Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)*

Rhaid i'r Cyngor ddod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianelau megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid ar gyfer nifer o'u hanghenion personol a busnes eraill megis bancio a siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael at yr hyn y maent ei angen, pan y maent angen, lle bynnag y maent ac yn eu dewis iaith. Bydd yr holl ryngweithio, mewnol ac allanol, yn cael ei alluogi'n electronig. Bydd dulliau wyneb yn wyneb a sianelau eraill ar gael ar gyfer y sawl sydd eu hangen. Drwy newid y systemau, bydd modd rhydhhau staff i wneud eu gwaith o fewn ffiniau clir a chan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn ond yn hyblyg.

Bydd ein systemau'n cefnogi ein blaenoriaethau a bydd rhesymoli trwyadl yn golygu y rhoddir y gorau i ddefnyddio'r systemau hynny nad ydynt yn cyflawni hynny.



- Gweithredu system gyllid fodern ac electronig i ddisodli prosesau maniwal, papur, hen-ffasiwn
- Gosod system ddi-wifr gorfforaethol ym mhencadlys y Cyngor fel y gall gwasanaethau weithio'n fwy hyblyg
- Gwelliannau parhaus i ddefnyddioldeb a nodweddion y wefan gorfforaethol gan gyflawni Lefel 3 Seren SocITM
- Gweddarlledu cyfarfodydd allweddol y Cyngor drwy'r wefan gorfforaethol gan wella tryloywder y broses gwneud penderfyniadau ac annog ymgysylltiad dinasyddion
- Mae'r adran wedi bod yn gweithio gyda'r tîm Gweithio'n Gallach i ddatblygu a deall anghenion technolegol y Cyngor yn y dyfodol

**A ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?**

| Dangosydd | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| **SocITM KPI 2**<br>Mesur perfformiad yr uned TGCh yn y gwasanaeth adfer ar ôl digwyddiad "gweithredol" gael ei adrodd gan ddefnyddiwr *<br><br>* Nid yw'n cynnwys Problemau Logio, Prosiectau, Symud Offer | 8,199 Ceisiadau gweithredol a dderbyniwyd<br><br>81.39% wedi datrys o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt | **8,290 o** geisiadau gweithredol a dderbyniwyd<br><br>85.26% eu datrys o fewn amserlen y cytunwyd arni |
| Boddhad y Cwsmer | Dim data | Arolwg i ddigwydd yn 2014/15 |
| Nifer o ganmoliaethau / cwynion swyddogol a dderbyniwyd yn ymwneud â'r Gwasanaeth TGCh | Dim data | derbyniwyd 39 o ganmoliaethau a, derbyniwyd 0 cwyn swyddogol |
| Nifer y ceisiadau am adfer ffeiliau a gwblhawyd yn llwyddiannus | Dim data | 38 o geisiadau wedi'w llogi, 31 o'r rhain wedi eu cwblhau yn llwyddiannus (82%) |
| Barn Swyddogol SOCITM o wefan y Cyngor | 2 seren | **3 seren** |

**Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y rhoddir blaenoriaeth i'w gwella yn 2014/15:**

| **Blaenoriaethau a Gwelliannau 2014/15** |
|---|
| • *Darparu mwy o ffurflenni ar-lein – e.e. ffurflenni cais am swyddi,* |

*ffurflenni cais am fathodynnau parcio i'r anabl*

- *Gwella ymhellach allu'r Cyngor o ran 'delio gyda galwadau'*
- *Ymgysylltu gyda'r grŵp prosiect Gweithio'n Gallach i wella'r profiad ar gyfer gweithwyr sy'n teithio o gwmpas yn eu gwaith*
- *Gwella profiad dinasyddion Ynys Môn pan maent yn cysylltu gydag Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau diogel ar y wefan*


## Dangosyddion Perfformiad – Cyffredinol

O ran rhai o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhan naill ai o'r Amcanion Gwella na'r themâu yn y Cynllun Gorfforaethol, rydym yn gwybod fod ein perfformiad wedi dirywio mewn un maes lle yr oedd ein perfformiad, am nifer o flynyddoedd, y gorau yng Nghymru (**rheoli gwastraff**). Mae'r DP ar gyfer gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirleni wedi symud o'r chwartel canol isaf i'r chwartel isaf rhwng 2012/13 a 2013/14. Yr un modd, mae gwastraff cyhoeddus a gafodd ei gasglu a'i ailddefnyddio neu ei ailgylchu wedi symud o'r chwartel uchaf i'r chwartel canol isaf yn ystod yr un cyfnod (Tabl 28 a 29).


Yn Nhabl 30, gwelir ein bod yn perfformio'n well o ran materion sy'n ymwneud â **gwarchod y cyhoedd**, y ni yw'r 4ydd gorau yng Nghymru yn achos sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio gyda safonau hylendid. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod angen monitro a rhoi sylw i un o'r prif DP o ran **Priffyrdd** (Tabl 31)



**Tabl 28**





**Tabl 29**




Tudalen 60

**Tabl 30**




**Tabl 31**





Mae Tabl 32 a 32 isod yn rhoi darlun graffig o berfformiad y Cyngor ar draws yr holl wasanaethau a Blwyddyn ar Flwyddyn o ran safle y cyfan o'n DP cymharol (DPC a MAC) yn y 4 chwartel. Mae Tabl 32 yn edrych ar y cyfan o'n gwasanaethau ac yn cymharu'r sefyllfa yn 2013/14 yn erbyn y flwyddyn flaenorol ac mae Tabl 33 yn ddarlun graffig o'n sefyllfa o ran y chwarteli rhwng y ddwy flynedd.

**Tabl 32**

| Isle of Anglesey County Council Performance | | 2013/14 Quartile Position | | | | PI Change since 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number of Pis | | Top Quartile | Upper Median | Lower Median | Lower Quartile | Improved | Unchanged | Declined | New Indicator |
| Adult Services | 7 | 2 | 1 | 1 | 3 | 4 | 0 | 3 | 0 |
| Childrens Services | 13 | 4 | 2 | 2 | 5 | 5 | 1 | 7 | 0 |
| Housing | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Economic & Community Regeneration | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Learning | 12 | 8 | 2 | 1 | 1 | 9 | 0 | 3 | 0 |
| Highways & Waste Management | 6 | 0 | 0 | 2 | 4 | 2 | 0 | 4 | 0 |
| Planning & Public Protection | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Isle of Anglesey County Council Total | 44 | 17 39% | 7 16% | 6 14% | 13 30% | 25 57% | 1 2% | 18 41% | 0 0% |

**Tabl 33**




Er ein bod yn ymwybodol y gwelwyd cynnydd yn nifer y DP yn y chwartel uchaf yn ystod 2013/14, rydym hefyd wedi gweld cynnydd, o 7 i 13, yn nifer y DP yn y chwartel isaf. Mae'r modd yr ydym yn rhoi sylw i'r DP hyn o ran ein Hamcanion Gwella a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, wedi cael ei amlinellu yn y rhannau perthnasol o'r Adroddiad Perfformiad hwn. O'r gweddill, dyma'r materion yr ydym yn rhoddi sylw iddynt:-

Mae Tabl 34 (isod) yn cynrychioli'r cyfan o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor – DPC, MAC a SIDs, 118 o ddangosyddion perfformiad – ac eto'n cymharu'r sefyllfa ar ddiwedd 2013/14 gyda'r flwyddyn flaenorol.

| DP | Dangosydd | Qtl | Rheswm & Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|
| MAC | STS / 005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o lendid | | Canlyniad y toriadau diweddar yn y cyllid ar gyfer glanhau ffyrdd a bydd toriadau pellach yn anorfod yn dros y blynyddoedd nesaf |
| DSC | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | | DPA y mae'n anodd cael unrhyw reolaeth uniongyrchol drosto ac sy'n adlewyrchiad o natur wledig ardal y Cyngor |
| MAC | THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | | Mae'r dirywiad yn ganlyniad i doriadau i'r arian refeniw cynnal a chadw priffyrdd y Sir. Cyflwynwyd bid cyfalaf ar gyfer Benthyca Darbodus y Sir ar gyfer 15/16 & 16/17 i liniaru yn erbyn dirywio ymhellach. |
| DSC/ MAC | WMT/004(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | | Gweler WMT/009b isod. |
| DSC | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | | Er yn y chwartel canolrifol isaf, gwelwyd cryn welliant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd y gwasanaethau yn ceisio parhau gyda'r gwelliant hwnnw. |
| DSC/ MAC | WMT/009b Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol a gesglir fel ffynhonnell wastraff fiolegol wedi ei wahanu a | | Mae'r awdurdod hwn yn gyson wedi bod yn y chwartel uchaf ar gyfer ailgylchu ac mae'n parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau o ran y gwasanaeth didoli ar ochr y ffordd. Dirywiad y llynedd oherwydd y newid yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â chategoreiddio ysgubion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall: | | nad oes modd eu hailgylchu mewn modd economaidd. Mentrau i wella'r sefyllfa'n parhau. |

**Tabl 34**


| Perfformiad Cyngor Sir Ynys Mon | | 2013/14 Lleoliad Chwarteil | | | | Newid y DP ers 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number of Pis | | Chwarteil Uchaf | Canolig Uchaf | Canolig Isaf | Chwarteil Isaf | Gwella | Heb Newid | Dirywio | Dangosydd Newydd |
| Oedolion | 11 | 3 | 2 | 1 | 5 | 5 | 0 | 6 | 0 |
| Plant | 47 | 23 | 9 | 7 | 8 | 18 | 8 | 21 | 0 |
| Tai | 8 | 1 | 1 | 1 | 4 | 5 | 0 | 3 | 0 |
| Datblygu Economaidd & Adfywio Cymuedol | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu | 22 | 11 | 4 | 3 | 4 | 13 | 1 | 8 | 0 |
| Priffyrdd & Rheoli Gwastraff | 17 | 2 | 3 | 3 | 8 | 5 | 2 | 9 | 1 |
| Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd | 12 | 7 | 3 | 0 | 2 | 7 | 2 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm Cyngor Sir Ynys Mon** | **118** | **47** 40% | **23** 19% | **15** 13% | **31** 26% | **54** 46% | **13** 11% | **49** 42% | **2** 2% |




Wrth edrych ar fesurau perfformiad eraill, yn arbennig felly'r dangosyddion hynny sydd, fe ystyrir, yn bwysig am eu bod yn rhoi darlun o **iechyd corfforaethol** unrhyw sefydliad, gwellir gweld bod ein **lefelau salwch** wedi gwella ar ddiwedd Ch4 2013/14 o gymharu â'r sefyllfa'r un amser y llynedd (Tabl 35). Mae'r canlyniad, sef **12.38** o ddyddiau'n cael eu colli oherwydd salwch fesul gweithiwr ALIC, er ar ei hôl hi o gymharu â'n targed corfforaethol o 10, yn welliant sylweddol oddeutu 2 ddiwrnod fesul ALIC erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon o gymharu â data 2012/13.

Yr un modd, mae ein proses gyfweld 'dychwelyd i'r gwaith' wedi gwella ers i ni gyflogi cydlynydd salwch a gwelwyd gwelliant corfforaethol cyson yn ystod y tri chwarter diwethaf gyda chyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn codi o 34% (Ch1) i 59% (Ch4) fel y nodir yn Nhabl 36

**Tabl 35**




**Tabl 36**



## Perfformiad Ariannol 2013/14

Roedd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2013/14 yn £129m. Cafodd ei chyllido gan Grant Cymorth Refeniw'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru sef £78.203m, derbyniadau o'r Gronfa Trethi Cenedlaethol Annomestig o £22.025m a derbyniadau Treth Gyngor o £30.212m.

Cydnabuwyd bod rhai risgiau sylweddol wedi eu cynnwys yn y cynigion cyllidebol;

- Cafodd nifer o gynigion am arbedion effaieith ar y ddarpariaeth o wasanaeth;
- Roedd yn bosibl na fyddai'r cyfan o'r cynigion ar gyfer arbedion yn cael eu cyflawni neu'n cymryd amser i'w gweithredu;
- Byddai'n rhaid cwrdd â'r gostyngiad yn nifer y staff a oedd yn rhan o'r cynigion arbedion drwy ddefnyddio arian wrth gefn a fyddai'n lleihau'r arian a fyddai ar gael yn y balansau i gefnogi'r gyllideb yn y dyfodol;



Yn yr adolygiad o'r gyllideb ar gyfer y trydydd chwarter, nodwyd y byddai gorwariant sylweddol, yn bennaf oherwydd y pwysau ar y cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bryd hynny, nodwyd rhai camau gweithredu i gyfyngu'r gorwariant i £1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa wedi gwella'n arw ac yn dangos tanwariant net o £1m, gwrthdroad o £2.4m o gymharu â'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 3.

Y ffactorau sengl mwyaf a gyfrannodd at y gwelliant hwn oedd

- Gwelliant sylweddol o £0.864m yng nghyllideb y Gwasanaeth Addysg, gyda'r prif newidiadau'n codi o'r gostyngiad yng nghostau'r Gwasanaeth Prydau Ysgol; cynnydd yn yr incwm grant ar gyfer cyllido'r chweched dosbarth a lleihad yn y gorwariant ar y gyllideb integreiddio.

- Cafodd nifer o gynigion am arbedion effaith ar y ddarpariaeth o wasanaeth;

- Roedd yn bosibl na fyddai'r cyfan o'r cynigion ar gyfer arbedion yn cael eu cyflawni neu'n cymryd amser i'w gweithredu;

Derbyniodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor adroddiad ar y canlyniadau dros dro yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2014 a oedd yn dangos gorwariant o £846k yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Cyngor. Mae'r canlyniadau diwygiedig yn dangos tanwariant net o £1.217m.

Yn gyffredinol, gellir priodoli'r tanwariant i'r cyfyngiadau cyffredinol ar wariant yn y gwasanaethau mewn ymateb i'r rhagolygon o ran sefyllfa ariannol y Cyngor. Y ffactorau sengl mwyaf a gyfrannodd at y gwelliant hwn oedd:-

**Dysgu Gydol Oes** – Addysg Ganolog – Mae tanwariant net o £118k. Yn y Gwasanaeth, mae nifer o feysydd wedi gorwario sc eraill wedi gwario llai na'u cyllideb. Gellir crynhoi'r symiau mwyaf arwyddocaol fel a ganlyn:

- Cludiant Disgyblion – Gorwariwyd gan £177k ar gost cludo disgyblion i ysgolion a cholegau a hynny ar draws yr holl sectorau, h.y. Cynradd, Uwchradd, Anghenion Arbennig ynghyd â sefydliadau Addysg Bellach.

- Prydau Ysgol Cyfun – Gorwariant o £172k i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod mwy wedi manteisio ar eu hawl i gael cinio am ddim ac mae incwm prydau'r ysgolion cynradd wedi tangyflawni yn erbyn y targed cyllidebol.

- Gweinyddiaeth Addysg Ganolog – Gorwariant o £126k yn y gyllideb hon. Mae'r gorwariant wedi digwydd ar draws sawl maes gan gynnwys cyflenwadau a gwasanaethau ond bu modd ei wrthbwyso'n rhannol gyda'r gorwariant ar gostau ynni a gor-gyflawni o ran incwm/cyfraniadau.

- Cynnal – Gorwariant o £135k – i'w briodoli'n bennaf i gostau'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cynnal nas cyllidebwyd ar eu cyfer – roedd y gwasanaeth yn cynnwys cefnogaeth TG, cefnogaeth Cwricwlwm a rheoli gweinyddiaeth.

- Gwasanaethau Canolog Eraill – Tanwariant o £92k yn y gyllideb rheoli perfformiad yn bennaf oherwydd tanwariant ar gostau contractau. Roedd tanwariant o £96k yn y gyllideb ar gyfer dysgu plant gartref a'r gyllideb salwch a hynny'n bennaf oherwydd tanwariant ar staffio. Hefyd, roedd tanwariant bychan o £24k yn y gyllideb Blas am Oes.

**Cymuned** – Gofal Cymdeithasol – Mae'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn dangos gorwariant o £180k. Dyma'r prif amrywiadau ar gyfer gofal cymdeithasol (ac eithrio'r uned ddarparu):

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed – mae'r maes hwn yn dangos tanwariant o £230k. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r swyddi gweigion yn y Gwasanaeth sy'n werth £84k. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn gweld gostyngiad mewn gwariant o ganlyniad i'r strategaeth i symud i ffwrdd o ofal preswyl i ofalu am bobl yn eu cartrefi.

- Anableddau Dysgu – mae'r maes hwn yn dangos gorwariant o £142k. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i alw nad oedd modd ei ragweld am leoliadau i oedolion mewn gofal preswyl.

- Anableddau Corfforol – tanwariant o £90k yn y maes hwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd tynhau'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwaith addasu yn y cartref.

- Gwasanaethau Plant – mae'r Gwasanaeth yn dangos tanwariant net o £216k ac yn cynnwys tanwariant o £99k yn y gwasanaeth cymorth i deuluoedd. Yr un modd, gwelwyd tanwariant o £73k yn y gyllideb ar gyfer plant gydag anableddau. Fodd bynnag, gwelwyd gorwariant mewn rhannau eraill o'r gyllideb; gan gynnwys gorwariant o £32k ar gostau cyfreithiol a £106k ar leoliadau all-sirol.

**Hamdden a Diwylliant** –Tanwariant o £138k yn y Gwasanaethau **Diwylliant**, a'r prif amrywiadau i'r tanwariant hwn oedd

- Costau rhedeg ychwanegol yn yr archifdy newydd wedi arwain at orwariant o £25k. Safleoedd treftadaeth wedi tanwario gan £15k oherwydd gwelliant yn y perfformiad yn Ynys Lawd. Incwm o ffioedd mynediad ar y blaen i'r gyllideb gan £21k, ond roedd costau rhedeg ychwanegol o £6k yn gwrthbwyso'n rhannol y cynnydd yn y perfformiad o ran incwm.
- Amgueddfeydd ac orielau wedi tanwario gan £5k. Oriel Ynys Môn wedi gorwario gan £35k oherwydd tangyflawni incwm ond gwelwyd tanwariant o £10k yng Ngharchar a Llys Biwmares. Gwelwyd tanwariant pellach o £32k ar

gyllideb gweinyddu'r amgueddfeydd. Roedd tanwariant o £90k yn y Gwasanaeth Llyfrgell yn bennaf oherwydd swyddi gweigion a arweiniodd ar arbedion o £60k. Mae tanwariannau pellach o £30k ar gludiant, cyflenwadau a gwasanaethau.

Gwelwyd tanwariant cyffredinol o £142k yn y Gwasanaeth **Hamdden**; dyma'r prif amrywiadau:

- Roedd gorwariant o £23k yn y gwasanaeth Parciau a chyfleusterau awyr agored. Roedd hyn yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor i 'dynnu allan' yn llwyr o ddarparu'r gwasanaeth o Ebrill 2012 ymlaen. Mae chwaraeon dan do a chyfleusterau adloniant wedi tanwario gan £158k. Mae creu incwm ymhell ar y blaen i'r gyllideb, £120k. Mae tanwariant hefyd o £33k ar y cyllidebau sy'n gysylltiedig ag eiddo. Mae'r patrwm hanesyddol o orwario ar y cwrs golff wedi parhau, swm o £44k.



**Datblygiad Cynaliadwy** – Priffyrdd a Thrafnidiaeth – mae'r gwasanaeth yn dangos gorwariant net o £191k. Y prif amrywiadau yw: Cyllideb gwaith (Traffig, Goleuadau a Chynnal a Chadw) – gorwariant o £198k. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r angen i ymateb i waith brys ychwanegol yn ystod cyfnod y gaeaf.

- Rheoli Datblygu - tanwariant o £82k. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith na chafwyd yr incwm y cyllidebwyd ar ei gyfer. Arall - gwasanaeth hebryngwyr croesfannau ysgol wedi tanwario gan £24k. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nifer sylweddol y swyddi hebryngwyr plant a oedd yn parhau i fod yn wag yn ystod y flwyddyn. Roedd incwm o feysydd parcio yn is na'r gyllideb gan £36k. Roedd hyn i'w briodoli i gyfuniad o ostyngiad yn y gwariant ar daliadau contract ac incwm ychwanegol uwchlaw'r gyllideb.
- Rheoli Gwastraff – Roedd cyfanswm y tanwariant yn £265k. Y prif eitemau oedd gwelliannau o ran Rheoli Nwy ym Mhenhesgyn (£159k), a llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi – arbediad o £60k.
- Cynllunio – Cyfanswm y gorwariant oedd £211k. Y prif eitemau oedd: costau cyfreithiol ac ymgynghorwyr £165k dros y gyllideb oherwydd anghytundeb ynghylch penderfyniadau cynllunio. Roedd y cydweithio gyda Chyngor Gwynedd o ran yr uned bolisi £23k dros y gyllideb. Roedd datblygiad Ynys Ynni £46k yn uwch na'r gyllideb oherwydd gwariant ychwanegol ar gyfrifiaduron.

**Dirprwy Brif Weithredwr** - TGCh – Mae'r gwasanaeth hwn wedi tanwario gan £167k. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o hwn i'r tanwariant ar y gyllideb staffio oherwydd swyddi gweigion. Cyfreithiol a Gweinyddol – Mae'r gwasanaeth hwn wedi tanwario gan £174k o ganlyniad i wahanol elfennau gwasanaeth yn y gyllideb. Tanwariant o £42k yn y Gwasanaethau Pwyllgor. Gwasanaethau Cyfreithiol wedi tanwario oherwydd bod swydd cyfreithiwr yn wag. Tanwariant o £44k ar staffio, net costau asiantaeth a'r CLG yw rhai o'r prif amrywiadau.

**Tai (heb fod yn CRT)** – Mae'r Gwasanaeth hwn yn dangos tanwariant net o £248k. Yn y Gwasanaeth, cafwyd darpariaeth ychwanegol o £53k ar gyfer dyledion drwg yn y Sector Prydlesu Preifat. Mae'r Gwasanaeth yn dangos enillion o £256k mewn perthynas ag arian grant a ryddhawyd o'r arian wrth gefn ar gyfer grantiau. (Mae'r ffigwr net o'r dyledion drwg ac addasiadau ar gyfer y cronfeydd wrth gefn ar gyfer grantiau yn danwariant o £45k).

I. Roedd y pwysau ar gyfraniadau refeniw gan y rhaglen gyfalaf £1.2m yn llai na'r disgwyl.

II. Roedd y sefyllfa o ran derbyniadau rhent yn dda iawn a'r perfformiad o £500k yn well na'r disgwyl.

III. Fodd bynnag, roedd y costau £300k yn uwch na'r disgwyl a bu'n rhaid torri ar gostau gweithredu system gyfrifiadurol newydd.

IV. Costau uwchraddio lifftiau, larymau tân a chyfleusterau carthffosiaeth £200k yn uwch na'r gyllideb.

V. Roedd costau gwaith trwsio a chynnal a chadw refeniw yn uwch na'r disgwyl.



Mae'r gwelliant cyffredinol yn y sefyllfa ar gyfer 2013/14 yn golygu fod gwerth yr arian wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu gan £1.055m. Mae'r sefyllfa newydd yn golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa ychydig yn well i gwrdd ag unrhyw ddiffyg cyllido posibl yn codi o gyfyngiadau ar gyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, oherwydd gwariant net gan ysgolion, gwelwyd cynnydd o £0.334m (cyfanswm) yn y cronfeydd wrth gefn ac felly roedd cyfansawm gwerth arian wrth gefn yr ysgolion ar 31 Mawrth 2014 yn £1.51m (£1.18m yn 2012/13). Cyfyngir y defnydd o gronfeydd wrth gefn yr ysgolion i'r hyn a gymeradwyir gan yr ysgolion unigol ac mae'r sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Roedd gan saith o ysgolion ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (10 ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol).

Gwariodd y Cyngor £24.1m ar brosiectau cyfalaf yn 2013/14, £4.7m yn llai na'r gyllideb a gymeradwywyd. Gwariwyd swm sylweddol ar ail-leoli Ysgol Y Bont (£6.7m), parhau gyda'r rhaglen i wella'r Mân-ddaliadau (£0.7m), Hawliadau Cyflog Cyfartal (£3.3m) a'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol i hyrwyddo gwaith isadeiledd cyfalaf (£1.8m).

Y ffordd orau i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor yw i ba raddau y mae wedi gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau y gwyddys amdanynt a'r arian wrth gefn sydd ganddo ar gyfer risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau yr oeddid yn gwybod amdanynt ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn lle yr oedd angen statudol i wneud hynny, i gwrdd â Chynlluniau'r Cyngor neu lle mae'n ddoeth gwneud hynny i gwrdd â risg neu ansicrwydd.

Ar 1 Ebrill 2013, roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £16.627m ac roedd balans Cronfa'r Cyngor yn £5.9m. Bellach, mae'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn £16.406m, gostyngiad net o £221k. Mae balansau ysgolion wedi cynyddu gan £334k ac maent bellach yn £1.518m. Mae cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy wedi cynyddu gan £1.055m a bellach, mae'r cyfanswm yn £25.534m. Mae cronfeydd wrth gefn nas gellir eu defnyddio wedi gostwng gan £24.912m a hynny i'w briodoli'n bennaf i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau sy'n cyfrif am £22.725m o'r symudiad net.

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor felly'n llawer gwell na'r disgwyl ac yn darparu byffer digonol i gynorthwyo i gwrdd â'r anawsterau a gyfyd yn sgil y sefyllfa sy'n dirywio o ran cyllid llywodraeth leol.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2014/15 hefyd yn cynnwys targedau arbedion sydd i'w cyflawni wrth i'r cyllid a geir gan y llywodraeth barhau i ostwng. Bydd y sefyllfa hon yn parhau am flynyddoedd i ddod wrth i gylidebau dynhau ymhellach gan ei gwneud yn anos i osod cyllideb gytbwys.

## Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd

.Mae’r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydraddoldeb o ran:

- Y modd y mae’n darparu gwasanaethau
- Ei gyfrifoldebau fel cyflogwr mawr a
- sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn gwahaniaethau mewn unrhyw fodd

Rydym yn ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor, i ddileu gwahaniaethu, hambygio ac erledigaeth anghyfreithlon; symud ymlaen i sicrhau cyfleoedd cyfartal a meithrin perthynas dda gyda gwahanol grwpiau.



Rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni’r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16. Mae adroddiad ar y cynnydd a wnaed tuag ag gyflawni’r amcanion hynny hyd at fis Rhagfyr 2013 wedi ei gynnwys yn ein Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ym Mawrth 2014.

Datblygwyd ein hamcanion cyfraddoldeb drwy rwydwaith cydraddoldeb amlasiantaethol – sef Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC). Mae’r Rhwydwaith yn parhau i weithio gyda’i gilydd i rannu arfer dda a gwneud y mwyaf o’r adnoddau sydd ar gael. Cafodd gwaith RhCSCGC ei gydnabod gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a nododd “fod y rhaglen ranbarthol hon a rennir yn ei gwneud yn haws i weithio mewn partneriaeth ac yn arbed amser ac arian i bawb”.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16, ein dogfennau partneriaeth ac adroddiadau cydraddoldeb blynyddol ar gael yn: http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/strategies-plans-and-policies/equality-and-diversity/

## Gweithgaredd Rheoleiddiol - 2012/13

Mae’r Cyngor yn derbyn amryw o adroddiadau rheoleiddiol ac atborth o arolygiadau, adolygiadau ac astudiaethau (lleol a chenedlaethol) bob blwyddyn. Mae’r cynigion a’r argymhellion yn yr adroddiadau hynny yn rhoi atborth defnyddiol i ni o ran y modd y gallwn wella gwasanaethau a’r modd yr ydym yn gweithredu fel Cyngor.

Mae manylion ynglŷn â’n hymateb i unrhyw gynigion neu argymhellion o adroddiadau rheoleiddiol blaenorol ac adroddiadau rheoleiddiol cyfredol a gafwyd yn ystod 2013/14 ar gael yng nghorff yr Adroddiad Perfformiad hwn.

***Adroddiad Gwella Blynyddol (Mehefin 2014)***

Pob blwyddyn rhaid i’r Archwiliwr Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae Cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau’r parciau cenedaethol yn cynllunio ar gyfer gwella’r modd y maent yn darparu eu gwasanaethau. Mae’r adroddiad hwn yn cymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed gan y Cyrff Arolygu yng Nghymru ynghyd â gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol. Mae’r adroddiad yn sôn am y modd y darparodd ac y gwerthusodd Cyngor Sir Ynys Môn ei wasanaethu yn ystod 2012-13; ei gynlluniau ar gyfer gwelliant ar gyfer 2013-14 a chan gymryd y rhain i ystyriaeth, yn dod i gasgliad ynghylch a yw’n credu y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

Canfu’r AGB…

- fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn o ran gwella'r rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond bod angen gwella ymhellach rai gwasanaethau allweddol

- mae gweithdrefnau mwy trwyadl a chyson a datblygu trefniadau llywodraethiant wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau

- Os cânt eu cyflawni'n effeithiol, dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwelliant a'i drefniadau i gefnogi'r gwelliant hwnnw, ei gynorthwyo i gwrdd â'r heriau ariannol a heriau eraill sy'n ei wynebu.

**Llywodraethiant**

Yn ein Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2013/14, nodwyd cynnydd da o ran nifer o'r camau gweithredu a nodwyd yn Natganiad Llywodraethiant 2012-13 fel Materion o Bwys:

- Sefydlwyd Byrddau'r Rhaglen Drawsnewid; Swyddfa Rheoli Rhaglenni Corfforaethol a threfniadau llywodraethiant cysylltiedig;

- Gwnaed cynnydd yn y maes rheoli diogelwch data ac asedau gwybodaeth, ond mae mwy i'w wneud;

Roedd materion ar gyfer y dyfodol yn cynnwys yr angen i'r Cyngor

- *Ddatblygu Strategaeth Gyllidebol ar gyfer y Tymor Canol yn seiliedig ar gynlluniau a rhabdybiaethau cyfredol*
- *Sefydlu'r Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol craidd y Cyngor*
- *Cyflwyno Comisiynu a Pholisi a Strategaeth Gaffael*

## Casgliad

I gloi, rydym yn falch iawn o'n perfformiad yn gyffredinol yn ystod 2013/14 ac fel y gwelwyd yn yr adroddiad hwn, rydym yn cynnal y momentwm tuag at gyflawni ein prif nod, sef bod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru.

O ran ein perfformiad cyffredinol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein hamcanion gwella, y blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol a'r cytundeb canlyniadau ac mae ein perfformiad yn sefydlog. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rhaglen foderneiddio yr ydym yn ei chyflawni drwy ein Cynllun Trawsnewid uchelgeisiol yn dangos bod cysylltiadau clir yn awr rhwng y cyfan o'n prif gynlluniau, strategaethau a phrosiectau a'n bod yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at fod yn gyngor effeithlon, effeithiol, proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda.

Mae gwybod lle mae angen i ni wella yr un mor bwysig â gwybod pa mor dda yr ydym yn perfformio yn gyffredinol ac mae'r gwaith monitro manwl a rheolaidd a'r cyfarfodydd herio gwasanaeth yn rhoddi'r wybodaeth honno i ni – ac mae'r adroddiad hwn yn dangos bod meysydd o hyd lle mae gwendidau sydd angen sylw. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa well nag y buom ynddi ers amser maith ac yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol o ran y rhaglen gwelliant parhaus.

## Ychwaneg o Wybodaeth

I gael gwybod mwy am unrhyw beth yn yr Adolygiad Perfformiad hwn, neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

☏- 01248 752108 neu 01248 752111
GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r Adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cyngor: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllun-corfforaethol/addroddiadau-perfformiad-blaenorol

Tudalen 69

Gellir cael gwybodaeth bellach hefyd fel a ganlyn:

Mae **polisïau, cynlluniau a strategaethau** a gyhoeddir gan y Cyngor ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/council-and-democracy/council-documents

**Cynlluniau Darparu'r Gwasanaethau** – cysylltwch os gwelwch yn dda gyda NevilleEvans@ynysmon.gov.uk

**Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)** ar gael ar wefan y Cyngor drwy glicio ar y ddolen hon: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/asesiadau-allanol/adroddiad-gwella-blynnyddol-swyddfa-archwilio-cymru
Mae **Adroddiadau Archwilio ac Arolygu** a gynhyrchir gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau, fel a ganlyn:
Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:
http://cssiw.org.uk/?skip=1&lang=cy
Estyn: www.estyn.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhwyngrwyd neu os hoffech gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch gyda'r Cyngor ar y manylion cyswllt sydd ar frig y dudalen hon os gwelwch yn dda

## Atodiad 1 – Dangosyddion Cenedlaethol Strategol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2013/14

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Tuedd | Chwarteli 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.1 | 0.28 | 0.00 | ↑ | |
| DCS | EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleolsydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.0 | 25.00 | 0.00 | ↑ | |
| DCS/MAC | EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 78.6 | 84.67 | 87.98 | ↑ | |
| MAC | EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 69.4 | 77.86 | 81.46 | ↑ | |
| DCS | EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | Addysg | > | 63.3 | 64.91 | 61.75 | ↓ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Addysg | > | 428.1 | 514.65 | 593.55 | ↑ | |
| DCS | EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | Addysg | > | 70.4 | 69.57 | 59.09 | ↓ | |
| DCS | EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | Addysg | > | 100.0 | 88.89 | 100.00 | ↑ | |
| MAC | EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Addysg | > | 93.5 | 94.38 | 94.41 | ↑ | |
| MAC | EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Addysg | > | 90.9 | 92.24 | 93.24 | ↑ | |
| DCS | EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | Addysg | > | - | 52.25 | 54.20 | ↑ | |
| DCS/MAC | HHA/013: Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | Tai | > | 81.6 | 88.65 | 88.18 | ↓ | - |
| DCS | LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | Llyfrgelloedd | > | 3965 | 4094.43 | 4024.47 | ↓ | |
| DCS | LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | Datblygu Economi a Adfywio Cymunedau | > | 8090 | 8109.21 | 8767.29 | ↑ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | - | 66.22 | 83.97 | ↑ | |
| MAC | PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | 91.62 | 92.91 | 93.38 | ↑ | |
| DCS/MAC | PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Tai | < | 309 | 275.91 | 213.11 | ↑ | |
| DCS | PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | Tai | > | 4.19 | 8.63 | 11.98 | ↑ | |
| DCS | SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | Gwasanaethau Oedolion | < | 1.06 | 2.53 | 0.55 | ↑ | |
| DCS | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | > | 82.37 | 58.94 | 54.41 | ↓ | |
| DCS | SCA/002b: Cyfardd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | < | 23.6 | 21.93 | 18.16 | ↑ | |
| MAC | SCA/007: Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 78.7 | 82.82 | 87.86 | ↑ | |
| MAC | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 70.1 | 81.73 | 91.28 | ↑ | |

Tudalen 73

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle’r mae’r risg wedi ei reoli | Gwasanaethau Oedolion | > | 95.70 | 92.78 | 88.89 | ↓ | |
| MAC | SCA/020: Canran y cleientiaid sy’n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 82.04 | 84.22 | 80.37 | ↓ | |
| MAC | SCC/001a: Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun Gofal ar waith | Gwasanaethau Plant | > | 90.4 | 90.24 | 96.67 | ↑ | |
| DCS | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | Gwasanaethau Plant | < | 5.7 | 15.69 | 20.00 | ↓ | |
| DCS/MAC | SCC/004: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu lleoli o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Plant | < | 15.4 | 8.75 | 7.79 | ↑ | |
| MAC | SCC/011a: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn | Gwasanaethau Plant | > | 89.2 | 89.81 | 91.63 | ↑ | |
| DCS | SCC/011b: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | Gwasanaethau Plant | > | 55.4 | 59.44 | 55.06 | ↓ | |
| MAC | SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau | Gwasanaethau Plant | > | 91.3 | 90.79 | 90.54 | ↓ | |
| MAC | SCC/030a: Canran y gofalwyr ifanc y mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | Gwasanaethau Plant | > | 97.4 | 83.58 | 86.67 | ↑ | |
| DCS | SCC/033d: d) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed; | Gwasanaethau Plant | > | - | 100.00 | 100.00 | ↔ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | SCC/033e: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | - | 100.00 | 85.71 | ↓ | |
| DCS | SCC/033f: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | - | 62.50 | 42.86 | ↓ | |
| DCS | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | Gwasanaethau Plant | > | 77 | 205.50 | 135.80 | ↓ | |
| DCS | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | Gwasanaethau Plant | > | 96.2 | 95.65 | 77.78 | ↓ | |
| MAC | SCC/045: Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol a'r amserlenni statudol | Gwasanaethau Plant | > | 89.6 | 90.09 | 95.68 | ↑ | |
| MAC | STS/005b: Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 85.6 | 93.70 | 84.46 | ↓ | |
| DCS | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 82.28 | 93.74 | 95.55 | ↑ | |
| DCS | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 69.0 | 69.11 | 70.73 | ↑ | |
| MAC | THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | < | 11.5 | 11.15 | 11.71 | ↓ | |
| DCS/MAC | WMT/004b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | < | 42.19 | 43.72 | 44.11 | ↓ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | WMT/009b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 55.14 | 55.22 | 54.37 | ↓ | |

Tudalen 75

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **9 HYDREF 2014** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AM 2013/14** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BEN DAVIES**<br>**01248 752610**<br>**BenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**(i)** Nodi'r dangosyddion pwyllgor a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2013/14 yn yr adroddiad hwn; a

**(ii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2013/14.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Cydymffurfio gyda'r rheoliadau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Chynllun Dirprwyaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2014/15 (Atodiad 8).

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

d/b

| DD – | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: Cefndir

Atodiad B: Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2013/14 (copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Gorffennaf 2014 ac a gafodd ei sgriwtineiddio ganddo a'i ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 8fed Medi 2014).

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**(a)** Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013/14 (gan gynnwys Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys 2013/14)

**(b)** Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 (Atodiad 8)

**CEFNDIR**

Yn unol â Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys am 2014/15, (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15) cafodd yr adroddiad ar yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2013/14 ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 22 Gorffennaf 2014. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio dderbyn yr adroddiad (Atodiad B) a'i anfon i'r Pwyllgor Gwaith ar 8fed Medi, heb unrhyw sylwadau pellach.  Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a phenderfynwyd i'w derbyn.

# ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AM 2013/14

## Crynodeb

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn trwy reoliadau o dan ddeddf Llywodraeth Leol 2003 gynhyrchu adroddiad blynyddol y Trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys ar ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2013/14. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

O dan y Côd Pwyllog, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol osod dangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca a buddsoddi ymysg ffactorau eraill ymhob blwyddyn. Fe gadarnhaodd y Cyngor ei gyfyngiadau am 2013/14 ar 5 Mawrth 2013 ac mae gwybodaeth am ganlyniadau wedi ei ddarparu.

Yn ystod 2013/14 y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn (a dderbyniwyd ar 5 Mawrth 2013);
- Adroddiadau diweddaru canol y flwyddyn (o leiaf) ar y trysorlys a dderbyniwyd ar 27 Mawrth 2014);
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Gorffennaf 2013 fel rhan o'r hyfforddiant cynefino ar ôl etholiadau Mai 2013. Cafwyd hyfforddiant pellach ym mis Gorffennaf.

Yn ystod 2013/14, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer **Dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol** | **2012/13 Gwirioneddol £000** | **2013/14 Gwreiddiol £000** | **2013/14 Gwirioneddol £000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 16,677 | 19,000 | 20,936 |
| • CRT | 8,751 | 4,900 | 3,169 |
| • Cyfanswm | 25,428 | 23,900 | 24,105 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 81,346 | 88,500 | 86,286 |
| • CRT | 25,062 | 23,700 | 23,903 |
| • Cyfanswm | 106,408 | 112,200 | 110,189 |
| Benthyca Gros | 96,097 | 122,000 | 89,590 |
| Dyled Allanol | 96,097 | 124,000 | 89,590 |
| Buddsoddiadau * | | | |
| • Mwy na blwyddyn | - | | - |
| • O dan flwyddyn | 13,468 | | 9,196 |
| • Cyfanswm | 13,468 | | 9,196 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau a risg gwrth-barti yn parhau.

**Atodiadlenni:**

Atodlen 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2014
Atodlen 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2014
Atodlen 3 - Graddfeydd Credyd Cyfatebol
Atodlen 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Capita Asset Services

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2013/14:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Adrodd yn ôl am y dangosyddion pwyllog a thrysorlys sydd eu hangen;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2013/14

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2012/13 Gwirioneddol (£m) | 2013/14 Amcangyfrif (£m) | 2013/14 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 17 | 19 | 21 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 5 | 3 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **26** | **24** | **24** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT: | 11 | 8 | 9 |
| • Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 5 | 5 | 3 |
| Gwariant Cyfalaf heb ei gyllido – tu allan i'r CRT | **6** | **11** | **12** |
| **Gwariant Cyfalaf heb ei ariannu - CRT** | **4** | **0** | **0** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2013/14 a oedd heb ei ariannu (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf nas ariannwyd neu wariant net o flynyddoedd blaenorol nad ydynt eto wedi cael eu talu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

**3.3 Gostwng y CFR**

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2013/14 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LLCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2013/14 ar 5 Mawrth 2013.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cyngor | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) | 2013/2014 Cyllideb (£m) | 2013/2014 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 79 | 81 | 81 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 6 | 11 | 8 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (3) | (3) |
| Balans Cau | 81 | 89 | 86 |

| CFR CRT | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) | 2013/2014 Cyllideb (£m) | 2013/2014 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 22 | 25 | 25 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 4 | 0 | - |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 25 | 24 | 24 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

### 3.4 Benthyca gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn ddarbodus dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2013 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2014 Gwreiddiol (£m) | 31 Mawrth 2014 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 96.1 | 112.2 | 89.6 |
| CFR | 106.4 | 112.2 | 110.2 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2013/14, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae'r strategaeth hon wedi ei gweithredu yn awr drwy gydol pob un o'r tair blynedd diwethaf. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2013/14 o £20.6m. Mae'r benthyca gros ar 31 Mawrth 2014 yn llai na'r rhagweliad CFR am y 2 flynedd ddilynol.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2013/14.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2013/14 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £122.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £96.1m |
| Terfyn Gweithredol | £117.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £94.0m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 5.43% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 16.62% |

Y rheswm pam fod y costau ar gyfer cyllido Cronfa'r Cyngor ychydig yn uwch na chanran y ffrwd refeniw net oedd oherwydd costau cyllido a oedd yn uwch na'r disgwyl, ynghyd â llai o incwm na'r disgwyl o fuddsoddiadau. Serch hynny, gwrthbwyswyd hyn i ryw raddau gan ffrwd refeniw net a oedd yn uwch na'r disgwyl. Cymeradwywyd ail set o drothwyon o £2m ar gyfer y cyfrifoldebau tymor hir eraill; nid oedd unrhyw gyfrifoldebau o'r fath yn bodoli yn ystod y flwyddyn.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2014

**4.1** Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2013/14 a 2012/13 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2013 | | | 31 MAWRTH 2014 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 96,096 | 5.53 | 26.5 | 89,590 | 5.72 | 26.2 |
| CFR | 106,408 | | | 110,189 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (10,312) | | | (20,599) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | 10,000 | 1.63 | | 5,005 | 0.80 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 3,468 | 0.79 | | 4,191 | | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 13,468 | 1.41 | | 9,196 | 0.58 | |
| | | | | | 0.70 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Ni ddaethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2013 | | 31 MAWRTH 2014 | | 2012/13 a 2013/14 Cyfyngiadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 96.1 | 100 | 89.6 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 6.5 | 7 | 0.0 | 0.0 | 20 | 0 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 0.0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 20 | 0 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 5.5 | 6 | 10.5 | 11.8 | 50 | 0 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 16.8 | 17 | 13.7 | 15.3 | 75 | 0 |
| 10 mlynedd a mwy | 67.3 | 70 | 65.4 | 72.9 | 100 | 0 |

**4.3** Cynyddodd y raddfa benthyca gyfartalog yn ystod y flwyddyn wrth i fenthyciad o £6.5m gyda chyfradd o 2.95% aeddfedu. Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciad allanol newydd. Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn gan ei fod yn anhyfyw oherwydd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol (£4.2m ar 0.58% (31 Mawrth 2013: £3.5m ar 0.79%). O'r adneuon sy'n weddill, roedd £5m yn cael eu dal am gyfnodau o lai na blwyddyn ar gyfradd o 0.80% (31 Mawrth 2013: £10m ar 1.63%).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2013/14

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2013/14 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Cyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2015) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2013/14. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau'r risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Roedd y symud yn yr elw o giltiau yn golygu bod cyfraddau'r PWLB yn codi'n sydyn yn ystod 2013 wrth i farchnadoedd ragweld tapro pryniannau ased gan Fanc y Gronfa Ffederal. Dechreuodd hyn ym mis Rhagfyr 2013 a mabwysiadodd Banc y Gronfa Ffederal yn yr Unol Daleithiau drefn o ostyngiadau misol o $10bn (o fan cychwyn o $85bn), a oedd yn golygu bod prynianau asedau yn debygol o ddod i ben erbyn diwedd 2014. Fodd bynnag, bu'r sefyllfa yn anwadal yn ystod chwarter cyntaf 2014 yn sgil pryderon ynghylch marchnadoedd newydd, gwahanol elfennau bregus yn economi China, perygl cynyddol i barth yr Ewro ddisgyn i ddatchwyddiant, a'r sefyllfa yn yr Ukraine, gan achosi cyfraddau i gwympo a buddsoddi mwy mewn giltiau yn y DU.

**5.2** Roedd y sefyllfa economaidd a'r PWLB a'r cyfraddau buddsoddi fel y gwelir nhw yn Atodiad 4.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2013/14

**6.1** Parhaodd y sail ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers pum mlynedd. Prin iawn fu unrhyw newid yn nisgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol o gwmpas diwedd 2014/dechrau 2015. Arweiniodd y Cynllun Cyllido i Fenthyca at i gyfraddau adneuon barhau'n isel drwy gydol y flwyddyn er i ran o'r cynllun a oedd yn cefnogi darparu credyd ar gyfer morgeisi ddod i ben yn chwarter cyntaf 2014.

**6.2** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni ddefnyddiwyd). Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael yn amrywio rhwng £15m a £35m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.92% neu £332k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £185k (0.80%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £23.1m. Roedd y balans arian parod yn is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag â gyllidebwyd oherwydd cyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2013/14, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol gwladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol a meini prawf 2013/14. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, a RBS) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

**7.4** Yn ystod y flwyddyn, aeddfedodd dau fuddsoddiad tymor sefydlog (y ddau gyda Royal Bank of Scotland(RBS), sef £5.0m yr un (ym Mai 2013 a Thachwedd 2013). Roedd y buddsoddiad a aeddfedodd ym Mai 2013 ar gyfradd o 1.68% ac fe'i hail-fuddsoddwyd yn llawn hefo RBS am 6 mis arall ar gyfradd o 0.95% ac wedi iddo aeddfedu ym mis Tachwedd 2013 cafodd ei ail-fuddsoddi'n llawn gyda RBS am 3 mis arall ar gyfradd o 0.8% ac unwaith eto am 3 mis arall ar 0.8% ar ôl aeddfedu yn Chwefror 2014. Roedd y buddsoddiad o'r flwyddyn flaenorol a aeddfedodd ym mis Tachwedd 2013 ar gyfradd o 1.58% ac fe gafodd ei ail-fuddsoddi gyda RBS ar sail dim rhybudd; y rheswm dros wneud hynny oedd i gadw hyblygrwydd a gostwng risg i'r eithaf ac oherwydd bod cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel. Gwnaed y penderfyniad i fuddsoddi hefo RBS yn bennaf oherwydd eu bod yn un o'r ychydig sefydliadau teilwng o gredyd o ystyried bod llywodraeth y DU yn ei gefnogi.

**7.5** Yn ystod 2013/14, roedd materion graddfa credyd gyda Santander yn parhau a'r cyfnod buddsoddi awgrymedig ar gyfer Santander UK ar adegau yn is na'r trothwy isaf derbyniol. Fel y dywedwyd eisoes, parhawyd i fuddsoddi ar sail galw'n unig gyda Santander UK ar sail dadansoddiad marchnad a chyngor gan ein cynghorwyr Trysorlys. Cryfhaodd sefyllfa Santander drwy'r flwyddyn a chynyddodd hyd fuddsoddi awgrymedig gan Capita i 100 diwrnod a sefydlwyd ar hynny.

**RICHARD MICKLEWRIGHT**
**PENNAETH SWYDDOGAETH DROS DRO (ADNODDAU)**
**SWYDDOG ADRAN 151** **14 GORFFENNAF 2014**

**ATODLEN/ANNEX 1**

## Crynodeb Gwerth Portffolio
## Fel ar 31 Mawrth 2014

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Nominal / Prifswm (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian parod (cyfrifon dwyn llog) (1) | 4,190,538 | 4,240,429 |
| Adneuon Tymor Sefydlog (2) | 5,005,042 | 5,012,467 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | |
| Benthyciad PWLB - Aeddfedrwydd | 89,315,764 | 109,721,038 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 274,315 | 471,031 |

**Gwrthbartïon**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(1)** | Arian parod (Cyfrifon dwyn llog) | | |
| | | Santander | 198 |
| | | Bank of Scotland | 3,174 |
| | | HSBC | 243,670 |
| | | RBS | 3,943,496 |
| | | | 4,190,538 |
| **(2)** | Adneuon Tymor Sefydlog | | |
| | | Royal Bank of Scotland | 5,005,042 |

**ATODLEN/ANNEX 2**

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2014 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2014***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating **** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating **** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating **** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating **** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating **** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating **** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **3** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A** | **F1** | **A2** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis/ Blue - 12 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **244** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa3** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc**** | Santander UK plc | **-** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A** | **F1** | **A2** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Gwyrdd – 100 diwrnod/ Green - 100 days** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **3,943** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.60** | **A** | **F1** | **Baa1** | **P-2** | **A-** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **5,005** | **Tymor Sefydlog/ Fixed Term (3 mis/months)** | **Chwefrord /February 2014 - Mai/ May 2014** | **0.80** | **A** | **F1** | **Baa1** | **P-2** | **A-** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue - 12 months** |

* Ceir y Rhestr Fenthyca a gymeradwywyd yn Atodiad 5 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013/14/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol / The Approved Lending List can be found at Appendix 5 of the 2013/14 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

*** The long term credit rating of RBS was downgraded in March 2014. Given the part nationalised status of this institution the credit rating of the bank are not the determinant of whether to invest.

**** Yn Atodiad 3 ceir y graddfeydd credyd cyfatebol ar gyfer y 3 asiantaeth graddio y cyfeirir atynt uchod./The equivalent credit ratings for the 3 rating agencies referred to above can be found at Appendix 3.

**Graddfeydd Credyd Cyfatebol/**

**Equivalent Credit Ratings (Fitch, Moodys, S&P)**

| **Tymor Hir<br>Fitch<br>Long Term** | **Tymor Hir<br>Moodys<br>Long Term** | **Tymor Hir<br>S&P<br>Long Term** |
|---|---|---|
| AAA | Aaa | AAA |
| AA+ | Aa1 | AA+ |
| AA | Aa2 | AA |
| AA- | Aa3 | AA- |
| A+ | A1 | A+ |
| A | A2 | A |
| A- | A3 | A- |
| BBB+ | Baa1 | BBB+ |
| BBB | Baa2 | BBB |
| BBB- | Baa3 | BBB- |
| **Tymor Byr<br>Fitch<br>Short Term** | **Tymor Byr<br>Moodys<br>Short Term** | **Tymor Byr<br>S&P<br>Short Term** |
| F1+ | d/b / n/a | A-1+ |
| F1 | P-1 | A-1 |
| F2 | P-2 | A-2 |
| F3 | P-3 | A-3 |

## THE ECONOMY AND INTEREST RATES


The original expectation for 2013/14 was that Bank Rate would not rise during the year and for it only to start gently rising from quarter 1 2015. This forecast rise has now been pushed back to a start in quarter 3 2015. Economic growth (GDP) in the UK was virtually flat during 2012/13 but surged strongly during the year. Consequently there was no additional quantitative easing during 2013/14 and Bank Rate ended the year unchanged at 0.5% for the fifth successive year. While CPI inflation had remained stubbornly high and substantially above the 2% target during 2012, by January 2014 it had, at last, fallen below the target rate to 1.9% and then fell further to 1.7% in February. It is also expected to remain slightly below the target rate for most of the two years ahead.

Gilt yields were on a sharply rising trend during 2013 but volatility returned in the first quarter of 2014 as various fears sparked a flight to quality (see paragraph 4.) The Funding for Lending Scheme, announced in July 2012, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks which then resulted in money market investment rates falling drastically in the second half of that year and continuing into 2013/14. That part of the Scheme which supported the provision of credit for mortgages was terminated in the first quarter of 2014 as concerns rose over resurging house prices.

The UK coalition Government maintained its tight fiscal policy stance but recent strong economic growth has led to a cumulative, (in the Autumn Statement and the March Budget), reduction in the forecasts for total borrowing, of £97bn over the next five years, culminating in a £5bn surplus in 2018-19.


The EU sovereign debt crisis subsided during the year and confidence in the ability of the Eurozone to remain intact increased substantially. Perceptions of counterparty risk improved after the ECB statement in July 2012 that it would do “whatever it takes” to support struggling Eurozone countries; this led to a return of confidence in its banking system which has continued into 2013/14 and led to a move away from only very short term investing. However, this is not to say that the problems of the Eurozone, or its banks, have ended as the zone faces the likelihood of weak growth over the next few years at a time when the total size of government debt for some nations is likely to continue rising. Upcoming stress tests of Eurozone banks could also reveal some areas of concern.

*Siart 1: Cyfraddau Benthyca 2013-14*




| PWLB borrowing rates 2013/14 for 1 to 50 years | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
| 2/4/13 | 1.120% | 1.150% | 1.350% | 1.530% | 1.750% | 2.840% | 4.080% | 4.230% | 1.470% |
| 31/3/14 | 1.300% | 1.420% | 1.870% | 2.190% | 2.500% | 3.660% | 4.450% | 4.480% | 1.470% |
| High | 1.450% | 1.630% | 2.230% | 2.620% | 2.970% | 4.100% | 4.670% | 4.700% | 1.480% |
| Low | 1.110% | 1.120% | 1.250% | 1.410% | 1.610% | 2.580% | 3.780% | 4.070% | 1.450% |
| Average | 1.305% | 1.421% | 1.853% | 2.164% | 2.469% | 3.584% | 4.427% | 4.467% | 1.466% |
| Spread | 0.340% | 0.510% | 0.980% | 1.210% | 1.360% | 1.520% | 0.890% | 0.630% | 0.030% |
| High date | 31/3/14 | 31/3/14 | 27/12/13 | 27/12/13 | 27/12/13 | 2/1/14 | 10/9/13 | 10/9/13 | 9/4/13 |
| Low date | 5/4/13 | 15/4/13 | 15/4/13 | 15/4/13 | 15/4/13 | 19/4/13 | 19/4/13 | 3/5/13 | 10/5/13 |

***Siart 2: Cyfraddau Buddsoddi 2013-14***




***Gan: CAPITA ASSET SERVICES – TREASURY SOLUTIONS***

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **PWYLLGOR GWAITH 8 MEDI 2014**<br>**CYNGOR 9 HYDREF 2014** |
| **Pwnc:** | **Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a Phenodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden – Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est. 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad a amlinellir yn "Atodiad 1" i'r adroddiad hwn.

**RHESYMAU**

1. Yn newidiadau'r Comisiynwyr i Reolau Gweithdrefn y Cyngor, mae'r disgrifiad o'r cyfarfod blynyddol yn canolbwyntio ar y cyfarfod a gynhelir mewn blwyddyn etholiad ac mae'n anwybyddu rhai o'r materion sydd yr un mor berthnasol mewn blynyddoedd lle na cheir etholiad.

2. Mae'r pwyslais hwn yn achosi dryswch yn y dehongliad o Reolau Gweithdrefn y Cyngor a byddai o fantais cael eglurhad..

3. Yn ystod Cyfarfod Blynyddol eleni, mewn perthynas ag ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cododd materion mewn cyswllt â'r angen am bleidlais gudd, er nad oedd ond un ymgeisydd. Nid yw cynnal pleidlais gudd yn ofyniad statudol ac roedd yn rhywbeth a grewyd ac a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr oherwydd, bryd hynny, roedd pryder ynglŷn â dylanwad gormodol yn llychwino'r penodiad.

   Rhaid i'r broses o ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd barhau i fod yn swyddogaeth y Cyngor ond nid oes raid cael pleidlais gudd. Rydym yn argymell bod yr angen i gael pleidlais gudd yn cael ei ddileu.

4. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r gofynion Cyfansoddiadol i'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith adolygu bob 12 mis y rhestr o gyrff allanol y gwneir penodiadau iddynt wedi ei ddogfennu yn y Cyfansoddiad. Yn unol â hyn, y mae bellach wedi ei gyflwyno fel eitem safonol i

| |
|---|
| dderbyn sylw yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd yn awtomatig fel y nodir yn adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad.<br><br>**GOBLYGIADAU ARIANNOL**<br><br>Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Adroddiad hwn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ystyrir bod cadw pethau fel ag y maent, er nad yw'n niweidiol, yn rhywbeth nas deisyfir am y rhesymau a ddisgrifiwyd uchod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Oherwydd y bydd gweithredu'r argymhellion yn arwain at newidiadau yn y Cyfansoddiad na all ond y Cyngor llawn eu cymeradwyo ar ôl iddynt gael sylw gan y Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyd awdur yr Adroddiad – felly mae'r sylwadau wedi eu cynnwys |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | d/b |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | d/b |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | d/b |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | d/b |
| **7** | **Sgriwtini** | d/b |
| **8** | **Aelodau Lleol** | d/b |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | d/b |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Y Cyfansoddiad wedi'i ddiwygio |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

3.4.12.2.4 Ni chaiff Arweinydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor.

**3.4.12.3 Cadeirio'r Pwyllgor**

3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.12.

3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol wedi eu cynrychioli ar Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

3.4.12.3.3 Caiff yr Is-gadeirydd ei (h)ethol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

3.4.12.3.4 Penodir cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gan y Pwyllgor.

**3.4.12.4 Cyfarfodydd ac ati**

Mae'r darpariaethau sy'n llywodraethu cyfarfodydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys:

3.4.12.4.1 bod y Pwyllgor (ac is-bwyllgor) yn medru galw tystion (y bydd dyletswydd arnynt i fynychu os ydynt yn aelodau neu'n swyddogion o'r awdurdod, ond ni fydd tyst o unrhyw ddisgrifiad yn gorfod ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn, neu mewn cysylltiad gyda, achosion llys yn Lloegr a Chymru);

3.4.12.4.2 bod cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) yn destun gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu fel y cânt eu hamlinellu yn Rhan VA Deddf 1972.

3.4.12.4.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd y Pwyllgor yn dynodi Swyddog o'r Cyngor i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ond nid Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro na'r Swyddog Adran 151.

**3.4.12.5 Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

3.4.12.5.1 Os bydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi unrhyw adroddiad neu yn gwneud argymhellion ynghylch y ddarpariaeth o staff, llety ac adnoddau eraill gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor, cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis iddynt gael eu hanfon at aelodau'r awdurdod.

**Deleted:** ei ail gyfarfod (gohiriedig) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi enwau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac os oes angen mewn cyfarfodydd eraill) trwy bleidlais gudd, a bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a gofnodwyd" yn cael ei hatal i'r pwrpas hwn

**Deleted:** /223531

**Formatted:** Centered

4.1.1 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor
4.1.2 Cyfarfodydd Cyffredin
4.1.3 Cyfarfodydd Arbennig
4.1.4 Penodi Aelodau dirprwyol i'r Pwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau
4.1.5 Amser a lle'r Cyfarfodydd
4.1.6 Rhybudd a gwys i Gyfarfodydd
4.1.7 Cadeirio'r cyfarfod
4.1.8 Mynychu Cyfarfodydd - Aelodau
4.1.9 Cworwm
4.1.10 Hyd y Cyfarfod
4.1.11 Cyflwyno Deisebau
4.1.12 Cwestiynau gan Aelodau
4.1.13 Cynigion gyda rhybudd
4.1.14 Cynigion heb rybudd
4.1.15 Rheolau trafodaethau
4.1.16 Adroddiad Blynyddol Arweinydd Ynys Môn
4.1.17 Penderfyniadau a chynigion blaenorol
4.1.18 Pleidleisio
4.1.19 Cofnodion
4.1.20 Papurau a chyngor
4.1.21 Cofnod presenoldeb
4.1.22 Gwahardd y cyhoedd
4.1.23 Methu â mynychu Cyfarfodydd
4.1.24 Ymddygiad Aelodau
4.1.25 Aflonyddwch gan y cyhoedd
4.1.26 Canfasio
4.1.27 Atal a diwygio Rheolau Gweithdrefn y Cyngor
4.1.28 Perthnasedd i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau

**4.1.1 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor**

**4.1.1.1 amseriad a busnes y Cyfarfod Blynyddol**

4.1.1.1.1 Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis Cynghorwyr [Blwyddyn Etholiad], cynhelir y Cyfarfod Blynyddol o fewn 21 o ddyddiau yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ym Mawrth, Ebrill neu Fai [Blwyddyn Gyffredin].

4.1.1.1.2 Mewn Blwyddyn Etholiad yn unig, bydd dau gyfarfod o'r Cyfarfod Blynyddol. Bydd y cyntaf yn digwydd o leiaf 10 niwrnod gwaith (a dim mwy na 14 diwrnod gwaith) ar ôl yr etholiadau a bydd yr ail (Cyfarfod Blynyddol a ohiriwyd) yn digwydd 5 niwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod cyntaf. Bydd y cyfarfod cyntaf yn selio â'r holl faterion a restrir yn 4.1.1.2.1 i 4.1.1.2.6, a bydd y cyfarfod a ohiriwyd yn selio â'r materion a restrir yn 4.1.1.2.7 i 4.1.1.2.12. Mewn Blwyddyn Gyffredin, bydd y Cyfarfod Blynyddol yn delio â'r holl faterion a restrir yn 4.1.1.2.1 i 4.1.1.2.12 oni bai iddo gael ei nodi'n wahanol.

Deleted: Fel arfer

Deleted: cyntaf ar ôl Etholiadau Cyffredin Llywodraeth Leol

4.1.1.1.3 Bydd y cyfarfod cyntaf yn delio â'r holl faterion a restrir yn 4.1.1.2.1 i 4.1.1.2.6.

4.1.1.1.4 Bydd yr ail gyfarfod (Cyfarfod Blynyddol a ohiriwyd) yn delio gyda'r holl faterion a restrir yn 4.1.1.2.7 i 4.1.1.2.12.

4.1.1.2 bydd y Cyfarfod Blynyddol yn gwneud y canlynol:

4.1.1.2.1 ethol rhywun i lywyddu os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn bresennol;

4.1.1.2.2 ethol Cadeirydd y Cyngor, a bydd y person hwnnw yn parhau i fod yn y swydd hyd nes ethol Cadeirydd yng nghyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor onid yw yn ymddiswyddo,

(**Sylwer** Mae'n bosib ailethol y Cadeirydd);

4.1.1.2.3 ethol Is-gadeirydd y Cyngor, a bydd y person hwnnw yn parhau i fod yn y swydd hyd nes ethol Is-gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor onid yw ef/hi yn ymddiswyddo.

(Sylwer Mae'n bosib ailethol yr Is-gadeirydd).

4.1.1.2.4 cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod diwethaf;

4.1.1.2.5 derbyn unrhyw gyhoeddiadau a fo gan y Cadeirydd, a/neu Bennaeth y Gwasanaeth Taledig;

4.1.1.2.6 mewn Blwyddyn Etholiad yn unig, ethol yr Arweinydd (yn amodol ar Erthygl 7 ac ar 2.7.3); ar ôl ethol yr Arweinydd, caiff wybod gan yr Arweinydd enw'r Dirprwy Arweinydd y mae ef/hi wedi ei ddewis/dewis;

4.1.1.2.7 cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi eu dewis/cadarnhau i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith;

4.1.2.7 (i) derbyn a chadarnhau'r rhestr o aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith i wasanaethu ar gyrff allanol yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad.

4.1.1.2.8 penodi neu gadarnhau ailbenodi Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgor Safonau a Phwyllgorau eraill y cred y Cyngor ei bod yn briodol eu penodi i ddelio gyda materion sydd ddim wedi eu neilltuo i'r Cyngor nac ychwaith yn swyddogaethau gweithredol (fel a nodir yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn);

4.1.1.2.9 cytuno ar y rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y dywed y Cyfansoddiad y mae'n rhaid i'r Cyngor gytuno arni (fel a nodir yn Rhan 3.2 y Cyfansoddiad hwn);

4.1.1.2.10 cymeradwyo rhaglen o Gyfarfodydd Cyffredin i'r Cyngor am y flwyddyn; ac

4.1.1.2.11 ystyried unrhyw fusnes a nodir yn y rhybudd sy'n galw'r Cyfarfod.

4.1.1.2.12 ar ôl i'r Arweinydd roi gwybod i'r Cyngor am enwau'r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi eu dewis/gadarnhau i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â pharagraff 3.4.12.3 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**Formatted:** Font: Bold

**Deleted:** yn benodol; ac

**Deleted:** , yn yr ail (Cyfarfod Blynyddol a ohiriwyd), enwau y Cynghorwyr y maent wedi'u dewis i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith

**Deleted:** ¶

**Deleted:** penodi



**Deleted:** 223530

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Mai 2014** |
| **Pwnc:** | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Blaenraglen Waith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor a Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol.** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Blaenraglen Waith (BrW) yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Roedd y BrW yn seiliedig yn wreiddiol ar gyfnodau pedwar mis ac yn cael ei ddiweddaru'n chwarterol. Er mwyn cryfhau cynllunio at y dyfodol, penderfynwyd y dylai'r BrW fod yn seiliedig ar gyfnodau hirach na'r pedwar mis gwreiddiol (sef wyth mis).

Yn ychwanegol, gan fod y BrW yn ddogfen hyblyg, fe'i cyflwynir fel eitem safonol misol i'r Pwyllgor Gwaith ac yna fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor yn fisol.

Yn erbyn y cefndir yma, gofynnir am gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith a chymeradwyaeth y Cyngor llawn i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r trefniadau cyfredol sy'n fwy effeithiol, yn hytrach na'r hen ofynion sydd yn parhau i fod yn y Cyfansoddiad.

Gofynnir, felly, i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn y dylid:

cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i ran 4.2.12 y Cyfansoddiad yn unol â'r manylion yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, ac

awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim gan mai diweddariad i'r Cyfansoddiad yn unig yw'r newidiadau arfaethedig a hynny er mwyn adlewyrchu'r arferion cyfredol yn y Cyngor mewn perthynas â'r BrW. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad ond mae hawl gan y Pwyllgor Gwaith i fynegi barn yn y lle cyntaf. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Adroddiad wedi'i gytuno gyda'r Swyddog Monitro. |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yr argymhellir o ran y BrW. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cyfansoddiad y Cyngor. |

### 4.2.12 Blaenraglen Waith ~~ar Gyfer y Dyfodol~~

#### 4.2.12.1 Cyfnod y blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol~~

Paratoir y blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol,~~ am gyfnod o wyth ~~bedwar~~ mis, gan y Prif Weithredwr a bydd yn cael ei ddiweddaru'n fisol ~~bob chwarter~~.

#### 4.2.12.2 Cynnwys y blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol~~

Bydd y blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol~~ yn cynnwys materion y mae'r Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Cyngor llawn yn debyg o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

4.2.12.2.1 yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n ffurfio rhan o'r Fframwaith Polisi ac sy'n gofyn am gymeradwyaeth y cyngor, a pha gorff fydd yn ei hystyried;

4.2.12.2.2 yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith;

4.2.12.2.3 unrhyw faterion unigol y bwriada'r Pwyllgor Gwaith ymgynghori yn eu cylch cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;

4.2.12.2.4 rhaglen waith y Pwyllgorau Sgriwtini, i'r graddau bod hynny'n wybyddus.

#### 4.2.12.3 Cyhoeddusrwydd i'r blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol~~

Cyhoeddir diweddariadau i'r blaenraglen waith ~~ar gyfer y dyfodol~~ ar wefan y Cyngor yn fisol. ~~o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef. Bydd y Prif Weithredwr yn cyhoeddi rhybudd unwaith y flwyddyn mewn o leiaf un papur newydd a ddosberthir yn yr ardal, yn nodi y bydd rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn cael ei chyhoeddi ac yn rhoi'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer y flwyddyn honno.~~

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith 14 Gorffennaf 2014**<br>**Cyngor 9 Hydref 2014** |
| **Pwnc:** | **Rheoliadau Absenoldeb Teuluol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Parry – Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est. 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor:

(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn;

(ii) Sefydlu Is-Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cynnal gwrandawiadau Apêl dan y Mesur;

(iii) Pan mae Aelod yn cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol yn unol â'r Rheoliadau ac yn derbyn cyflog graddfa uwch, ni fydd y cyflog uwch hwn yn cael ei dalu yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol parhau am ragor na phythefnos. Bydd Aelodau'n parhau i dderbyn y lwfans sylfaenol. Gellir penodi dirprwy ar gyfer yr aelod sydd ar gyfnod o absenoldeb teuluol ar yr amod fod y cyfnod hwnnw'n parhau am ragor na phythefnos a bydd hawl gan y dirprwy i dderbyn cyflog uwch lle mae hynny'n briodol.

(iv) Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ddileu cyfnod o absenoldeb teuluol neu i ddod ag ef i ben os nad yw'n dod o dan delerau'r Rheoliadau.

**RHESYMAU**

Mae Rhan 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cyflwyno hawl newydd i gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol cyn belled â bod yr Aelodau hynny'n cwrdd â'r amodau a nodir yn y Rheoliadau newydd a gyhoeddwyd.

**MATERION**

Mae yna bum math o absenoldebau teuluol y gall Aelod fod â hawl iddynt dan y Mesur, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Y rhain yw:

(i) **Absenoldeb mamolaeth** – (hyd at 26 wythnos);
(ii) **Absenoldeb plentyn newydd-anedig** – (hyd at bythefnos);
(iii) **Absenoldeb mabwysiadwr/mabwysiadwraig newydd** – (hyd at bythefnos);
(iv) **Absenoldeb mabwysiadu newydd** – (hyd at bythefnos); a
(v) **Absenoldeb rhiant** – (hyd at 3 mis).

Mae diffiniadau llawn o bob un o'r absenoldebau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

- Mae'r Rheoliadau'n nodi'r darpariaethau isod:-

(i) Rhaid i'r Aelod roi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ("PGD") o fwriad i gymryd absenoldeb teuluol, ynghyd â'r dyddiad pryd y bydd yr absenoldeb yn cychwyn ac yn dod i ben;
(ii) Rhaid i'r PGD gadw cofnod o'r holl hysbysiadau a'r holl gyfnodau o absenoldeb teuluol;
(iii) Os bydd y PGD yn rhoi gwybod i'r Cyngor bod ganddo ef/hi le rhesymol i amau nad oes gan Aelod hawl efallai i'r absenoldeb y rhoddwyd gwybod amdano, gall y Cyngor ddileu'r absenoldeb neu ddwyn yr absenoldeb i ben, neu ddirprwyo awdurdod i wneud hynny i'r Prif Weithredwr neu Swyddog priodol arall;
(iv) Yr opsiwn i Aelod barhau i ddod i gyfarfodydd penodol neu gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod cyfnod o famolaeth neu absenoldeb rhiant, ar yr amod y cafwyd caniatâd gan Gadeirydd y Cyngor;
(v) Bod rhaid cynnwys darpariaethau yn y rheolau sefydlog ynghylch unrhyw ddyletswyddau y gellir caniatáu i'r Aelodau barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol;
(vi) Bod rhaid i'r Cyngor benodi Panel ac arno dri Aelod (na all gynnwys Cadeirydd y Cyngor) i wrando a phenderfynu ar apeliadau gan Aelodau;
(vii) Hawl i Aelod gyflwyno apêl i'r Panel yn erbyn penderfyniad y Cyngor (neu yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Swyddog gydag awdurdod a ddirprwywyd) nad oes gan yr Aelod hawl i absenoldeb teuluol yn dilyn cyfeiriad gan y PDG; ac / neu yn erbyn penderfyniad gan Gadeirydd y Cyngor i wrthod caniatâd i'r Aelod barhau i fynychu cyfarfodydd penodol neu gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi adroddiad atodol sy'n cynnwys y penderfyniadau perthnasol isod:-

(i) Mae gan Aelod hawl i dderbyn cyflog sylfaenol pan fo'n cymryd absenoldeb teuluol dan y Rheoliadau, waeth beth yw cofnod presenoldeb yr Aelod cyn cychwyn yr absenoldeb;

| | | |
|---|---|---|
| (ii) | Pan fo Aelod sy'n derbyn uwch gyflog yn gymwys i gymryd absenoldeb teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn yr uwch gyflog am gyfnod yr absenoldeb os yw'r Cyngor yn penderfynu felly; | |
| (iii) | Bydd gan unrhyw Aelod sy'n dirprwyo ar gyfer Aelod sy'n derbyn uwch gyflog ac sydd wedi cymryd absenoldeb teuluol hawl i dderbyn uwch gyflog; | |
| (iv) | Os yw talu'r uwch gyflog i'r dirprwy yn golygu bod y Cyngor yn mynd y tu hwnt i uchafswm yr uwch gyflogau a ganiateir, ni cheir mynd dros yr uchafswm am y cyfnod y telir uwch gyflog i'r dirprwy heb yn gyntaf gael caniatâd y Gweinidog; a | |
| (v) | Pan fo Cyngor yn cytuno i gael dirprwy ar gyfer aelod sydd wedi cymryd absenoldeb teuluol, rhaid i'r Panel gael gwybod cyn pen 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, gan gynnwys manylion am y swydd benodol ac am ba hyd y bydd yr Aelod yn dirprwyo. | |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'n rhaid gweithredu'r Rheoliadau ond mae rhai o'r elfennau ynghylch sut i'w gweithredu yn ddewisol . Hynny yw, yr argymhellion yn A uchod. Y dewisiadau eraill yw:-<br><br>(ii) Is-Bwyllgor o'r Cyngor<br>(iv) Nad yw unrhyw benderfyniad i ddiddymu yn cael ei ddirprwyo ac yn cael ei gymryd gan y Cyngor llawn<br><br>Ystyrir bod y ddau yn rhy anhylaw a biwrocrataidd. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Oherwydd y bydd gweithredu'r Rheoliadau yn golygu newidiadau i'r Cyfansoddiad nad oes ond modd iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Hyd awdur yr Adroddiad - mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yma. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | d/b |
| **5** | **Eiddo** | d/b |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | d/b |
| **7** | **Sgriwtini** | d/b |
| **8** | **Aelodau Lleol** | d/b |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | d/b |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac mae'r argymhellion hyn yn cydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| (1) Rhannau diwygiedig o'r Cyfansoddiad;<br>(2) Diffiniadau a throsolwg o'r modd y neilltuir swyddogaethau. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013. http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322familyabsenceregsannex1en.pdf<br>2. Adroddiad Atodol Drafft – Absenoldeb Teuluol http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/draft-supp-report-family-absence/?lang=cy<br>3. Canllawiau Drafft Statudol a wnaed dan Adran 30 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322familyabsenceguideannex2en.pdf |

## 2.5 Erthygl 5 – Cadeirio'r Cyngor

2.5.1.2.7 ymgymryd â dyletswyddau fel fydd yn angenrheidiol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol i Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013.

### 3.4.12 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

3.4.12.5 Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd

3.4.12.8 Panel Apeliadau Absenoldeb Teuluol (Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd)

3.4.12.8.1 Rhaid i bob Awdurdod Lleol benodi PanelPwyllgor o'r Cyngor i gynnal gwrandawiadau apêl sy'n codi o'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau").

3.4.12.8.2 **Aelodaeth**

3.4.12.8.2.1 Bydd y Panelr Is-Bwyllgor yn cynnwys tri Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (ni chaiff Cadeirydd y Cyngor fod yn Aelod) ac wrth sefydlu unrhyw Banel, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

3.4.12.8.3 **Dyletswyddau**

3.4.13.3.1 cynnal gwrandawiadau ar gyfer apeliadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn penderfyniad i dynnu hawl i absenoldeb teuluol yn ôl.

3.4.13.3.2 setlo anghydfodau, lle byddai Aelod sydd ar absenoldeb teuluol yn dymuno mynychu cyfarfod/cyfarfodydd penodol, neu gyflawni dyletswydd benodol neu fath o ddyletswydd a lle bod Cadeirydd y Cyngor wedi gwrthod y cais.

#### 3.5.3.16 Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD)

3.5.3.16.11 ymgymryd â dyletswyddau fel fydd yn angenrheidiol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol i Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013.

**4.1.8 ~~Cynghorwyr Sir yn Mynychu Cyfarfodydd Cyrff Nad Ydynt yn Aelodau Ohonynt~~ Cworwm**

Os yw Aelod ar gyfnod absenoldeb teuluol, ac os byddai'n anodd cael dirprwy ar gyfer yr Aelod hwnnw ar sail dros dro, gall Cadeirydd y Cyngor ofyn i'r Aelod hwnnw fynychu cyfarfod os na fyddai cworwm ynddo efallai fel arall. Nid oes rhaid i'r Aelod fynychu.

**4.1.29 Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau**

4.1.29.1 Gall Aelod sydd ar absenoldeb mamolaeth neu ar gyfnod absenoldeb teuluol, yn amodol ar baragraffau 4.1.29.2 a 4.1.29.6 isod:

- Fynychu cyfarfodydd penodol
- Mynychu disgrifiadau penodol o gyfarfodydd
- Cyflawni dyletswyddau penodol; neu
- Cyflawni dyletswyddau o ddisgrifiad penodol.

4.1.29.2 Os rhoddir caniatâd gan Gadeirydd y Cyngor gall fod yn briodol i fynychu yn yr amgylchiadau a ganlyn (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol):

- Os oes gan yr Aelod ddiddordeb neu arbenigedd penodol mewn mater o fusnes/eitem ar y rhaglen, neu
- Os oes busnes brys sy'n cael effaith ar eu hardal leol yn cael sylw; neu
- Os na fyddai cworwm fel arall yn y cyfarfod o bosib.

4.1.29.3 Rhaid i'r Aelod cael caniatâd Cadeirydd y Cyngor cyn mynychu unrhyw gyfarfod neu gyflawni unrhyw ddyletswydd.

4.1.29.4 Rhaid i Gadeirydd y Cyngor roi gwybod i Arweinyddion pob Grŵp Gwleidyddol ar y Cyngor cyn rhoi caniatâd dan baragraff 4.1.29.2 uchod.

4.1.29.5 Gall Aelod wneud cwyn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghylch gwrthodiad dan baragraff 4.1.29.2 uchod.

4.1.29.6 Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gyfeirio cwyn dan baragraff 4.1.29.5 uchod i Gadeirydd y Cyngor.

4.1.29.7 Rhaid i Banel a gyfansoddwyd yn unol â'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 benderfynu cwyn a wnaed dan baragraff 4.1.29.5 uchod.

4.1.29.8 Gall y Panel:

- Cadarnhau penderfyniad Cadeirydd y Cyngor; neu
- Rhoi ei benderfyniad ei hun i mewn yn lle penderfyniad Cadeirydd y Cyngor

## Diffiniadau o Absenoldebau Teuluol

| Math yr Absenoldeb | Diffiniad |
|---|---|
| **Cyfnod Absenoldeb Mamolaeth** | Cyfnod o absenoldeb ar ôl i'r Aelod roi genedigaeth. |
| **Cyfnod Absenoldeb plentyn newydd-anedig (Absenoldeb Tadolaeth)** | Absenoldeb a ganiateir i "riant" y plentyn yn hytrach na'r fam. (h.y. y tad, gŵr, partner). |
| **Cyfnod Absenoldeb Mabwysiadwr/Mabwysiadwraig** | Cyfnod o absenoldeb ar gyfer y sawl sy'n mabwysiadu ac sy'n cychwyn pan leolir y plentyn gyda'r Aelod i'w fabwysiadu. (Absenoldeb Mabwysiadu) |
| **Cyfnod Absenoldeb Mabwysiadu Newydd** | Gall Aelod sydd â "pherthynas" gyda pherson arall sy'n mabwysiadu plentyn gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb mabwysiadu newydd (h.y. wedi priodi â'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn neu'n bartner iddo/iddi).<br>Os yw Aelod yn mabwysiadu plentyn gydag Aelod arall, gall un Aelod ddewis bod yn fabwysiadwr/fabwysiadwraig a derbyn absenoldeb mabwysiadwr/mabwysiadwraig, a byddai gan y llall hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd. |
| **Cyfnod Absenoldeb Rhiant** | Cyfnod o absenoldeb a ganiateir i gynorthwyo Aelod i ofalu am blentyn yr oedd rhywun arall yn gyfrifol amdano cyn hynny. |

## Swyddogaethau partïon perthnasol

| Swyddog | Swyddogaeth |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD) | • Derbyn hysbysiadau ynghylch absenoldeb teuluol, gan gynnwys hysbysu'r bwriad i gymryd absenoldeb, a hysbysiad ynghylch pa bryd y bydd yr absenoldeb yn cychwyn ac yn dod i ben.<br>• Cadw cofnod o'r holl hysbysiadau a rhoi gwybod i Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd pob Grŵp Gwleidyddol am unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd.<br>• Rhoi gwybod i'r Cyngor os nad yw'n ystyried bod gan yr Aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol.<br>• Ysgrifennu at yr Aelod i amlinellu unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cyngor i ddileu'r cyfnod o |

| | |
|---|---|
| | absenoldeb cyn i'r cyfnod gychwyn neu tra bydd yn digwydd.<br>• Derbyn apeliadau gan Aelodau yn erbyn penderfyniad i beidio â chaniatáu absenoldeb (caiff yr apêl wedyn ei throsglwyddo i Gadeirydd y Cyngor). |
| **Cadeirydd y Cyngor** | • Derbyn hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad i ddileu absenoldeb teuluol a chyfeirio gwrando'r apêl i'r Panel Apêl Absenoldeb Teuluol.<br>• Penderfynu pa swyddogaethau y gall yr Aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol ar eu cais (ar ôl ymgynghori gydag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol).<br>• Gofyn i Aelod fynychu'n wirfoddol i bwrpas cael cworwm. |
| **Panel Apêl Absenoldeb Teuluol (Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd)** | • Cynnal gwrandawiadau ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau i ddod ag absenoldeb teuluol i ben.<br>• Cynnal gwrandawiadau os oes anghytundeb ynghylch pa ddyletswyddau y caniateir i Aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod yr absenoldeb. |
| **Cyngor Llawn (Ond gan argymell dirprwyo i'r Prif Weithredwr neu unrhyw Swyddog sy'n gweithredu gyda'i awdurdod/hawdurdod)** | • Gall y Cyngor ddileu cyfnod absenoldeb Aelod cyn iddo gychwyn neu ddod â chyfnod absenoldeb teuluol i ben.<br>• Os yw aelod lleol yn methu â dychwelyd ar ôl bod yn absennol, dal y tâl yn ôl ar gyfer yr Aelod, yn amodol ar benderfyniad y Cyngor llawn. |
| **Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol** | • Hawl i gael gwybod am absenoldebau teuluol.<br>• Ymgynghorir â nhw ar benderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaethau y gall aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor |
| **Dyddiad:** | Pwyllgor Gwaith 14 Gorffennaf 2014<br>Cyngor 9 Hydref 2014 |
| **Pwnc:** | Mynychu o Bell |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Alwyn Rowlands |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Awena Parry – (Cyfreithwraig) (Llywodraethu Corfforaethol)<br>01248 752563 |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION:**

Bod y Cyngor yn:

1. Nodi'r Adroddiad a'r disgresiwn a roddir yn Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
2. Peidio gweithredu trefniadau mynychu o bell ar hyn o bryd neu gyfarwyddo swyddogion i ymchwilio i'r goblygiadau TGCh, staffio a chost sy'n gysylltiedig â gweithredu trefniadau mynychu o bell.

**RHESYMAU:**

Mae Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Mynychu o Bell (sydd newydd ddod i rym) yn galluogi rhai aelodau etholedig i fynychu cyfarfodydd "o bell". Hynny yw, mynychu trwy gyswllt clyweledol, yn hytrach nag yn bersonol. Nid yw'r disgresiwn hwn wedi ei gyfyngu i gyfarfodydd y Cyngor llawn.

Fodd bynnag, mae gweithredu'r trefniadau hyn yn golygu bod raid cydymffurfio gyda nifer o ofynion technegol yn y Mesur. Felly, rhaid i aelod sy'n mynychu trwy gyswllt clyweledol fedru gweld a chlywed y rheini sy'n siarad yn y cyfarfod, a rhaid i'r rheini sydd yn y cyfarfod fedru gweld a chlywed y sawl sy'n defnyddio'r cyswllt clyweledol. Yn ogystal, rhaid i bawb sy'n defnyddio cyswllt clyweledol fedru gweld a chlywed ei gilydd a medru gweld a chlywed unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â hawl i siarad yn y cyfarfod, er enghraifft, yn y Pwyllgor

Cynllunio a Gorchmynion, neu pryd gwahoddir y cyhoedd i siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini.

Bydd yr Aelodau yn sylweddoli bod y gofynion yn fwy cymhleth na'r cynllun peilot ar gyfer gweddarlledu sydd newydd ddechrau, ac y gall bod heriau technegol sylweddol iawn, yn ogystal â chostau uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu trefniadau mynychu o bell.

Mae pryderon ynghylch agweddau technegol gweithredu'r cynllun yn cynnwys:

- risg y bydd y dechnoleg yn methu yn ystod y cyfarfod gan amharu ar y cyfarfod;

- cyfyngiadau o ran lled band;

- methiant aelod i gymryd rhan mewn trafodaeth o ganlyniad i anawsterau technegol a fyddai'n cael effaith ar ddilysrwydd y penderfyniadau a fyddai'n cael eu gwneud yn y cyfarfod, yn arbennig felly pan fo'r bleidlais yn agos;

- materion preifatrwydd (yn y fan lle mae aelod yn cymryd rhan o bell) pan fo'r eitem dan drafodaeth yn eitem sydd wedi ei heithrio (h.y. pan fo'r cyhoedd a'r wasg wedi eu cau allan o'r cyfarfod dan Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth) .

Mae'n debygol hefyd y bydd goblygiadau staffio, gan efallai y byddai'n rhaid cael aelod o staff TGCh i fod wrth law yn y lleoliad gyda'r aelod sy'n defnyddio'r cyswllt clyweledol, a hynny er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio'n iawn a bod aelodau'n cael y cymorth priodol. Byddai angen darparu hyfforddiant i swyddogion ac unrhyw aelodau a fyddai efallai'n dymuno mynychu o bell; er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r agweddau cyfreithiol ond yn bennaf i ddelio ag unrhyw faterion technegol ac ymarferol a fyddai'n codi.

Mae angen cydnabod materion cydraddoldeb hefyd fel rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Efallai felly y byddai angen cael cyfleusterau cyfieithu lefel uwch; a hyd yn oed cyfieithydd wrth law efallai yn y lleoliad ar gyfer yr aelod sy'n defnyddio'r cyswllt clyweledol o bell. Fel rhan o unrhyw benderfyniad i weithredu'r trefniadau hyn, byddai'n rhaid i'r Cyngor benderfynu ar nifer uchaf yr aelodau y byddai'n caniatáu iddynt fynychu o bell ar gyfer unrhyw gyfarfod, ac i nodi'r cyfarfodydd y caniateir i'r aelodau fynychu o bell ynddynt.

Gan mai mater dewisol yw mynychu o bell gofynnir i'r aelodau ystyried yr argymhellion uchod a rhoi cyfarwyddiadau i swyddogion ynghylch sut i fwrw ymlaen.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| Y ddau opsiwn – peidio â defnyddio’r disgresiwn hwn, neu ymchwilio iddo’n fanylach ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Gwaith/Cyngor – mae’r ddau opsiwn hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nid penderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith yw hwn.<br><br>Er mwyn gweithredu’r cynllun, byddai’n rhaid, ymysg pethau eraill, wneud newidiadau i reolau gweithdrefn y Cyngor ac felly mater i’r Cyngor yw hwn yn y pen draw. Fodd bynnag, yn achos newid i’r Cyfansoddiad, mae cyfle i’r Pwyllgor Gwaith fynegi ei farn a chyflwyno argymhelliad i’r Cyngor. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Efallai ddim, ond byddai’n rhaid cael asesiad cynhwysfawr o’r costau. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae materion capasiti mewn perthynas â’r gwasanaethau TGCh a Chyfieithu a allai gael effaith ar y ddarpariaeth gyfredol ac/neu olygu costau ychwanegol drwy brynu capasiti ychwanegol. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac argymhellwyd y dylid gwrthod Mynychu o Bell oherwydd y pryderon technegol a'r goblygiadau tebygol o safbwynt adnoddau y manylwyd arnynt yn yr Adroddiad. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Rhan 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011<br>2. Canllawiau Mynychu o Bell |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith 8 Medi 2014**<br>**Cyngor 9 Hydref 2014** |
| **Pwnc:** | **Newidiadau i'r Fframwaith Polisi** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor ) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden – Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est. 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

**RHESYMAU**

1. O fewn y Fframwaith Polisi fe geir ystod o bolisïau sydd wedi eu rhestru yn Adran 3.2.2.1.1 y Cyfansoddiad. Cafodd y Fframwaith Polisi ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 7 Mai 2002 fel rhan o'r Cyfansoddiad.

2. Mae'r Fframwaith Polisi wedi ei rannu yn 3 rhan :-

   i. 3.2.2.1.1 sy'n nodi'r polisïau sydd angen eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ôl y gyfraith
   ii. 3.2.2.1.2 sy'n nodi'r polisïau y mae'r Cynulliad wedi ei argymell y dylent gael eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn
   iii. 3.2.2.1.3 polisïau eraill y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylent gael eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn.

3. Tros amser, mae'r Fframwaith Polisi wedi dyddio ac mae angen ei newid i adlewyrchu'r statws presennol, ac yn amlwg mae angen adleoli'r polisïau a restrwyd.
4. Er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn gyfoes, rydym yn argymell bod rhan 3.2.2.1 y Cyfansoddiad yn cael ei newid am y Fframwaith Polisi a ddiweddarwyd ac sydd wedi ei atodi fel Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.
5. Mae Atodiad 2 yn nodi pa rannau o'r Fframwaith Polisi cyfredol sydd angen eu dileu, a pha rai ddylid eu diweddaru a pham.
6. Ymgynghorwyd â'r holl wasanaethau fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Fframwaith Polisi ac y maent wedi rhoi eu mewnbwn ac y mae'r polisïau wedi eu diweddaru ar sail hynny a rhai nad ydynt bellach yn bodoli. Cafodd rhai newidiadau sylweddol eu hawgrymu i'r Fframwaith Polisi gan rai swyddogion yn ystod yr ymgynghori, ond oherwydd bod y diwygiadau hyn yn newidiadau ac nid yn ddiweddariadau yn ein barn ni maent yn mynd y tu hwnt i sgôp yr ymarfer hwn ac fe ddylent fod yn rhan o broses wahanol.
7. Mae rhesymau manwl am y diwygiadau a awgrymir yn cael eu hegluro'n llawnach yn Atodiad 2 yr Adroddiad hwn.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r diweddariadau a awgrymir.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr opsiwn arall sydd ar gael i'r Cyngor fyddai gadael y Fframwaith Polisi fel ag y mae ond nid ydym am argymell hwn fel opsiwn o ystyried ei fod bellach wedi dyddio ac na ellir dibynnu arno.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Oherwydd y bydd gweithredu'r argymhellion yn golygu newidiadau cyfansoddiadol na allant ond cael eu cymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae hwn yn ymwneud â'r Fframwaith Polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn.

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cyd awdur yr Adroddiad ac mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yma. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

1. Rhannau o'r Cyfansoddiad a newidiwyd.
2. Dogfennau yn dangos beth sydd wedi ei newid ers y fersiwn ddiwethaf o'r Fframwaith Polisi a'r rhesymau am y newidiadau.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) :**

## Y RHANNAU SY'N NEWID YN Y CYFANSODDIAD

**3.2.1 Y Cyngor llawn fydd yn gyfrifol am gymeradwyo neu am fabwysiadau'r Fframwaith Polisi, y Gyllideb a Throsglwyddiadau Tir Tai.**

**3.2.2 Ystyron**

**3.2.2.1 Y Fframwaith Polisi**

Y Fframwaith Polisi yw'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

3.2.2.1.1 Rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl y gyfraith, hy

- ~~Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad~~
- Cynllun Integredig Sengl
- ~~Cynllun Gwella~~
- Cynllun Corfforaethol
- Dogfen Cyflawni Blynyddol (Cynllun Gwella)
- Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella)
- ~~Cynllun Plant a Phobl Ifanc~~
- ~~Cynllun Gwasanaethau Plant~~
- ~~Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles~~
- ~~Strategaeth Gymunedol~~
- ~~Strategaeth i Ostwng Troseddau ac Anhrefn~~
- Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant ~~Cynllun Datblygiad Blynyddoedd Cynnar~~
- ~~Cynllun Strategol Addysg~~
- Cynllun Cludiant Lleol / Rhanbarthol
- ~~Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion~~
- Cynlluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol (ar wahân i'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio)
- Cynllun yr Iaith Gymraeg
- ~~Cynllun Cyfraith Ieuenctid~~
- ~~Pwerau i gymeradwyo Cynlluniau Partneriaeth Pobl Ifanc a Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc~~
- Polisi Gamblo
- Polisi Trwyddedu
- Datganiad Polisi Tâl
- Cyfraddau Tâl Prif Swyddogion
- Rhestr Flynyddol Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dilyn derbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

3.2.2.1.2 Y cynlluniau a'r strategaethau eraill yr argymhellodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel rhan o'r Fframwaith Polisi, h.y. –

- ~~Cynllun Plant yn Gyntaf~~
- ~~Y Datganiad Cenhadaeth Corfforaethol, amcanion a pholisïau Cynllun Corfforaethol y Cyngor~~
- Strategaeth Dai Leol ~~Strategaeth a Chynllun gweithredol ar gyfer Tai~~
- ~~Cynllun Datblygu Dysgu Gydol Oes~~
- ~~Cytundebau polisi~~

3.2.2.1.3 Y cynlluniau a'r strategaethau eraill y penderfynodd y Cyngor y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol, e.e.-

- Cynllun Rheoli Asedion Corfforaethol
- ~~Y Strategaeth Cludiant Cyhoeddus~~
- ~~Polisïau parthed sicrhau gwasanaethau bysiau a chonsesiynau teithio dan~~
- ~~Adrannau 63 & 93 Deddf Cludiant 1985~~
- ~~Cynlluniau cludiant lleol dan Adrannau 108–109 Deddf Cludiant 2000~~
- Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd
- Cynllun Diogelwch mewn Porthladdoedd
- ~~Strategaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus~~
- Strategaeth ar gyfer Beicio
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Strategaeth Rheoli Gwastraff
- Strategaeth Tir a Lygrwyd
- ~~Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc~~
- ~~Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc~~
- Polisi Indemniadau

## 3.2 Y Cyngor Llawn

**3.2.1 Y Cyngor llawn fydd yn gyfrifol am gymeradwyo neu am fabwysiadau'r Fframwaith Polisi, y Gyllideb a Throsglwyddiadau Tir Tai.**

### 3.2.2 Ystyron

#### 3.2.2.1 Y Fframwaith Polisi

Y Fframwaith Polisi yw'r cynllluniau a'r strategaethau canlynol:

3.2.2.1.1 Rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl y gyfraith, hy

- Cynllun Integredig Sengl
- Cynllun Corfforaethol
- Dogfen Cyflawni Blynyddol (Cynllun Gwella)
- Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella)
- Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant
- Cynllun Cludiant Lleol / Rhanbarthol
- Cynllluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol (ar wahân i'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Cyd Bwyllgor Polisi Cynllunio)
- Cynllun yr Iaith Gymraeg
- Polisi Gamblo
- Polisi Trwyddedu
- Datganiad Polisi Tâl
- Cyfraddau Tâl Prif Swyddogion
- Rhestr Flynyddol Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dilyn derbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

3.2.2.1.2 Y cynllluniau a'r strategaethau eraill yr argymhellodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel rhan o'r Fframwaith Polisi, h.y. –

- Strategaeth Dai Leol

3.2.2.1.3 Y cynllluniau a'r strategaethau eraill y penderfynodd y Cyngor y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol, e.e.-

- Cynllun Rheoli Asedion Corfforaethol
- Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd
- Cynllun Diogelwch mewn Porthladdoedd
- Strategaeth ar gyfer Beicio
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Strategaeth Rheoli Gwastraff
- Strategaeth Tir a Lygrwyd
- Polisi Indemniadau

## 1.0 Cefndir

Mae Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn gosod allan y cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau mewn perthynas ag amrywiol swyddogaethau'r Cyngor. Y Cyngor llawn sydd yn gyfrifol am gymeradwyo neu am fabwysiadu'r Fframwaith Polisi.

## 2.0 Diweddaru'r Fframwaith Polisi

Mae'r cynlluniau a strategaethau a restrir yn y Fframwaith Polisi cyfredol wedi dyddio ac mae angen eu hadolygu er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ayyb. O ganlyniad i wneud ymholiadau gyda'r gwasanaethau, daethpwyd i'r farn:

| **2.1** | y dylai'r **Cyngor llawn gymeradwyo'r strategaethau a chynlluniau a restrir isod,** a hynny am y rhesymau a roddir: | |
|---|---|---|
| 1 | Cynllun Integredig Sengl | Yn disodli o leiaf pedwar o gynlluniau a strategaethau (y Strategaeth Gymunedol, Cynllun Plant a Phobl Ifanc, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a lles a'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (sy'n ymgorffori 3 o strategaethau trosedd ac anrhefn). [Cydamcanu - Cydymdrechu, Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau; Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2012] |
| 2 | Cynllun Corfforaethol | Mae'r tri chynllun yma'n cymryd lle'r un 'Cynllun Gwella' a restrir yn y fframwaith cyfredol ac yn adlewyrchu'r anghenion o ran gwelliant parhaus yn y Canllawiau I Awdurdodau Lleol 2005 a'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru). |
| 3 | Dogfen Ddarparu Flynyddol (Cynllun Gwella) | |
| 4 | Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) | |
| 5 | Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant | Yn disodli Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar (gweler 29). |
| 6 | Cynllun Cludiant Lleol / Rhanbarthol | Dal yn berthnasol (nifer o gynlluniau wedi'u hymgorffori i'r cynllun hwn - gweler 39 a 41). |
| 7 | Cynlluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ((ar wahân i'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio) | Newid bach i'r geiriad er eglurdeb (hy. ychwanegu '*cynlluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys* … ' ). |
| 8 | Cynllun Iaith Gymraeg | Mae hwn yn parhau i fod yn swyddogaeth i'r Cyngor llawn ar hyn o bryd o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fodd bynnag, bydd cynlluniau iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan safonau statudol yn unol â Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. |
| 9 | Polisi Gamblo | Mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn nodi bod angen i'r Cyngor Llawn fabwysiadu hwn. |
| 10 | Polisi Trwyddedu | Mae'r Ddeddf Drwyddedu 2003 yn nodi bod angen i'r Cyngor Llawn fabwysiadu hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.1** | y dylai'r **Cyngor llawn gymeradwyo'r strategaethau a chynlluniau a restrir isod,** a hynny am y rhesymau a roddir: | |
| 11 | Datganiad Polisi Tâl | Mae'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn nodi na ddylai pwyllgorau gwaith mewn awdurdodau ddelio gyda hyn o dan eu trefniadau gweithredol. |
| 12 | Strategaeth Dai Leol | Teitl newydd (yn disodli rhif 36 – Strategaeth a Chynllun Gweithredol ar gyfer Tai). |
| 13 | Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol | Penderfynodd y Cyngor y dylid mabwysiadu'r cynlluniau a'r strategaethau hyn fel mater o ddewis lleol. |
| 14 | Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd | |
| 15 | Cynllun Diogelwch mewn Porthladdoedd | |
| 16 | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy | |
| 17 | Strategaeth Rheoli Gwastraff | |
| 18 | Strategaeth ar gyfer Beicio | |
| 19 | Strategaeth Tir a Lygrwyd | |
| 20 | Polisi Indemniadau | Bu i'r Cyngor fabwysiadu'r polisi hwn am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2011. |
| 21 | Cyfraddau Tâl Prif Swyddogion | Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2014 yn nodi bod rhaid i hyn gael ei fabwysiadu gan y Cyngor. |
| 22 | Rhestr Flynyddol Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dilyn derbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod rhaid i hon gael ei mabwysiadu gan y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.2** | **y dylid tynnu'r** cynlluniau a'r strategaethau a restrir isod **oddi ar y fframwaith polisi** a hynny am y rhesymau a roddir: | |
| 23 | Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad | Wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Addysg Sengl a gafodd ei ddisodli gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac yn ddiweddarach i'r Cynllun Integredig Sengl. |
| 24 | Cynllun Plant a Phobl Ifanc | Wedi'i ddisodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| 25 | Cynllun Gwasanaethau Plant | Ymgorfforwyd y Cynllun hwn yn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a gafodd ei ddisodli wedi hynny gan y Cynllun Integredig Sengl. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.2** | **y dylid tynnu'r** cynlluniau a'r strategaethau a restrir isod **oddi ar y fframwaith polisi** a hynny am y rhesymau a roddir: | |
| 26 | Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | Wedi'i disodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| 27 | Strategaeth Gymunedol | Wedi'i disodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| 28 | Strategaeth i Ostwng Trosedd ac Anrhefn | Wedi'i disodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| 29 | Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar | Wedi'i ddisodli gan y gofyn statudol i gyflwyno Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant (gweler 5). |
| 30 | Cynllun Strategol Addysg | Wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Addysg Sengl a gafodd ei ddisodli gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac yn ddiweddarach i'r Cynllun Integredig Sengl. |
| 31 | Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion | Wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Addysg Sengl a gafodd ei ddisodli gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac yn ddiweddarach i'r Cynllun Integredig Sengl. |
| 32 | Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid | Wedi' i fabwysiadau'n ffurfiol gan Fwrdd Rheoli Tîm Troseddwyr Ifanc Gwynedd a Môn. Nid oes angen ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith na'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu'n ffurfiol. |
| 33 | Pwerau i gymeradwyo Cynlluniau Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc | Wedi'i ddisodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| | | |
| 34 | Cynllun Plant yn Gyntaf | Ymgorfforwyd yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a gafodd ei ddisodli wedi hynny gan y Cynllun Integredig Sengl. |
| 35 | Y Datganiad Cenhadaeth Corfforaethol, amcanion a pholisïau Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gweler rhif 2 (Cynllun Corfforaethol). |
| 36 | Strategaeth a Chynllun gweithredol ar gyfer Tai | Wedi'i disodli gan y Strategaeth Dai Lleol (gweler rhif 12) |
| 37 | Cynllun Datblygu Dysgu Gydol Oes | Rydym yn argymell y dylid dileu hwn yn ei gyfanrwydd gan nad yw'r gwasanaethau perthnasol na'r gwasanaethau cyfreithiol wedi gallu adnabod beth yw ei berthnasedd nag ychwaith sut y daeth i fodolaeth. Yn ychwanegol, nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn arno ac felly wedi dod i'r casgliad ei fod bellach wedi darfod â bod. |

| 2.2 | **y dylid tynnu'r** cynlluniau a'r strategaethau a restrir isod **oddi ar y fframwaith polisi** a hynny am y rhesymau a roddir: | |
|---|---|---|
| 38 | Cytundebau Polisi | Disodlwyd gyda Chytundebau Gwella a gafodd eu disodli'n ddiweddarach, ym mis Mawrth 2010, gyda Chytundebau Canlyniadau.<br><br>(Prosbectws ar gyfer Cytundebau Gwella 2008 – Cwestiynau ac Atebion:<br><br>*Oes angen i'r cytundeb gael ei gymeradwyo gan bwyllgor sgriwtini/y cyngor llawn?*<br>*Mater i chi yw hynny, yn unol â gweithdrefnau arferol o ran gwneud penderfyniadau.  Ond o gofio pwysigrwydd y cytundeb byddwn yn annog cyfranogaeth aelodau wrth eu datblygu a'u cymeradwyo.* |
| 39 | Strategaeth Cludiant Cyhoeddus | Erbyn hyn yn ffurfio rhan o (6) -  Cynllun Cludiant Lleol / Rhanbarthol. |
| 40 | Polisïau parthed sicrhau gwasanaethau bysiau a chonsesiynau teithio dan Adrannau 63 & 93 Deddf Cludiant 1985 | Wedi'u cynnwys erbyn hyn ym mholisi Tocynnau Mantais Teithio Llywodraeth Cymru. |
| 41 | Cynlluniau cludiant lleol dan Adrannau 108-109 Deddf Cludiant 2000 | Erbyn hyn yn ffurfio rhan o (6) -  Cynllun Cludiant Lleol / Rhanbarthol. |
| 42 | Strategaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Erbyn hyn yn ffurfio rhan o (16) -  Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| 43 | Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc | Wedi'i ddisodli gan (1) – Cynllun Integredig Sengl. |
| 44 | Partneriaeth Fframwaith Plant a Pobl Ifanc | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Y Pwyllgor Gwaith - 8 Medi 2014**<br>**Y Cyngor - 9 Hydref 2014** |
| **Pwnc:** | **Rheoliadau Rheolau Sefydlog Newydd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden**<br>**Est. 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell bod y Cyngor yn:

1. Nodi cynnwys y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Diwygiad) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

2. Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i newid y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau sydd raid wrthynt i sicrhau bod y Cyfansoddiad yn gyson gyda Rheoliadau 2014 fel y manylir yn yr Adroddiad hwn. Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud newidiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r newidiadau hynny wedi eu disgrifio yn yr Adroddiad hwn.

**Rhesymau**

3. Yn gryno, mae Rheoliadau 2014 yn newid Rheoliadau 2006 mewn perthynas â'r broses ar gyfer penodi, diswyddo a chynnal ymchwiliadau disgyblu yn erbyn swyddogion penodol. Mae Rheoliadau 2014 hefyd yn cynnwys dyletswydd newydd o ran penderfynu lefel y tâl i Brif Swyddogion sydd wedi eu ddiffinio dan Reoliadau 2006 fel y Prif Weithredwr, Dirprwy Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

4. Dan Reoliadau 2014, mae rôl y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael yr un statws â'r Pennaeth Gwasanaeth Taledig (Prif Weithredwr), y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, mewn perthynas â'r broses y mae'n rhaid i'r Cyngor ei dilyn i gynnal unrhyw ymchwiliad disgyblu a chymryd unrhyw gamau disgyblu. Bydd hyn yn golygu newid y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Disgyblu ac Ymchwilio er mwyn cynnwys

rôl y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel un sy'n dod o fewn eu maes gwaith.

5. Yn ogystal â chynnwys swydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel swydd statudol gyda diogelwch cyfreithiol uwch, mae Rheoliadau 2014 hefyd yn golygu y bydd angen gwneud newidiadau i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Penodiadau'r Cyngor i gynnwys swydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o fewn ei faes gwaith.

6. Yn unol â Rheoliadau 2014, os yw Prif Swyddog yn derbyn tâl o £100,000 neu fwy mae'n rhaid hysbysebu'r swydd yn gyhoeddus. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd penodiad yn cael ei wneud am gyfnod na fydd yn hwy na 12 mis.

7. Mae Rheoliadau 2014 hefyd yn gwneud darpariaethau ychwanegol mewn perthynas â thâl Prif Swyddogion. Bydd raid i unrhyw benderfyniad i osod neu amrywio tâl Prif Swyddog gael ei wneud gan y Cyngor llawn; ac mae gwahrddiad penodol ar ddirprwyo.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes gan y materion yn yr Adroddiad hwn unrhyw effaith ariannol uniongyrchol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'n rhaid gweithredu'r Rheoliadau hyn ac nid oes unrhyw opsiynau eraill.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Oherwydd y bydd gweithredu'r Rheoliadau yn arwain at newidiadau yn y Cyfansoddiad – newidiadau na all y Cyngor eu cymeradwyo heb iddynt gael sylw yn gyntaf gan y Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyd-awdur yr Adroddiad – felly mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yma |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Dim |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| 1. Gorchymyn Rheolau Sefydlog Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygiadau) 2014<br>2. Memorandwm Eglurhaol ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2014 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Dros Dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Fe ŵyr yr Aelodau bod y mater hwn wedi cael sylw mewn adroddiadau blaenorol i'r Cyngor Sir ar 5 Rhagfyr 2013, 27 Ionawr 2014 a 27 Chwefror 2014. Bydd Aelodau yn nodi fod Rhybudd o Gynigiad wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 8 Mai fel a ganlyn:

- *"Ailystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Lled-farnwrol a phob pwyllgor neu is-bwyllgor arall o'r Cyngor Sir a rhoi sylw i ofynion mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth"*
- *Cyfeirio'r mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*

1.2 Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r mater i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

1.3 Yn unol â'r uchod, gofynnir i'r Pwyllgor yn awr roi sylw pellach i'r mater a llunio argymhellion ar gyfer y Cyngor Sir.

1.4 Fe ŵyr yr Aelodau fod yr amserlen o gyfarfodydd bellach wedi ei chyhoeddi ar gyfer y cyfnod tan Ebrill 2015 a bod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cychwyn fel arfer am 2.00pm. Fel rhan o raglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol, efallai y bydd Aelodau yn dymuno cyflwyno sylwadau ar yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn sirol nesaf a'r galwadau ar Aelodau.

**2.0 Argymhelliad**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ar y mater hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - Dros Dro10 Mehefin 2014**

Papurau Cefndir:-

1) Adroddiad i'r Cyngor Sir 5 Rhagfyr 2013
2) Adroddiad i'r Cyngor Sir 27 Ionawr 2014
3) Adroddiad i'r Cyngor Sir 27 Chwefror 2014

This page is intentionally left blank